Y DRYSORFA.

Rhif. 714.] EBRILL, 1890. [Llyfr LX.

PWYSIGRWYDD ATHRAWIAETH Y DRINDOD.

GAN Y GOLYGYDD.

Y mae y gwirionedd fod Duw yn bod yn Dri o Bersonau yn un a gredir yn ddiammheuol gan yr holl Eglwysi uniongred. Ac eto y mae lle i ofni mai prin y gellir galw y cydsyniad oer a difater a roddir i'r athrawiaeth hon gan lïaws yn grediniaeth. Gallai fod y dirgelwch ofnadwy sydd yn amgylchynu y gwirionedd hwn yn peri i lïaws o Gristionogion da ei adael heibio, fel peth nad oes ganddynt hwy ddim i'w wneyd âg ef ond ei dderbyn ar sail tystiolaeth yr Ysgrythyr fel erthygl yn eu credo. Addefant fod yr athrawiaeth yn wir, a dyna y cwbl ar ben. Am fod y gwirionedd hwn (yn ngeiriau rhagorol yr *Hyfforddwr)* yn "ddirgelwch mawr i'w gredu ac nid i'w amgyffred," tybir nad oes eisieu meddwl nemawr am dano, na theimlo dim neillduol yn ei gylch. Nid yw yn destyn myfyrdod. Nid yw yn ddefnydd mawl. Ni chlywir bron byth bregethu arno. Ni wneir un amser bron gyfeiriad ato mewn sylw na phrofiad yn y Cyfarfod Eglwysig, nac mewn ymddyddanion crefyddol. Tra y mae cariad Duw, gogoniant Crist, a digonolrwydd yr Iawn, wedi cynhyrfu llawer enaid, fel y dylent wneyd, i orfoledd—buasid yn edrych ar y Cristion hwnw fel yn perthyn i ryw ogaeth anghyffredin a fuasai yn cael ei godi i hwyl gorfoledd wrth fyfyrio ar athrawiaeth y Drindod. Ac nid yn unig, nid edrychir arni hi ei hunan yn destyn gorfoledd, nid edrychir arni chwaith fel yn dwyn unrhyw berthynas neillduol â'r athrawiaethau sydd felly. Mewn gair, collir golwg bron yn gwbl gan lïaws ar bwysigrwydd hanfodol yr athrawiaeth hon i holl gynllun iachawdwriaeth; ar ei sylfeini moesol a'i pherthynas ddofn â'r gydwybod; ac ar ei dylanwad, fel crediniaeth fywiol ac ymarferol, ar holl fywyd y Cristion.

Tra gwahanol i hyn oedd agwedd meddwl yr Eglwys Foreuol tuag at y gwirionedd hwn. Edrychent hwy arno fel sylfaen holl athrawiaethau yr Efengyl. Iddynt hwy, hwn oedd gwirionedd gwreiddiol Cristionogaeth, o'r hwn yr oedd ei holl wirioneddau neillduol yn tarddu. Ymddengys o'r amseroedd boreuaf, mai "cydnabyddiaeth dirgelwch Duw" fel Tri o Bersonau oedd ammod anhebgorol derbyniad i'r Eglwys Gristionogol. Bedyddid Cristionogion, yn ol yr hanesion boreuaf sydd ar gael, yn enw y Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glân. Yr oedd cydnabyddiaeth o'r Enw hwn yn cael edrych arno fel cyffes o swm a sylwedd gwirioneddau Cristionogaeth. Ac y mae yn amlwg i bob darllenydd diduedd o'r Testament Newydd fod y gwirionedd hwn fel gwreiddyn i holl ddysgeidiaeth yr Apostolion. Dangosir hyn nid yn unig mewn adnodau uniongyrchol ar y mater, ond yn llawn cymaint, ac yn fwy, yn y modd y maent o hyd yn ei gymeryd yn ganiatäol. Pan wresogir eu calonau

wrth ymdrin â gwirioneddau gogoneddus yr Efengyl, neu wrth gyfarch y saint yn nechreu eu llythyrau, a chanu yn iach iddynt yn eu diwedd, y mae y gwres yn tori allan yn fflam o fawlgân i'r Drindod Fendigaid, ac yn ddymuniadau am y bendithion ysbrydol sydd yn deilliaw oddiwrth Dduw, fel y mae yn Dad, Mab, ac Ysbryd Glân. Dengys hyn y lle mawr oedd i'r gwirionedd hwn yn eu dysgeidiaeth ac yn eu profiad. Nid ydyw i'w weled yn fynych ar y wyneb mewn gosodiadau ffurfiol, "am yr un rheswm," fel y dywed un ysgrifenydd, "ag nad ydym yn gweled gwreiddiau pren neu sylfeini tŷ." "Ond y mae yr un mor amlwg," meddai, "fod holl feddwl a chalon yr Apostolion wedi eu bedyddio i enw a bywyd y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glân."* Edrychent ar y gwirionedd hwn fel sylfaen gyffredin yn gorwedd o dan holl wirioneddau neillduol yr Efengyl. Yr ydoedd yn rhoddi ffurf i'w meddyliau a'u haddysg yn anymwybodol iddynt. A phan gyfodai y bywyd ysbrydol yn eu heneidiau i'w fanau mwyaf dyrchafedig, esgynent yn naturiol oddiar yr uchelfanau hyny, mewn mawl a gweddi, at y Tri Pherson yn Un Duw Tragywyddol, o'r hwn a thrwy yr hwn ac i'r hwn y mae pob peth.

Mewn amseroedd diweddarach, fel y sylwa yr ysgrifenydd a ddyfynwyd yn barod, cymhwysiadau o'r gwirioneddau hwn mewn athrawiaethau neillduol, megys yr Iawn a Chyfiawnhâd, sydd wedi cael y lle blaenaf yn meddwl yr Eglwys Gristionogol, tra y mae athrawiaeth y Drindod wedi ei gwthio yn ol. Edrychir arni fel rhyw syniad athronyddol ar yr hwn y mae gwirioneddau ymarferol wedi eu seilio. Ond yn oes gyntaf yr Eglwys, yn ngeiriau Wace, y dadguddiad o'r Drindod ei hunan, o berthynasau y Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glân, â'u gilydd, ac o'u perthynasau grasol â dyn, oedd yn ysbrydoli meddwl Cristionogol. A hwn oedd y mwyaf o bob gwirionedd ymarferol.†

Y mae fod athrawiaeth mor sylfaenol a phwysig yn cael lle gymaint yn llai yn meddwl yr Eglwys erbyn hyn, yn arwydd, dybygem, nid o gynnydd, ond o ddirywiad. Dengys fod tôn y bywyd ysbrydol yn fwy egwan yn awr nag yn nghanrifoedd cyntaf Cristionogaeth. Gwir y dylem gofio fod yr adeg gynnar hono yn ei gwneyd yn anghenrheidiol i ymchwilio mewn gwedd bynciol i wirioneddau sylfaenol Cristionogaeth. Yr oedd anghen am hyn, yn wyneb cyfodiad heresiau, tuag at benderfynu ystyr y dadguddiad Dwyfol o'r gwirioneddau; a thrwy hyny, cymerasant eu lle yn raddol, ar ol dadleuon hirfaith a blinderus, yn erthyglau pendant yn Nghredo yr Eglwys. Yr oedd hyn yn achlysur i gadw athrawiaeth y Drindod yn bresennol o flaen meddwl yr Eglwys gydag arbenigrwydd neillduol yn y cyfnod hwnw. Eithr nid yw hyn yn gwrthbrofi, ond yn hytrach yn dwyn tystiolaeth i'r pwysigrwydd a deimlid oedd yn perthyn i'r gwirionedd hwn yn y Dadguddiad Dwyfol, ac i'w berthynas hanfodol â Christionogaeth fel athrawiaeth ac fel bywyd.

Gyda "gwylder a pharchedig ofn" y dymunem son am y dirgelwch gogoneddus hwn: nid i geisio ei egluro, bid siwr, gan ei fod yn anamgyffredadwy; ond i alw sylw at ei bwysigrwydd fel gwirionedd sylfaenol dadguddiad yr Efengyl, ac fel y mae, trwy ei gysylltiadau bywiol â'r oll o Gristionogaeth, yn ffynnonell y dylanwad cryfaf ar fywyd y Cristion.

1. Y mae y gwirionedd hwn yn *ddirgelwch.* Y mae dirgelwch yn ngweithredoedd Duw—y mae mwy yn Nuw ei hunan. Y mae Duw yn fwy o ddirgelwch na dim a wnaeth. Efe yw

* Wace's *Christianity and Morality*, p. 278.

† *Christianity and Morality*, p. 279.

y Dirgelwch mwyaf—Dirgelwch y dirgelion. A'r dirgelwch mwyaf, dybygid, sydd yn perthyn i Dduw ydyw, y *dull o fod* sydd yn briodol i'r Hanfod Ddwyfol. Dadguddiad o'r dwfn ddirgelwch hwn ydyw athrawiaeth y Drindod. Rhoddir ar ddeall i ni fod Duw yn bod yn Dri o Bersonau, ac eto yn Un Duw—y Tri yn Un, a'r Un yn Dri. Dyma ddirgelwch annhraethol bell uwchlaw natur a rheswm. Eto nid yw yn groes i reswm. Ac nid yw heb gysgodau egwan o hono mewn natur. Y mae yn egwyddor mewn natur, mai po uwchaf yr esgynwn yn ngraddfa bywyd, fod pob rhan neu allu yn y creadur yn dyfod yn fwy gwahaniaethol, ac ar yr un pryd yr undeb yn fwy perffaith. Hyd yn nod sylwedd materol, perthyna iddo liw, a llun, a maint: dyma dri ansawdd mewn un sylwedd. Yn enaid dyn ceir rheswm, serch, ac ewyllys, ac eto y tri hyn un ydynt—un enaid.* Wrth gymeryd dyn yn ei holl natur, ni a gawn drindod fechan mewn undod—corff, enaid, ac ysbryd, yn gwneyd i fyny un dyn. Coleridge, os ydym yn iawn gofio, sydd yn gwneyd y sylw fod yr egwyddor o drindod mewn undod yn cael ei chysgodi trwy holl natur—fod yn perthyn i bob sylwedd neu wrthddrych dri pheth—sail, ffurf, a grym. Yn ol hyn, y mae sail neu wreiddyn y Duwdod yn mherson y Tad—ac felly y dysgai lliaws o dadau yr Eglwys, fel y dangosir yn helaeth gan Pearson†—y ffurf yn mherson y Mab, a'r grym yn mherson yr Ysbryd Glân. Y mae y Person cyntaf yn Achos, yr ail yn Gyfrwng, a'r trydydd yn Weithredydd—neu bod, ymddangos, a gweithio—neu llunio, cyflawni, perffeithio—o'r Tad, *trwy* y Mab, *gan* neu *yn* yr Ysbryd Glân, y mae pob peth: "Eithr i ni nid oes ond un Duw, y Tad, o'r hwn y mae pob peth, a ninnau ynddo ef; ac un Arglwydd Iesu Grist, trwy yr hwn y mae pob peth, a ninnau trwyddo ef" (1 Cor. viii. 6). Unoliaeth mewn amrywiaeth yw ardderchawgrwydd gweithredoedd Duw, a'r un egwyddor yw gogoniant natur Duw.

Y mae y gwirionedd hwn yn ddirgelwch, nid yn unig am na buasem yn gwybod dim am dano oni buasai iddo gael ei ddadguddio, ond y mae yn aros yn ddirgelwch ar ol ei ddadguddio. Y mae yn ddadguddiad o ddirgelwch, ac y mae y dadguddiad ei hunan yn ddirgelwch. Gwyddom ei fod yn bod, am fod Duw wedi ei ddadguddio: ond *paham* a *pha fodd* y mae yn bod, nis gallwn ddirnad. A'r rheswm syml am hyn ydyw—anallu y meidrol i amgyffred yr Anfeidrol: "Wele, mawr yw Duw, ac nid adwaenom Ef; ac ni fedrir chwilio allan nifer ei flynyddoedd ef" (Job xxxvi. 26); "A elli di wrth chwilio gael gafael ar Dduw? a elli di gael yr Hollalluog hyd berffeithrwydd? Cyfuwch a'r nefoedd ydyw, beth a wnei di? dyfnach nag uffern yw, beth a elli di ei wybod? Mae ei fesur ef yn hŵy na'r ddaear, ac yn lletach na'r môr" (Job xi. 7—9). Nid yw dyfaliadau uwchaf y meddyliau cryfaf tuag at dreiddio i'r dirgelwch hwn ond bloesg-leferydd babanod—babanod yn ymbalfalu yn y tywyllwch. A'r dynion mwyaf sydd yn teimlo hyn ddyfnaf o bawb. Fel hyn y dywedai Dr. Duncan ar y mater hwn—un o'r meddylwyr dyfnaf, ac un o'r dynion mwyaf dysgedig:—"Y mae dirgelwch yn yr athrawiaeth am Dduw, y byddai raid bod yn Dduw i'w gwybod, ac ni wna goleuni gogoniant chwalu y dirgelwch hwnw." Meddai mewn lle arall; "Y perthynasau sydd yn bod rhwng personau y Duwdod nid wyf yn eu gwybod, ac nid wyf yn dysgwyl eu gwybod byth. Nid wyf yn meddwl fod Gabriel yn eu gwybod, ac nid wyf yn meddwl y gall eu gwybod." Ac meddai dro arall, ar ddiwedd ymddyddan dyfnddysg â

* Robertson's *Sermons, 3rd Series*, p. 54.

† Pearson *on the Creed*, Art. I., p. 58.—*Tegg's Ed.*

chyfaill ar y materion hyn: "*Ah! think now of the infinite God looking down all this time on our babblings in the dark!*"* Yr un pryd, ni fuasai neb ond un fel hyn yn gwneyd y tro i fod yn *Dduw*, megys nas gallasai neb arall fod. Ni fuasai dim ond *anfeidroldeb* yn gwneyd y tro i ni ar gyfer ein *tragywyddoldeb*. Pe buasai yn briodol i ni ddychymygu am foment am Dduw y gallasem ei amgyffred hyd yn nod ymhen miliynau dirifedi o oesoedd, buasai ein dedwyddwch ar ben. Cariad at Dduw, a gweled mwy-fwy i mewn i'w ogoniant anfeidrol, fydd yn cadw tragywyddoldeb yn ei flas. Fel y sylwa Dr. Duncan eto—buasem yn *blino* ar dragywyddoldeb o fwynhâu Duw oni buasai fod anfeidroldeb ynddo—pe buasai gwaelod i'r cefnfor hwnw, neu làn yn rhywle o'i amgylch. Nid yn unig ein dyledswydd, ond ein braint a'n nefoedd yw rhyfeddu ac addoli y Mawredd anamgyffredadwy!

"Dŵr i'w nofio heb fyn'd trwyddo."

2. Y mae y dirgelwch hwn yn *wirionedd*. Nid profi ei wirionedd yw amcan y sylwadau hyn: credwn fod hyny yn afreidiol i bawb o'n darllenwyr. Ond dymunem alw sylw at *bwysigrwydd* y gwirionedd mawr hwn. Nid cywrein-bwnc mewn athroniaeth ydyw. Nid cwlwm dyrys mewn uchanianaeth *(metaphysics)* i ddifyru y rheswm mewn ceisio ei ddattod. Athrawiaeth ddifrifol, o fawrhydi gogoneddus, ydyw athrawiaeth y Drindod. Y mae o'r pwysigrwydd mwyaf. Y mae yn ddadguddiad moesol, ac i fod yn allu ymarferol ar fywyd y Cristion, a hyny am ei fod yn gorwedd o dan yr oll o gynllun iachawdwriaeth.

Y gwirionedd fod Duw yn bod yw sylfaen yr oll o grefydd. Y gwirionedd mai Un Duw sydd yw sylfaen crefydd natur. Y gwirionedd fod yr Un Duw yn Dri o Bersonau yw sylfaen crefydd ddadguddiedig. Ond undod y Duwdod oedd yn y golwg yn benaf tra yr oedd y dadguddiad yn y ffurf o Iuddewiaeth. Gwir fod awgrymiadau cynnil o'r gwirionedd arall. Ond dyna y genadwri oedd yn gyfaddas i'r cyfnod hwnw yn addysg grefyddol yr Eglwys, ac yn wyneb aml-dduwiaeth y byd Paganaidd: "Clyw, O Israel; yr Arglwydd ein Duw ni sydd un Arglwydd" (Deut. vi. 4). Yn ngoleuni Cristionogaeth y gwnaed dadguddiad llawn o'r gwirionedd fod yr Un yn Dri a'r Tri yn Un. Fe wnaed y dadguddiad hwn ynglŷn â'r dadguddiad o drefn iachawdwriaeth. Ni buasai yn bosibl dadguddio yr olaf heb y blaenaf. Athrawiaeth y Drindod yw sylfaen holl drefn yr iachawdwriaeth a ddadguddir yn yr Efengyl.

Dau syniad sydd yn treiddio yn rhyfedd trwy yr holl iachawdwriaeth ydyw *cariad* a *chymdeithas*. Fe garodd Duw y byd, ac fe ddaeth i undeb agos â ni, fel y gellid cael trefn i'n dwyn ni i garu Duw, ac i'r gymdeithas uchaf âg Ef. Ond yn y Drindod sanctaidd y mae cynddelwau tragywyddol cariad a chymdeithas.

Nis gallwn fyned ymhellach yn ol at darddiad iachawdwriaeth na chariad Duw. "Canys felly y carodd Duw y byd." Ond y mae cariad Duw at y byd yn ffrwyth ac yn brawf o'i gariad at ei Fab. Cariad y Tad at y Mab yw achos cyntaf iachawdwriaeth. "Y mae y Tad yn caru y Mab." Y Tad yn caru y Mab! Dyma gartref gwreiddiol cariad. Dyma gariad yn ei ogoniant cyntaf, yn llygad y ffynnon dragywyddol. Hwn oedd cynddelw pob cariad trwy y greadigaeth. Adlewyrchiad egwan o hwn yw cariad naturiol. Dyferyn o hwn yw cariad y saint tuag at Dduw. A dyna yw cariad Duw tuag at bechaduriaid—gorlifiad llanw mawr cariad y Tad at y Mab. Dyma ffynnonell iachawdwriaeth. Fe garodd Duw ei Fab nes

* *Colloquia Peripatetica*, pp. 49, 102 105.

caru byd o bechaduriaid yn ei Fab: "a charu o honot hwynt *megys y ceraist fi*,"—achos a chynllun y cariad.

Oni buasai fod Duw yn caru ei Fab, ni buasai cariad ddim yn bod yn unman. Ni fuasai defnydd achub mewn bod. Dyna ydyw hanfod cariad—y galon yn myned allan mewn serch ac ymhyfrydiad at un arall. Felly rhaid cael dau o leiaf cyn y bydd cariad yn bosibl. Yr oedd yn rhaid cael dau berson yn yr Hanfod Ddwyfol i gariad fedru llifeirio o'r naill i'r llall. A dyma y ddau—y Tad yn caru y Mab, trwy y Trydydd Person, yr Ysbryd sydd yn deilliaw o'r ddau; yr hwn, yn ol rhai duwinyddion, *yw* y Cariad ei hunan—Cariad personol y Duwdod, fel y mae y Mab yn Ddoethineb personol y Duwdod. Oddiyma y tarddodd iachawdwriaeth. Fe garodd Duw yr Eglwys yn y Mab: fe'n "hetholodd ni ynddo Ef cyn seiliad y byd;" fe'n "rhagluniaethodd ni i fabwysiad" ynddo a thrwyddo Ef. Fe garodd fyd o bechaduriaid er mwyn ei Fab. Dyma ydyw yr iachawdwriaeth: nyni ddynion yn cael ein derbyn i mewn o dan aden cariad anfeidrol y Tad at ei Fab: "A charu o honot hwynt megys y ceraist fi." Pechaduriaid yn cael dyfod yn gyfranog o gariad y Tad at ei Fab. Y cariad a dywalltwyd ar y Pen yn dyferu dros yr holl gorff. Neu, môr cariad y Tad at ei Fab yn gwneyd y Mab yn Gyfryngwr—yn gwneyd *channel* trwy y Mab i redeg yn afonydd o ras dros y byd!

Ffrwyth cariad Duw tuag at y byd yn ei Fab, oedd y dadguddiad o hono ei Hun yn Mherson a gwaith y Mab, neu yr Ymgnawdoliad a'r Iawn: "Canys felly y carodd Duw y byd, fel y rhoddodd efe ei uniganedig Fab, fel na choller pwy bynag a gredo ynddo ef, ond caffael o hono fywyd tragywyddol" (Ioan iii. 16). Yr oedd y Mab yn *ddelw* hanfodol o Dduw. Am ei fod yn ddelw hanfodol y daeth i fod yn ddelw gyfryngol. Yr oedd o anghenrheidrwydd yn ddelw fel *Mab*. Ynddo Ef yr oedd y Tad yn ei weled ei Hun, ac felly trwyddo Ef yr oedd yn ei amlygu ei Hun. Efe yw cyfrwng pob dadguddiad o'r Duwdod mewn natur a gras. Ni buasai modd gweled Duw byth oni buasai y *ddelw*. Trwy *Fab* yn unig y gallasai Duw ymddangos, a dyfod i undeb â dynoliaeth. *Mab* yn unig a allasai fod yn *Air*, cael ei wneuthur yn *gnawd*, a marw i fod yn *Iawn* dros ein pechodau. Fel hyn, y mae posibilrwydd iachawdwriaeth yn gorwedd yn neillduolrwydd tragywyddol yr Ail Berson fel *Mab* Duw.

Ac heblaw mai y *Mab* yw cyfrwng pob dadguddiad o Dduw, y mae perthynas nês na hyny rhwng neillduolrwydd ei Berson dwyfol Ef â'n hiachawdwriaeth ni. Gyda gwylder dwfn y dymunem nesâu at ddirgelion mor ddwyfol a goruchel. Ond yr ydym yn credu fod y darluniad o'r Mab dan yr enw Doethineb yn llyfr y Diarebion, ac awgrymiadau eraill yn y Bibl, yn sail i'r syniad a roddir gan rai duwinyddion a meddylwyr dwfn iawn: sef fod rhyw *gyfathrach* gwreiddiol rhwng yr Ail Berson yn y Duwdod *â dynoliaeth*. Y Tad a greodd ddynion; y Tad a genedlodd y Mab er tragywyddoldeb. Yr un yw ei Dad Ef a'n Tad ninnau. Yr ydym ni ddynion yn fwy na chreaduriaid Duw; yr ydym yn *hiliogaeth* y Duwdod: "Ei hiliogaeth Ef ydym ni." Fe'n crëwyd ar ei ddelw. Yr ydym ni yn feibion Duw trwy greadigaeth mewn amser. Y mae Efe yn Fab o anghenrheidrwydd gogoneddus, trwy y gweithrediad anamgyffredadwy a elwir yn dragywyddol genedliad. Efe yw y Mab mawr, cyntaf, y priod Fab, yr uniganedig Fab. Ac Efe yw cynllun ein mabolaeth ni, naturiol ac ysbrydol. Fel hyn yn mherson y Mab y mae y Duwdod yn dyfod agosaf at ddyn o un man. Y mae rhyw gydnawsedd

naturiol, os goddefir y gair, rhwng person y Mab â dyn: "a'm hyfrydwch oedd gyda meibion dynion." *Effaith* iachawdwriaeth ydyw rhoddi y dwyfol yn y dynol: ond *achos* iachawdwriaeth ydyw fod y dynol yn y dwyfol—"Mab y *dyn* yr hwn *sydd yn* y Nef?" Am fod rhywbeth yn Nuw yn debyg i ddyn, yr oedd yn bosibl creu dyn yn debyg i Dduw, ac y mae yn bosibl adferu y ddelw eto. Yn mherson y *Mab* yr ydym yn cael yr hyn eilw rhai yn *ddynoliaeth* y Duwdod. Yma yr oedd posibilrwydd creadigaeth dyn a phob peth arall. Ac yma y mae posibilrwydd iachawdwriaeth dyn. Person y Mab yw Pen y greadigaeth. Fe syrthiodd y greadigaeth; ond fe safodd y Pen. Am hyny trwy y Pen y mae modd cyfodi y greadigaeth yn ol i fwy na'i huchder cyntaf. Fel hyn, yr oedd addasrwydd tragywyddol yn mherson y Mab i fod yn Waredwr i ni. Yr oedd yr holl gymhwysderau cyfryngol yn gorphwys ar gymhwysder personol—y Cyfryngdod a'i sail yn y Duwdod. O ogoneddus Berson y Mab! Dyma ein Hanwylyd. Dyma ein Cyfaill. Efe yw "ein Brawd a'n Cyfaill goreu." Y mae wedi *dyfod* yn Frawd i ni yn yr Ymgnawdoliad, am ei *fod* erioed yn Frawd yn yr ystyr ddyfnaf—am fod sylfaen y berthynas yn gorwedd er tragywyddoldeb yn neillduolrwydd ei berson fel Mab Duw.*

* Dengys y syniad uchod weddusrwydd a rheidrwydd (y rhai ydynt yr un peth gyda Duw) ymgnawdoliad yr *Ail* Berson, fel yn gwreiddio yn neillduolrwydd ei Berson fel *Mab* Duw. Ond y mae rhai duwinyddion wedi gweithio y syniad hwn i eithafion, neu yn hytrach ei ŵyrdroi, fel ag i wneyd i ffwrdd â'r Ymgnawdoliad, yn yr ystyr briodol, fel gwyrth y gwyrthiau. Felly y gwna y duweinydd galluog a dysgedig Pfleiderer, yr hwn sydd wedi gweled i mewn yn ddwfn i Dduwinyddiaeth Paul, a'i le mewn Cristionogaeth, er fod ei syniadau ar lïaws o bethau yn dwyn delw Rhesymoliaeth yr Almaen. Fel hyn y dywed:—

"I'r dyben penodol hwn, ä Paul ymlaen i ddysgu, fod Duw wedi danfon ei Fab i fywyd daearol, mewn corff o gnawd cyffelyb i'r eiddom ni, a thrwy gyfrwng genedigaeth o wraig. Fel yr oedd Paul yn ei ddeall, nid oedd hwn yn "Ymgnawdoliad" *(Menschwerdung)* yn yr ystyr fanwl, athrawiaethol, yn gymaint ag mai Mab Duw yn wirioneddol oedd y dyn nefol a phen yr hil ddynol cyn ei ymddangosiad ar y ddaear; nid oedd raid iddo gan hyny gymeryd arno natur ddynol, fel y dysga duwinyddiaeth uniongred; ond, yn ol Paul, ni wnaeth ond newid ffurf ei hanfodiad nefol, neu ei gorff o oleuni dwyfol, am y ffurf ddaearol o fod, neu am gorff o gnawd fel dynion eraill. Yr oedd yr ymwaghâd a'r ymostyngiad hwn o'i eiddo i dlodi a gwasanaeth daearol yn weithred o ufudd-dod i ewyllys Duw ac o gariad at ei frodyr dynol. Felly, yn ol Paul, yr Iesu daearol yw ymddangosiad y nefol Fab Duw a'r cynddelwaidd *(archètypal)* ddyn Crist wedi ei wisgo mewn corff o gnawd: yr hyn y gellir ei osod allan mewn ffurfiau diweddar o feddwl trwy ddyweyd, *Efe ydyw Drychfeddwl* (Ideal) *ymgnawdoledig dynoliaeth grefyddol a dwyfol, ei pherthynas fabaidd â Duw, a chariad brawdol rhwng ei haelodau â'u gilydd.*"—PFLEIDERER'S *Hibbert Lectures on the Influence of the Apostle Paul on the Development of Christianity.*" LECT. II., pp. 58, 59.

Cymerwn fywyd Crist eto. Dyna oedd hwnw—dadguddiad o athrawiaeth y Drindod mewn ffeithiau hanesyddol. Yr argyhoeddiad dwfn a weithid gan ffeithiau bywyd y Gwaredwr oedd mai Efe oedd y Crist. Ac yr oedd yr argyhoeddiad fod Crist yn Dduw yn agor agwedd newydd o'r natur ddwyfol: "Ti yw y Crist, *Mab* y Duw byw." Yr oedd holl addysg yr Iuddew yn peri iddo edrych ar enw Duw fel yr enw mawr ac ofnadwy, bron rhy fawr i'w adrodd a rhy uchel i'w gysylltu âg unrhyw fôd dynol neu grëedig. Ond y dynion hyn a geid yn awr yn cyfarch eu gilydd yn enw y Drindod, gan ddeisyfu doniau y Tri Pherson i'w gilydd, a chan ddadgan "Eithr i ni nid oes ond un Duw, y Tad, o'r hwn y mae pob peth, a ninnau ynddo ef; ac un Arglwydd Iesu Grist, trwy yr hwn y mae pob peth, a ninnau trwyddo ef" (1 Cor. viii. 6). Bywyd Crist yw yr unig esboniad ar y cyfnewidiad hwn. Wrth gydnabod Duwdod Crist, yr oedd yn rhaid iddynt gydnabod fod dirgelion o berthynasau personol yn y natur

ddwyfol nas gallesid byth synio am danynt yn flaenorol trwy unrhyw feddwl na dychymyg.*

Dyna yr argyhoeddiad moesol o Dduwdod Crist, a'r cwbl a ddeillia o hyny—ffydd yn ei Berson a'i Aberth —darostyngiad llwyr yr holl enaid i'w arglwyddiaeth—ei fywyd Ef yn cael ei fyw drosodd drachefn yn a chan y credadyn, trwy rinwedd ei waed, grym ei adgyfodiad, a phreswyliad ei Ysbryd —cynnorthwyon yr Ysbryd mewn gweddi, Duw o'n mewn yn ein cyflwyno i Dduw oddiallan—Duw trwy yr Ysbryd hwnw sydd yn gariad yn trigo ynom ni a ninnau yn Nuw:—y mae y cwbl, meddwn, o drefn ein hiachawdwriaeth a'i bendithion grasol yn gorphwys ar, ac yn dwyn tystiolaeth i, wirionedd athrawiaeth ogoneddus y Drindod.

Dymunem derfynu y sylwadau hyn gan addoli y Drindod Fendigedig, gan ddeisyf i'n darllenwyr gynnwys cyfoethog y fendith Apostolaidd:— "Gras ein Harglwydd Iesu Grist, a chariad Duw, a chymdeithas yr Ysbryd Glân, a fyddo gyda chwi oll, Amen:" a chan eu gwahodd i ymuno yn yr hen fawl-gân barchedig sydd wedi cael ei harfer yn yr Eglwys Gristionogol o'r amseroedd boreuaf: "Gogoniant i'r Tad, ac i'r Mab, ac i'r Ysbryd Glân: megys yr oedd yn y dechreu, y mae yr awr hon, ac y bydd yn wastad, yn oes oesoedd, Amen."

WILLIAM JAY.

Gan y Parch. T. M. Jones, *Penmachno.*

Wrth yr enw syml a diaddurn uchod yr hoffai y Parch. W. Jay, Bath, gael ei adnabod. Teimlai wrthwynebiad cryf at deitlau ac addurniadau enwol, a bob amser, ymhob cysylltiad, gwell oedd ganddo am yr enw yn syml fel uchod, nag mewn unrhyw ffordd arall. Gallai ef hyfforddio hyn, a gallai y byd ei adnabod trwy hyn, ac felly pobpeth yn dda.

* Wace: p. 285.

Ganwyd ef yn Tisbury, Swydd Wilts, Mai 6ed, 1769. Saer maen oedd ei dad, ac ymddengys nad oedd y fam na'r tad yn nodedig am eu talent a'u gwybodaeth, ac yr oeddynt yn hollol gyffredin yn eu hamgylchiadau —braidd yn dlawd—ond eto yn hynod barchus a chrefyddol. Ystyrid hwy yn bobl garedig a chymeradwy yn y gymydogaeth. Nid yw Jay yn son ond y nesaf peth i ddim am ei rieni, a gwawdiai y syniad i fab fyw ar glod ei dad, a chael safle am ei fod yn dygwydd bod yn blentyn i'w fam. Yr oedd yn gredo ganddo y dylai pob dyn ieuanc ennill ei le mewn cymdeithas ar bwys ei deilyngdod personol, yn gwbl ar wahan i ddylanwadau o'r tu allan. Ymddengys nad ellir dyweyd llawer am dano yn ei blentyndod, heblaw mai rhywbeth yn debyg ydoedd i blant yn gyffredin. Lled araf ac annyben y deuai i ddysgu darllen. Un o'r pethau mwyaf nodedig ynddo oedd ei duedd at ymneilduo oddiwrth blant eraill, a threulio ei amser mewn unigedd. Adgofiai yn felus am ddyddiau ei faboed, a thystiai yn aml mor annhebyg yr ymddangosai pethau yr adeg hono i'r hyn y darfu iddynt droi allan yn ei hanes ef yn y dyfodol. Yn y cysylltiad hwn dywed yn brydferth na bu ganddo law o gwbl mewn dyfod yr hyn y daeth, dim ymdrech ar ei du ef, dim bwriad o'i eiddo ef neu ei berthynasau, ond fod amgylchiadau ei faboed a'i ieuenctyd, ac yn wir, amgylchiadau mawr ei fywyd,—fod yr oll wedi cymeryd eu cwrs eu hunain trwy Ragluniaeth Duw. Credai yn ddiysgog yn manylder Rhagluniaeth. Gwadai fod y fath beth a damwain yn bod o gwbl, a'r gair ddefnyddiai ef bob amser am ddygwyddiad fyddai appwyntiad ac nid damwain.

Dychwelwyd ef at grefydd tra yn ieuanc iawn, a hyny mewn ffordd dawel, trwy foddion syml a gynnelid mewn tŷ annedd gan Mr. Thomas Turner, yr hwn a bregethai oddiar 1 Tim. i. 15: "Gwir yw y gair, ac yn haeddu pob derbyniad, ddyfod Crist Iesu i'r byd i gadw pechaduriaid; o ba rai penaf ydwyf fi." Er ei fod yn fachgen ieuanc bucheddol bob amser, eto dyna yr amser y deffrowyd ef, a chafodd olwg ar ei drueni ei hun, a golwg ar ogoniant Crist fel Gwaredwr digonol ar ei gyfer. Mewn tŷ annedd,

trwy weinidogaeth gŵr anenwog ac anadnabyddus, mewn cynnulliad bychan gwledig. Mor syml! Ië, ond yr oedd Ysbryd Duw yn gweithio yn nghanol yr holl symledd a dinodedd. Tybed y gwyddai Turner iddo gael bod yn offeryn achubiaeth pregethwr mor enwog? Onid oes llawer o'r dynion mwyaf, a'r pregethwyr enwocaf, wedi eu dychwelyd trwy offerynoliaeth dynion dinod a chyffredin? O'r ochr arall, tybed nad oes rhai dynion bychain iawn wedi eu dychwelyd trwy ddynion mawr? Buasai un yn tybio fel arall: mai dyn mawr fuasai yn cyffwrdd dyn mawr, a dyn bychan yn cyffwrdd dyn bychan—tebyg yn effeithio ar ei debyg. Ond, wrth feddwl am beth fel hyn, gwelir mai yr hanes yn fynych (er fod rhai eithriadau) ydyw fod dynion bychain yn cael eu defnyddio yn offerynau i achub dynion mawr, a dynion mawr yn cael eu defnyddio yn offerynau i achub dynion bychain! Credwn fod engreifftiau lawer i'w cael o'r naill a'r llall. "Fel na byddai eich ffydd mewn doethineb dynion, ond mewn nerth Duw" (1 Cor. ii. 5).

Wedi dyfod i oedran cyfaddas, gan ei fod yn awyddus am wybodaeth, trwy garedigrwydd Mr. Cornelius Winter, pregethwr yn byw yn Marlborough, yr hwn hefyd a gadwai ysgol elfenol i addysgu dynion ieuainc ar gyfer y weinidogaeth, cafodd Jay fyned ato i'r Marlborough Academy, yn yr hwn le y gwnaeth gynnydd anarferol. Aeth yno heb gael manteision blaenorol o gwbl, ond yr oedd yn sychedig am wybodaeth. Yr oedd yn dyheu am addysg. Erbyn hyn, gan ei fod yn gogwyddo er's tro i'r cyfeiriad hwnw, darfu Mr. Winter ei gymhell yn daer a difrifol i ddechreu pregethu, i'r hyn yr ufuddhaodd. Bellach, mae wedi dechreu pregethu. Fe allai fod hyn yn rhwystr iddo dalu y sylw a ddymunai i addysg elfenol; ond, ar y cyfan, dan yr amgylchiadau ar y pryd, credai ef mai fel y bu yr oedd oreu, sef astudio am addysg a phregethu yr un amser, er yr addefid fod y naill mewn un ystyr yn anfantais i'r llall. Er iddo ddechreu pregethu yn ieuanc iawn (oddeutu un ar bymtheg oed) eto nid oedd yn edifarhau o herwydd hyny, gan nas gallasai ymattal rhag ufuddhau i gymhellion ei feddwl yn gystal ag annogaethau cefnogol ei ysgolfeistr. Traddododd ei bregeth gyntaf yn Ablington, a'i destyn yd-oedd 1 Pedr ii. 3. Dywedir ei fod wedi traddodi tua mil o bregethau cyn bod yn ugain oed. Cafodd fanteision arbenig dan ofal Mr. Winter—anfynych y byddai yr athraw yn myned allan i rodio heb ei ddysgybl ieuanc wrth ei ochr, a byddai yn cael ei ganlyn am ddyddiau lawer weithiau pan ar daith oddicartref. Bu yn yr ysgol hon am yn agos i dair blynedd, ac yna ymsefydlodd yn Malford. Dechreuodd ei gylch eangu—cafodd fyned i bregethu yn achlysurol i gynnull-eidfaoedd parchus a chryfion, ac addefa ei fod tua'r adeg hon wedi dyfod i feddwl fod ynddo rywbeth yn ei feddiant nas gwyddai am dano o'r blaen—a cheisiodd adnabod y peth hwnw—a phenderfynodd wneyd ei oreu i wella, dadblygu, a chryfhau yr un peth hwnw. Peth mawr ac anhawdd ydyw i ddyn adnabod ei hunan—deall ei gryfder, ac wedi ei ddeall gwneyd ei oreu i fyned gryfach gryfach yn ei gryfder. Dywed ei fod yr adeg gynnarol hono ar ei oes, yn dirgel gredu y gallasai ddyfod (trwy fendith Duw) yn bregethwr dylanwadol a phoblogaidd. Meddai gariad angerddol at bregethu, a choleddai syniadau uchel am anrhydedd ei swydd. Gwnaeth benderfyniad i gymeryd pregethu yn brif beth ei fywyd, a darostwng pobpeth arall yn is-wasanaethgar i'r efengyl. Cadwodd mor llwyr at ystyr y penderfyniad hwn fel y gwrthodai gymeryd rhan mewn cyfarfodydd cyhoeddus cyffredin, a chredai oddiar sylwadaeth ddilynol fod y cwrs hwn yn gywir a dyogel, ac fel cadarnhad cryfach ar hyn darfu Dr. Chalmers ei annog i ddal at ei benderfyniad. Yn y cyfnod hwn daeth i gysyltiad â'r Parch. Rowland Hill, yr hwn a'i gosododd am dymmor i ofalu am Surrey Chapel, Llundain, a bu llwyddiant mawr ar y symudiad hwn. Gwrthododd ymsefydlu yno, gan ei fod yn awyddus i gael profiad helaethach yn y weinidogaeth cyn cymeryd lle mawr, ac arosodd yn Malford — pentref gwledig—am y cyflog o £35 y flwyddyn. Dyoddefai brinder llyfrau ac arian tra yn y lle hwn, ac nid oedd heb deimlo oddiwrth hyny. Ond, fel y crybwyllwyd, yr oedd ganddo am-

can wrth aros yn y neillduedd—gwreiddio yn ddwfn erbyn y dyfodol. Yn ddilynol, modd bynag, aeth i Hope Chapel, Bristol; ni bu yno ond prin flwyddyn, o herwydd anghydweledіad â'r is-athrawes, yr hon a ymyrai yn ormodol â materion eglwysig, yr hyn ni allai Jay ei oddef yn y rhyw fenywaidd. Yn ystod yr anghydweledіad hwn, cafodd alwad gan yr eglwys Annibynol yn Bath, a chredai yn sicr yn y cyfwng hwn eto mai Rhagluniaeth Duw oedd yn trefnu ei holl symudiadau. Dywed na bu erioed yn teimlo ei fod yn y lle y dylasai fod hyd nes y daeth i Bath, a phan ddaeth yno ymsyniai ynddo ei hunan mai yno y byddai ei gartref. Rhyfedd oedd hyny, ond dyna fel yr oedd. Diau fod a wnelo ei athrylith rywbeth â myfyrdodau fel hyn oedd ynddo—athrylith yn ddystaw ymwybodol o honi ei hunan, ac yn hiraethu am hedfa dda. Cafodd hedfa, a disgynodd yn Bath—hoffodd ei lle—a gwelodd mai yno yr oedd i fod.

Priodwyd Jay yn St. Peters, Carlisle, Ionawr 6ed, 1791, âg Anne, merch henaf y Parch. E. Davies, clerigwr yn Eglwys Loegr. Gweinyddwyd ar yr achlysur gan ei gyfaill, y Parch. Rowland Hill. Bu iddynt chwech o blant, tair merch a thri mab. Bu yn hapus iawn yn nghymhar ei fywyd.

Byddai yn arferiad ganddo gymeryd ymarferiadau corfforol yngyson. Gyda llaw, yr oedd cysondeb, hyd yn nod gyda'i arferion beunyddiol, yn nodwedd arbenig yn ei gymeriad. Byddai yn arferiad wastadol ganddo godi am bump o'r gloch yn y boreu, brecwesta am saith, ciniawa am un o'r gloch, cymeryd te am bump, a swpera am naw, a myned i orphwys am ddeg o'r gloch. Dyna ei raniad o'r diwrnod, a chredwn iddo gadw at yr amseriad yna bron trwy ei oes. Bu y trefniad hwn nid yn unig yn fantais i fyned trwy lawer o waith, ond yn fantais fawr i'w iechyd. Nid oedd yn gryf iawn—bu unwaith neu ddwy yn beryglus wael ac yn agos i angeu; a phan yn son am hyn mae Jay yn cynghori y claf i beidio dal gormod at yr un meddyg. Ymddengys fod newid meddyg wedi bod iddo ef, dan fendith y Nefoedd, yn foddion adferiad. Arferai ddyweyd fod y ffaith ei fod yn ddirwestwr, ynghyd a'r ymarferiadau corfforol a gymerai—codi yn foreu, cerdded yn gyflym, gweithio yn yr ardd, hollti coed—fod y pethau hyn oll wedi bod yn fantais ddirfawr i'w iechyd. Myfyriai lawer yn yr awyr agored, cymerai bapyr yn ei logell, a tharawai i lawr y syniadau a gynnyrchid ganddo, ac yna wedi myned i'r tŷ ysgrifenai yn fanylach. Yn y boreu, fel rheol, cadwai yn gwbl yn ei fyfyrgell, a gweithiai yn ddiwyd a chaled; ac yna treuliai y prydnawn gan amlaf yn yr awyr agored, ac anfynych, os byth, y gwnai galedwaith yn yr hwyr. Diau fod llawer i'w ddyweyd o blaid y dull hwn. Trwy barhau i wneyd defnydd priodol o'r boreuau, mae yn sicr y gall dyn fyned trwy lawer iawn o waith. Nis gellir, wrth gwrs, osod yr un rheol i bawb; ond, yn sicr, prin y collir dim wrth wneyd y defnydd goreu sydd yn bosibl o'r boreu. Byddai yn arferiad ganddo orphen ei holl lafur at y Sabboth erbyn nos Wener; ac yna treuliai ddydd Sadwrn yn rhydd, ac yn gyffredin elai i rodiana i'r wlad, gan gymeryd un o'i blant gydag ef i ymddifyru gyda nythod adar a glanau yr afonydd, a diau y byddai hyn yn adloniant i'w natur ar ol llafur caled yr wythnos, yn gystal ag yn adgyfnerthiad iddo erbyn gwaith y Sabboth. Cofier y byddai ef yn pregethu i'r un gynnulle dfa bob Sabboth, ac felly yr oedd yn anhawdd iddo orphen cyfansoddi cyn nos Wener. Gwelir fod y pethau hyn oll—hyd yn nod ei ymarferiadau corfforol—yn cael eu trefnu a'u troi yn is-wasanaethgar i'w waith fel efengylydd!

Gwnaeth lawer o waith fel awdwr—cyhoeddodd amryw lyfrau, yn enwedig yn y ffurf o bregethau, a chawsant gylchrediad eang. Ar gyhoeddiad un o'r llyfrau hyn, anrhydeddwyd ef â'r gradd o D.D., ond gwrthododd ef. Nid peth bychan oedd parotoi ar gyfer Pulpud Capel Argyle bob Sabboth, ac yn amlach na hyny, a chyfansoddi llyfrau eraill hefyd yr un adeg. Un rheswm dros ei fod yn gallu myned trwy gymaint gwaith oedd y ffaith ei fod yn treulio llawer iawn o amser mewn unigedd, ac felly yn ennill amser iddo ei hun. Hynod gymaint o amser a gollir dan gochl cymdeithas! Priodolai ef ei

duedd at unigedd mewn rhan i'r ffaith iddo gael ei ddwyn i fyny mewn cylch gwledig; er yr ystyriai ef y duedd hon yn anfantais at fywyd cyhoeddus, eto cydnebydd fod hyn yn rhoddi mwy o amser iddo ddarllen a myfyrio. Diau y bu y duedd hon yn ei erbyn mewn rhai amgylchiadau, tra y bu yn nerth mawr iddo mewn amgylchiadau eraill. Yr oedd yn efrydydd diwyd. Gweithiodd yn ddiarbed i wneyd i fyny am ddiffyg addysg boreu oes. Darllenai lawer, a hyny yn gyflym, ac yr oedd cylch ei ddarlleniadaeth yn amrywiol iawn. Nid dyn un llyfr ydoedd, ond dyn llawer o lyfrau. Nid ydym yn crybwyll hyn fel rhagoriaeth na diffyg ynddo; gall fod y naill neu y llall, neu y ddau gyda'u gilydd, ond crybwyllwn y peth fel mater o ffaith yn ei hanes. Ni chyfyngai ei hunan i un llyfr nac i un maes, a diau fod y dull hwn yn ateb yn well i natur ei feddwl ef na'r un dull arall. Ofnai pe buasai yn cadw at un llyfr neu un maes y buasai yn myned yn beiriannyddol fel efrydydd ac fel pregethwr, ac felly yn raddol yn colli ei fin a'i nerth. Dyna y rheswm a arferai ef i oddi dros amrywiaeth a helaethder cylch ei ddarlleniadaeth. Dewisai ei destynau a'i faterion yn gynnar ar yr wythnos, ac yna caffai ddigon o amser i'w dyfnhau yn ei gof, a'u meddwl drosodd a throsodd cyn y Sabboth, fel erbyn i'r Sabboth ddyfod byddai y gwirionedd wedi dyfod yn rhan o hono ef ei hun—yn cydio ynddo—ac yn barod i ymdywallt allan yn ffrwd lifeiriol o hyawdledd pur, fel y cwmwl yn llawn gwlaw yn tori allan mewn cawodydd hyfryd nes adnewyddu wyneb y ddaear. Fel y dywedwyd, arferai gyfansoddi a myfyrio prif linellau ei bregethau, i raddau helaeth, yn yr awyr agored—yn yr ardd, yn y maes, ar y ffordd, yn y berllan, ar ochr y mynydd; ac yna byddai yn dwyn yr esgyrn at eu gilydd—asgwrn at asgwrn—nes ffurfio un cyfanwaith ardderchog. Gyda llaw, gwnai y parotoad manylaf cyn ymddangos yn gyhoeddus—ni byddai byth yn dringo grisiau ei bulpud ar antur, ac ar hanner cyfansoddi ei bregethau. Gallasai ddyweyd braidd cyn gadael ei fyfyrgell pa fodd y byddai yn y pulpud—os tywyll ac anmharod yn y blaenaf, felly y byddai yn sicr yn yr olaf. Iddo ef yr oedd cwlwm agos rhwng y fyfyrgell â'r pulpud, a hoffai fyned yn unionsyth o'r naill i'r llall. Byddai bob amser yn parotoi yn fanwl, ac yn sicr dyma un rheswm paham y gallai bregethu mor gryno, cynnwysfawr, a byr. Teimlai y gwrthwynebiad cryfaf at bregethau maith, ac nis gallai gydymdeimlo o gwbl â'r dosbarth hwn o weinidogion. Ni byddai ef byth dros dri chwarter awr. Dywed Lamont ar y mater hwn:—

"Nis gall dim gyfiawnhau pregeth faith. Os bydd yn bregeth dda, nid oes *raid* iddi fod yn hir; ac os bydd yn bregeth wael, ni *ddylai* fod yn hir."

Wrth enwi naw o gymhwysderau pregethwr da, cawn fod Luther yn rhoddi hwn i lawr fel y chweched:—

"*That he should know when to stop.*"

Fel rheol, hoffir byrdra gan y lliaws, ond dysgwylir i'r byrdra hwnw, wrth gwrs, fod yn sylweddol, ac yn ddigonol i gyrhaedd y pwynt fydd gan y siaradwr mewn golwg ar y pryd; a chredir fod byrdra buddiol yn fwy gorchest na meithdra gwasgarog. Ar un cyfrif, peth hawdd ydyw bod yn faith; ond mae gofyn medr a llafur blaenorol i fod yn fyr, a siarad yn gwbl ac yn hollol ar y mater fydd dan sylw, ac nid neidio fel aderyn o'r naill fan i'r llall, a phigo briwsionyn o bob man. Cofier fod William Jay yn un o bregethwyr mwyaf poblogaidd Lloegr yn ei gyfnod, ac yn sicr wedi bod yn un o'r rhai mwyaf llwyddiannus ymddangosodd erioed yn y pulpud, ac eto ni byddai byth yn pregethu yn hwy na'r amser a nodwyd. Nid pwnc o amser ydyw pregethu. Onid yw yn hen bryd troi heibio y geiriau gostyngedig (?) a ddefnyddir i gysylltu amser â phregethu? Meddylier am y brawddegau ystrydebol:—

"Peidiwch dechreu cysgu, anwyl gynulleidfa, o herwydd byddaf wedi darfod cyn tri o'r gloch."

"Nid wyf am eich dal ond am ychydig fynydau o flaen fy anwyl frawd."

"Cewch eich gollwng ar ol y sylw hwn."

"Rhoddaf fy ngair wrth ddechreu y cewch fyned allan cyn un ar ddeg."

Onid oes tuedd anuniongyrchol mewn brawddegau o'r natur hyn a'r cyffelyb i beri i'r bobl edrych ar bregethu fel rhywbeth peirianyddol? fel rhywbeth y gellir ei attal pan y mynir?

Yn sicr nid yw ymadroddion fel yr uchod yn gwneuthur unrhyw les—ni ennillir dim trwyddynt—a gallant adael argraff anffafriol ar feddyliau y gwrandawyr. Mater o gyrhaedd y pwynt ydyw pregethu, ac os cyrhaeddir hwnw yn fyr a buan goreu oll; ac os na wneir, na rwgnacher i'r pregiethwr gael estyniad amser.

Rhaid i ni addef, yn ostyngedig, ein bod yn methu gweled yn hollol yr un fath â Jay yn ei sylwadau ar unoliaeth materion pregethau. Creda ef mewn amrywiaeth materion yn yr un bregeth, ac nid yw yn ymddangos yn ffafriol i'r cynllun o gario allan un syniad mewn pregeth. Hoffwn bob amser gael *un syniad* yn treiddio trwy bregeth. Bydd yn fanteisiol edrych ar hwnw oddiar wahanol safleoedd, a sylwi arno yn ei wahanol agweddau; ond, ar yr un pryd, gofalu ei gadw yn y golwg trwy y bregeth, a'i gadw yn uwch o'i ysgwyddau na phob peth arall ynddi; a chredwn fod y dull hwn yn debycach o gario argraff ar y bobl yn hytrach na beichio eu cof â llawer o faterion, a'r rhai hyny yn ddigon anghysylltiol a gwasgarog; a chredwn fod y dull hwnw, pe gellid ei gario allan yn dda, yn debyg o gael ei fendithio i fod yn lles ysbrydol i'r bobl.

Dywedwyd y byddai Jay yn parotoi yn fanwl at bob Sabboth; ond, os ydym yn deall yn iawn, ni byddai yn parotoi llawer, os dim, at y cyfarfodydd wythnosol. Bob nos Lun cynnaliai gyfarfod yn ysgoldy ei gapel i'r hen a'r methiantus, y cleifion a'r gweiniaid, a'r rhai profedigaethus—neb ond hwy—y rhai nas gallent ymgymysgu â'r gynnulleidfa y Sabboth, o herwydd eu gwendid corfforol a thyndra y lle. Ni byddai yn parotoi o gwbl at y cyfarfodydd hyn. Fe allai mai pan yn cychwyn o'r tŷ i'r cyfarfod y deuai adnod neu adran o adnodau i'w feddwl, ac yna myfyrio arni ar y ffordd i'r cyfarfod, ac wedi hyny gollwng ei hunan mewn dull rhyddymddyddanol a syml i siarad ar ei eistedd wrth y rhai fyddai yn bresennol. Yr oedd ganddo feddwl uchel am fuddioldeb y cyfarfodydd hyn, a gwnai yn amcan i fod ynddynt bob nos Lun am flynyddoedd lawer. Gwelir ei fod trwy fanylder ei barotoad at y Sabbothau, a thrwy ddisgyn yn sydyn a di-barotoad ar ei adnoddau at ei gyfarfodydd wythnosol, yn cadw ei hunan rhwng dau eithafion: ar un llaw, peidio rhwymo ei hunan yn gwbl ac yn hollol at barotoad blaenorol, ac ar y llaw arall, peidio gollwng ei hunan i ddiofalwch, llacrwydd, a hunan-hyder gormodol. Diau fod ymarferiad cyson o'r *ddau* ddull hyn mewn undeb â'u gilydd yn cynnorthwyo i wneyd *un* pregethwr cyflawn a phoblogaidd.

Er ei fod, mae yn debyg, yn un o'r gweinidogion mwyaf llwyddiannus yn ei eglwys gartref, yn gystal ag yn yr eglwysi oddicartref, eto ni ddarfu iddo erioed wneyd arferiad i ymweled yn fynych fynych â thai aelodau ei eglwys. Siaradai yn ddirmygus am y syniad o "dreiglo o dŷ i dŷ,"—ystyriai y peth yn blentynaidd a dianghenrhaid, os na byddai achos neilltuol yn galw, megys afiechyd, profedigaeth, neu wrthgiliad, &c. Daliai ef mai y rheol ysgrythyrol ar hyn ydoedd Iago v. 14: "A oes neb yn eich plith yn glaf? galwed ato henuriaid yr eglwys," a barnai mai ar y gair *galwed* y dylid rhoddi pwyslais yn yr adnod. Credai yn gryf y dylai gwas yr Arglwydd fod yn fwy yn ei bregethu nag yn yr un cyfeiriad arall. Gwelir eto trwy hyn y sylw a wnaed o'r blaen—ei fod yn ystyried pobpeth yn is-wasanaethgar i draddodi cenadwri fawr yr Efengyl i golledigion. Yn wir, fel pregethwr y dymunai gael ei adnabod, ac felly y cafodd ei adnabod gan ei oes, a diau mai yn y cymeriad hwn yr adnabyddir ef gan yr oes hon a'r rhai dyfodol hefyd. Pregethodd bum' gwaith yn Nghylchwyl Flynyddol Cymdeithas Genadol Llundain—yn y blynyddoedd 1796, 1826, 1834, 1844, a 1851—braint na syrthiodd i ran neb arall gynifer o weithiau! Yn y flwyddyn 1841 cynnaliwyd cyfarfodydd i ddathlu ei hanner canmlwyddiant fel gweinidog capel Argyle, Bath, ac yn nghanol anrhegion eraill, cyflwynwyd pwrs iddo yn cynnwys £650. Yn fuan ar ol hyn daeth cwmwl tywyll dros ei breswylfod, yn marwolaeth ei anwyl briod. Bu Mrs. Jay farw Hydref 14eg, 1845, yn 79 mlwydd oed, ar ol pymtheng mlynedd o afiechyd. Effeithiodd hyn yn ddwys iawn arno. Bellach yr oedd ei ddydd yntau yn dechreu darfod, ac ar ol myned trwy lawer o gyfnewidiadau bywyd—hyfryd

ac anhyfryd—bu farw Rhagfyr 27ain, 1853, yn 85 mlwydd oed.

Oddeutu Hydref 5ed, 1852, anfonodd ei ymddiswyddiad i'r eglwys oedd dan ei ofal, ar ol ei gwasanaethu fel gweinidog am tua thair a thriugain o flynyddoedd! Dyna oes fugeiliol dda, onidê? Meddylier am y ffaith hon—bod mewn cysylltiad â'r un eglwys am gynifer o flynyddoedd. Cofier mai nid rhyw fath o gysylltiad pell ydoedd—nid cysylltiad poenus i'r gweinidog ac anhapus i'r eglwys; ond cysylltiad dedwydd, heddychol, a thra llwyddiannus. Prin mae anghen dyweyd fod ambell i gwmwl wedi ymddangos yn ystod tymmor mor faith—gellid dysgwyl rhai ystormydd o anghenrheidrwydd mewn amser mor hir—ond ystormydd yn clirio yr awyr oeddynt oll. Gwyntoedd yn puro oeddynt. Buasai yn nesaf peth i wyrth bod mewn cysylltiad mor agos âg eglwys hynod lïosog, gymysg, yn amrywio mewn oedran, gallu, chwaeth, safle, ac amgylchiadau, am amser mor faith, ac i'r gweinidog fod yn gydwybodol ac yn unwynebog yn yr oll, trwy yr oll, a chyda'r holl aelodau, ac eto bod yn hollol rydd oddiwrth brofedigaethau eglwysig. Na; buasai hyny yn rhy dda. Gorchest fawr ydyw bod yn boblogaidd gyda phob dosbarth o bobl, a bod yn gydwybodol yr un pryd. Hawdd iawn, yn sicr, ydyw bod yn boblogaidd ar draul anwybyddu gonestrwydd ac unplygrwydd. Bod yn llonydd, llwfr, a didramgwydd—dyna lwybrau bychain tlysion cyfleus at boblogrwydd. Cadw ar ochr y Nacaol gyda phobpeth! Dywedai Quintilian am gymeriad neillduol:—"Ei ragoriaeth oedd nad oedd bai ynddo, a'i fai oedd nad oedd rhagoriaeth ynddo." Bod yn dawel yn wyneb pob anghyfiawnder a thwyll, a myned gyda'r awelon o ba gyfeiriad bynag y delont. Os bydd y gwynt o'r Dwyrain heddyw, bod yn Ddwyreiniwr am y tro; os o'r De yfory, bod yn Ddeheuwr y pryd hwnw; os o'r Gorllewin boreu dydd Llun, Gorllewinwr dros y boreu hwnw; ac os o'r Gogledd y prydnawn, yna Gogleddwr am ychydig. Dyna ddyn medrus. Ië, siwr. Dyn *handy* iawn. Dyna ddyn poblogaidd! Pa gamp? Pa glod? Gall un â dynoliaeth sal a thwyllodrus ganddo fyned yn boblogaidd y ffordd yna. Ond, poblogrwydd am enyd ydyw, poblogrwydd ydyw sydd yn cynnwys elfenau fydd yn ffrwydro allan ryw ddiwrnod, ac yn lluchio cymeriad ei berchen yn ddarnau mân yn ngolwg y cyhoedd! Credwn, os nad ydym yn camgymeryd yn fawr, bod dyddiau y *type* hwn o ddynion cyhoeddus bron wedi eu rhifo, ac mai un o ofynion mawr y dyfodol fydd cael dynion da, cywir, unplyg, a chydwy. bodol, a goreu po gyntaf hefyd. Teimlwn yn lled sicr fod parhad llwyddiant Jay yn Bath i'w briodoli i'r ffaith ei fod yn feddiannol ar yr elfenau hyn; pe hebddynt mae yn sicr y buasai y cysylltiad rhyngddo â'r eglwys wedi ei dori er's llawer dydd. Hefyd, ynglŷn â hyn, dylid dyweyd fod parhad y cysylltiad bugeiliol hwn yn llefaru rhywbeth am eglwys Argyle, o herwydd gall gweinidog da ddarfod yn swta ar gyfrif elfenau anhapus mewn eglwys. Yn sicr, y mae cyfnod maith, fel yr eiddo Jay yn Bath, yn llefaru yn uchel iawn am y ddwy ochr fel eu gilydd—y gweinidog a'r eglwys. Wrth gymeryd golwg gyffredinol ar ei fywyd gweinidogaethol, gellid tybio iddo fod yn ddedwydd a llwyddiannus, ac ennillodd hyny yn gyfiawn heb yr un gogwydd at osgoi ei ddyledswydd. Fe allai mai un rheswm mawr am ei lwyddiant fel gweinidog oedd ei allu i drin a deall dynion. Yr oedd yn deall y natur ddynol yn dda iawn. Anfynych y ceid dyn yn deall ei hun yn well na Jay—gwyddai ymha bethau yr oedd yn gryf, a gwnai ei oreu i ragori yn y pethau hyny; a gwyddai ymha bethau yr oedd yn wan, a gwnai ei oreu drachefn i wylio a bod yn ochelgar gyda'r pethau hyny. Yr oedd yr hunan-adnabyddiaeth hwn yn fantais iddo ddeall y natur ddynol mewn eraill. Dengys ei sylwadau ar y Parchn. Samuel Pierce, Joseph Hughes, John Foster, Rowland Hill, &c., ei fod yn deall eu cymeriadau, ac yn gallu darllen eu nodweddion gwahaniaethol. Gallai ddarllen llawer iawn rhwng y llinellau mewn dynion. Hefyd, yr oedd ei synwyr cyffredin cryf yn rheswm dros barhad ei gysylltiad â Bath. Gwelai ymhell, ac wedi gweled peth gallai fyned o'i gwmpas yn ddeheuig. Prin y gellir ei ystyried yn ysgolor gwych, nac yn

athronydd dwfn; ond yn sicr gellid ei ystyried yn ddyn call iawn, a chadwodd hyny ef rhag mil o brofedigaethau. Sylwai ar amgylchiadau, a gallai gyfaddasu ei hunan i'r amgylchiadau y byddai yn cael ei hunan ynddynt ar y pryd. Os pregeth angladdol, os pregeth ar ddydd gwyl, os pregeth flynyddol ar achlysur arbenig, os cyfarfod gweddi, os angladd, os priodas, os bedydd—byddai yn sicr yn yr oll o gyfaddasu ei hunan i'r achlysur. Astudiai gyfaddasder; a byddai hyn yn rhwym o'i gadw mewn *touch* â'r hyn fyddai dan sylw, a chyrhaeddai amcan buddiol ac ymarferol. Gofalai fanteisio ar bob amgylchiad gymerai le i'w droi yn addysg ymarferol. Ymddengys fel pe wedi penderfynu cymeryd cyfleusdra bob amser—yn bersonol a chyhoeddus—i wneyd lles, a chymerai foddion doeth i gyrhaedd hyny. Gellid enwi pethau eraill, megys ei dduwioldeb diammheuol, ei weithgarwch, ei garedigrwydd, ei sirioldeb, &c., fel yn rhoddi cyfrif am barhad ei gysylltiad â Bath am gyfnod mor faith; ond diau mai y prif reswm ydoedd ardderchawgrwydd ei ddoniau fel pregethwr, ac arddeliad Dwyfol amlwg ar ei weinidogaeth. Meddai ymddangosiad corfforol dengar a golygus, llais da a soniarus, natur ioldeb traddodiad a dull, symledd a gwedd Fiblaidd ei bregethau, difrifwch ei ysbryd, ei adnabyddiaeth brofiadol o dlodi ac anghenion ysbrydol pechadur a digonolrwydd anfeidrol Crist ar gyfer hyny—yr oedd yr holl bethau hyn ynghyd, ac arddeliad y Nefoedd arnynt, yn rhwym o'i wneyd yn bregethwr anghyffredin. Daliai yn gryf bob amser wrth symledd yr Efengyl. Byddai Crist ymhob pregeth ganddo—cylymai ei bregethau wrth ei groes Ef. Anfynych y ceid neb a bregethodd fwy i gylchoedd uchaf cymdeithas: gan fod tref Bath yn hynod at-dyniadol i ddyeithriaid, byddai hufen y gwledydd yn aml ymhlith ei gynnulleidfa, ond ni wnai hyn byth ei ddenu oddiwrth symledd y genadwri. Pregethai ef yr hen wirioneddau nid yn unig yn nghlywediga eth y bobl, ond *wrth* y bobl, ac nid yn unig yn y dyrfa fawr ond i'r personau unigol fyddai ynddi. Bu yn ffyddlawn i'w Feistr; a bu ei Feistr yn ffyddlawn iddo yntau, a diau iddo fod yn offeryn, dan fendith Duw, i wneyd cymaint daioni nad oes ond goleuni y farn olaf a'i dengys. Credwn fod y byd yn llawer gwell am fod William Jay wedi bod ynddo. Cafodd oes faith, a gweithiodd yn dda.

RHEIDIAU Y PRYNEDIGAETH.

Gan y Parch. J. J. ROBERTS, *Portmadoc.*

"Onid oedd raid i Grist ddyoddef y pethau hyn?"

CEIR y geiriau uchod yn Luc xxiv. 26. Tueddir ni i ofyn oddiar ba beth y tarddai yr anghenrheidrwydd a awgrymir ynddynt? Ar ba dir yr oedd yn rhaid i Iesu Grist, ar ol gadael gogoniant y Nef, ddyoddef mewn trefn i allu esgyn iddo drachefn? Cydnabyddir nad oedd Ef o dan un math o ddyled naturiol i wneuthur hyny. Nis gallasai Mab Duw fod wrth natur o dan rwymedigaeth i farw; oblegyd yr oedd yn gyfiawn a sanctaidd. Gwyddom hefyd nad allasai ei ddyoddefiadau Ef fod yn effaith unrhyw ddirwasgiad allanol, canys yr oedd yn hollalluog; a buasai cymeryd ei einioes oddiarno drwy drais yn annichonadwy. Rhaid fod ei farwolaeth, gan nad beth arall a ddywedir am dani, yn wirfoddol. Ac yr oedd yn anghenrheidiol mewn trefn i ddwyn oddiamgylch ryw amcan, neu amcanion, cymeradwy yn ei olwg Ef ei hun. Pa beth allasai y cyfryw fod? Ymddengys mai gyda golwg ar yr Hen Destament, yn fwyaf uniongyrchol, y defnyddir y gair "rhaid" yn y cysylltiad hwn. Yr oedd cysgodau a phrophwydoliaethau wedi bod yn dysgu am oesoedd mai "gŵr gofidus, a chynnefin â dolur," a fyddai y Gwaredwr: trwy ddyoddef, o ganlyniad, y gallasai Ef ymgyfateb i ragfynegiadau y Bibl. I'r casgliad hwn yr arweinir ni gan rediad cyffredinol y bennod ddiweddaf o Luc; a dysgir ef yn bendant mewn rhai adnodau ynddi; megys, "Dyma y geiriau a ddywedais i wrthych, pan oeddwn eto gyda chwi, bod yn rhaid cyflawni pob peth a ysgrifenwyd yn nghyfraith Moses, a'r prophwydi, a'r psalmau am danaf fi." Ac, "Felly yr ysgrifenwyd, ac felly yr oedd raid i Grist ddyoddef, a chyfodi

o feirw y trydydd dydd." Gwelir, gan hyny, mai mewn trefn i sylweddoli y cysgodau a chyflawni y prophwydoliaethau, yr oedd marwolaeth Crist yn anghenrheidiol.

Gwesgir ni, yr un pryd, i gredu fod yr anghenrheidrwydd hwn yn gorwedd ar ryw anghenrheidrwydd arall dyfnach. Nis gallasai cario allan ragfynegiadau y Bibl, gan nad faint o bwysigrwydd a berthynai i hyny, fod yn amcan terfynol i ddyoddefiadau y Gwaredwr; oblegid moddion i gyrhaedd amcanion ydyw yr ysgrythyrau eu hunain. Byddai meddwl am Dduw yn cyhoeddi llyfr, ac yn rhoddi ei Fab i farwolaeth mewn trefn i wneyd y llyfr hwnw yn wirionedd, yn syniad dyeithrol iawn. Ni fuasai neb—neb galluog i wneyd y fath beth—yn anturio rhagfynegu ei angeu, oni buasai ei fod Ef ei hun wedi cydsynio yn flaenorol i ddyoddef. A wnaethai Efe hyny? Ymddengys ei fod—ei fod o dragywyddoldeb, mewn cydymffurfiad âg ewyllys ei Dad, wedi dangos parodrwydd i farw. Rhaid, gan hyny, fod ei ymddarostyngiad wedi bod dan ystyriaeth—dan ystyriaeth y Drindod yn y dystawrwydd tragywyddol, ac mai ffrwyth yr ymgynghoriad gogoneddus hwnw oedd ei ymgnawdoliad. Gwelir, felly, mai mewn trefn i gario allan fwriadau y Duwdod yr oedd marwolaeth Crist yn anghenrheidiol. Canlyniad cyfammod oedd angeu y groes; ac yn yr anghenrheidrwydd cyfammodol hwn yr ymwreiddiodd yr anghenrheidrwydd am sylweddoli y cysgodau a chyflawni y prophwydoliaethau.

Nis gallwn ymdawelu ar hyn; oblegid ni lunir unrhyw gyfammod er ei fwyn ei hun. Gan nad ymha olygiad y cymerir y gair, ai fel trefniant neu oruchwyliaeth—ei arwyddocâd cyffredin yn y Bibl, ai fel cytundeb—ei ystyr fynychaf yn ein hymadroddion ni; y mae bob amser yn ein harwain at rywbeth pellach a phwysicach nag ef ei hun. Rhaid iddo edrych y tu allan iddo ei hun am reswm dros ei fodolaeth ei hun. Moddion i gyrhaedd amcanion ydyw cyfammodau. Yr un modd yn yr amgylchiad hwn, ni buasai yr Arglwydd Iesu, gan nad faint oedd ei barodrwydd i ddyoddef, yn ymgyfammodi i ddyoddef er mwyn dyoddef yn unig. Nis gallasai ymrwymo i farw er mwyn marw ynddo ei hun. Yna, nid ammodau unrhyw gyfammod, ynddynt eu hunain, a alwent yn gyntaf ac yn benaf am ei fywyd. Pa beth ynte a wnai? Pa beth a wnai y cyfammod yn anghenrheidiol? Nis gallasai dim llai na hyny wneyd ymddarostyngiad Crist yn anghenrheidiol. Ymddengys mai cyd-ddealltwriaeth rhwng y Personau Dwyfol, yn y rhagolwg ar bechod dyn, mewn perthynas i sail a threfn yr iachawdwriaeth, oedd y trefniant hwnw. Cynnwysai, o ganlyniad, foddion i anrhydeddu cyfraith a boddloni cyfiawnder Duw; ac nis gallasai unrhyw foddion is nag ymgnawdoliad a marwolaeth ei Fab ddwyn oddiamgylch bethau mor fawrion a phwysig. Ac mewn trefn i gyrhaedd yr amcanion goruchel hyn y dyoddefodd Efe. Yr oedd cysylltiad arbenig rhwng ei angeu âg uniondeb a deddf. Arweinid Ef i Galfaria gan gyfiawnder a chyfraith yn gystal a chan gyfammod ac ysgrythyr.

Cyfarfyddwn yn y cyfeiriad hwn eto âg anhawsder. Yn gymaint ag nad oedd Iesu Grist wedi pechu erioed, ac nad oedd y gyfraith yn cosbi y diniwed, pa fodd y gallasai arllwys ei melldithion arno Ef? Gan ei fod Ef yn gyfiawn—yn berffaith gyfiawn, pa fodd y gallasai cyfiawnder ei daraw heb daraw ei hun? Pa fodd y gallasai gymeryd ei fywyd oddiar Un sanctaidd—oddiar Un ag oedd yn mhob golygiad yn anfeidrol ogoneddus, heb andwyo ei hun—heb ddyfod trwy hyny yn anghyfiawnder? Atebiad y Bibl a chydwybod oleuedig ydyw, mai trwy fyned i ddeddfle un euog, a gwneyd achos un drygionus yn achos iddo ei hun, gan ymgymeryd â holl ganlyniadau pechod, yr oedd yn rhaid i Grist ddyoddef mewn trefn i allu esgyn yn ol i ogoniant. A hyn—meichniaeth—oedd un o fannau mwyaf arbenig Cyfammod y Prynedigaeth. Ammodi i ddyoddef dros eraill, ac er mwyn gwaredu eraill, a wnai Efe ynddo. "Cosbedigaeth ein heddwch ni oedd arno ef." Gwelir, o ganlyniad, mai nid anrhydeddu cyfraith a boddloni cyfiawnder oedd awydd dyfnaf, nac amcan uchaf, ein Harglwydd wrth farw. Cawsent hwy yn raddol fesur mawr o anrhydedd a boddlonrwydd yn nghosbedigaeth dragywyddol y troseddwyr eu hunain. Pa beth, gan

hyny, oedd y rheswm gwreiddiol dros ei ymddarostyniad? Pa beth yw yr haen isaf yn nhrefn y Prynedigaeth? Caniateir mai cariad—cariad anfeidrol yn troi yn dosturi anfeidrol at bechaduriaid. Hyn oedd y cymhelliad cychwynol. Hyn a ddeffröai ac a ysgogai bob peth arall. Ac yn a thrwy yr un egwyddor y dygir y gwaith ymlaen yn barhaus.

Ymddengys yn ngwyneb yr ystyriaethau hyn fod y "rhaid" hwn yn cynnwys amrai blygion o anghenrheidrwydd,—anghenrheidrwydd cariad, anghenrheidrwydd cyfiawnder, anghenrheidrwydd cyfammod, anghenrheidrwydd Ysgrythyr. Oddiar y cwbl, ac mewn trefn i foddloni y cwbl, ymgyfyd un arall—yr anghenrheidrwydd am achub pechaduriaid. At hyn y mae y cyfan yn tueddu. Os oedd cariad yn awyddus i waredu troseddwyr cyn fod yr un drefn i waredu yn bod, gwesgir ni i gredu ei fod, ar ol darparu drwy gymaint o draul drefn mor addas a gogoneddus, yn penderfynu diwallu ei awyddfryd. Gallwn ymgysuro yn y gwirionedd fod holl ddaioni y Jehofah o blaid ein cadwedigaeth. Ar ol i gyfiawnder, yr hwn a safai dros anrhydedd y natur ddwyfol, gael ei foddloni oblegid camwedd dyn, y mae o anghenrheidrwydd ei natur yn galw am ein harbed. Nis gall wedi derbyn Iawn perffaith drosom, fod byth yn dawel hyd nes y gwel ein Gwaredwr o lafur ei enaid. Mor hyfryd ydyw meddwl fod cyfiawnder o blaid ein hachubiaeth! Dysgir ni, ymhellach, mai drwy ddychweliad annuwiolion y gellir cyflawni holl ammodau y cyfammod. Y mae y Mab wedi cyflawni ei rwymedigaethau i berffeithrwydd; ac nis gallwn ddychymygu am y Tad yn peidio gwneuthur hyny. Ac y mae ei rwymedigaethau Ef yn cynnwys cyfiawnhâu a sancteiddio troseddwyr aflan. Onid ydyw anrhydedd Duw bellach yn ymddibynu ar iachawdwriaeth pechaduriaid? Trwy hyn hefyd y gellir cyflawni yr Ysgrythyrau. Tra y cafodd llawer o addewidion a phrophwydoliaethau y Bibl eu sylweddoli yn Nghrist, y mae ynddo lawer o rai eraill nad ellir eu cyflawni ond drwy sancteiddiad a gogoneddiad dynion. Trwy eu hachubiaeth hwy y gellir troi y Bibl yn wirionedd. Cawn, fel hyn, fod pob anghenrheidrwydd ag oedd yn gwasgu ar ein Gwaredwr, wedi cael erbyn hyn ei foddloni ac wedi gollwng ei afael o hono; ac y mae y cyfan yn cydalw am gadwedigaeth troseddwyr.

Eglurhadaeth Ysgrythyrol.

GWERSI YR YSGOL SUL.

DOSBARTH IEUENGAF.

Gan y Parch. R. Humphreys, *Bontnewydd.*

LLYFR GENESIS.

Ebrill 6ed. Pen. I., 1, 2. Duw yn creu.

Yn gymaint a bod Pwyllgor yr Undeb wedi rhoddi rhyddid i'r gwahanol Gyfarfodydd Misol i gymeryd Genesis yn faes llafur i'r Dosbarth Canol yn gystal a'r Dosbarth Ieuengaf, yr ydym yn deall fod rhai Cyfarfodydd Misol wedi cymeryd mantais ar y rhyddid hwnw ac annog yr Ysgolion o fewn eu cylch i fabwysiadu Genesis fel Maes Llafur i'r naill Ddosbarth a'r llall. Ymdrechwn, hyd eithaf ein gallu, i wneyd ein nodiadau ar y gwersi yn y fath fodd, fel na byddant, ar un llaw, yn rhy anhawdd eu deall i'r rhai ieuengaf; nac, ar y llaw arall, yn rhy rwydd a syml i'r rhai sydd wedi myned ychydig ymhellach ymlaen na hwy yn nhaith bywyd. Buddiol, hwyrach, yw hysbysu hefyd mai y ffordd i wneyd y nodiadau hyn yn wasanaethgar yw trwy eu darllen mewn cysylltiad â'r Gwerslyfr ar Genesis, cyhoeddedig o dan nawdd yr Undeb. Nid ydym yn bwriadu cyfeirio at y Gwerslyfr, dan ei enw, yn ein nodiadau ar ol hyn, na dyfynu brawddeg o hono.

Cyn dechreu darllen y bennod gyntaf o Genesis, priodol yw gwneyd rhai sylwadau cyffredinol gyda golwg ar y Bibl. Y mae y gair Bibl yn golygu *Llyfr*, neu *Y Llyfr*. Gwneir ef i fyny o ddwy brif ran —yr Hen Destament a'r Testament Newydd, neu yr Hen Gyfammod a'r Cyfammod Newydd. Yr oedd y gair cyfammod yn cael ei ddefnyddio i ddechreu am y berthynas rhwng Duw a'i bobl yn unig, ond ar ol hyny cymhwyswyd ef at y llyfr sydd yn cynnwys adroddiad am y berthynas hono. Ysgrifenwyd y Bibl yn wreiddiol yn yr ieithoedd Hebraeg, Caldaeg, a Groeg—gan mwyaf o lawer yn Hebraeg a Groeg. Mae rhanau o'r Hen Destament wedi eu

cyfansoddi mewn rhyddiaith, a'r rhanau eraill mewn barddoniaeth. Yn amser Crist yr oedd yr Iuddewon yn dosbarthu llyfrau yr Hen Destament i 22 o rifedi, yn ol nifer y llythyrenau yn eu hiaith. Yn ddiweddarach, cawsant eu dosbarthu fel y maent genym ni. Pan y defnyddir y gair "ysgrythyrau" yn y Testament Newydd, y mae yn golygu llyfrau yr Hen Destament. Yn yr ail ganrif y dechreuwyd defnyddio y gair am yr Hen Destament a'r Testament Newydd gyda'u gilydd. Yn ol y cyfeiriadau a geir at yr Hen Destament yn y Newydd, fe allwn weled pa fodd yr oedd yr Iuddewon yn arfer dosbarthu eu hysgrythyrau. Yn y geiriau a ddywedwyd gan yr Iesu wrth y ddau ddysgybl ar y ffordd i Emmaus, fe geir y dosbarthiad yn llawn (Luc xxiv. 44)—y Gyfraith, y Prophwydi, a'r Salmau. Yr oedd y parch dyfnaf yn cael ei dalu i'r ysgrifeniadau hyn ymysg yr Iuddewon. Gwasanaethent fel sylfaen addysg Iuddewig, a darllenid hwynt yn synagogau gwlad Canaan (Act. xv. 21).

Y Gyfraith. Yr oedd y gyfraith yn cynnwys pum' llyfr Moses. Y mae y profion mai Moses a'u hysgrifenodd yn gryf a llïosog. Nid oes yr un ysgrifenydd adnabyddus cyn y drydedd ganrif ar ddeg wedi dangos unrhyw ammheuaeth gyda golwg ar eu hawduriaeth. Y mae y cyfeiriadau a wneir atynt gan Iesu Grist, ac yn rhai o'r Epistolau, yn dangos mai fel llyfrau Moses yr edrychid arnynt ganddo ef, a chan ysgrifenwyr y Testament Newydd. Yn y llyfrau hyn y mae Moses yn rhoddi adroddiad o hanes y genedl a arweiniwyd ganddo o wlad yr Aipht, trwy yr anialwch, hyd at wlad Canaan, a hyny o'i tharddiad cyntaf. Y mae ei hanes yn cael ei ddwyn i mewn fel rhan bwysig o hanes yr addewid a roddwyd i'n rhieni cyntaf ar ol y cwymp, sef yr addewid o Hâd y wraig. Hanes yr addewid hon a'i chyflawniad yw y Bibl drwyddo, ac y mae yr hyn a gawn yn y pum' llyfr yn rhan bwysig iawn o'r hanes. Y mae hi i'w chael mewn un llinell arbenig, yr hon sydd yn cael ei chadw mewn golwg drwy yr holl hanes. Gellir ei holrhain o Adda, trwy Seth, hyd Noah. Yn Sem, mab Noah, y mae hi yn cael ei chyfyngu i hiliogaeth neillduol; trwy alwad Abraham cyfyngir hi i genedl; trwy Judah, drachefn, i lwyth neillduol yn y genedl hono. Cyn y mae yn bosibl i neb, hen nac ieuainc, ddeall llyfr Genesis, rhaid edrych ar yr hanes sydd ynddo fel hanes yr addewid yn Eden. Y mae yr ysgrifenydd sanctaidd wedi dilyn cynllun manwl wrth ysgrifenu. Cyn son am yr addewid y mae, mewn ffordd o barotoad, yn rhoddi hanes creadigaeth y byd, a'r oll sydd ynddo, ynghyd a hanes cwymp dyn o'r cyflwr dedwydd ymha un y crewyd ef. Dechreua y llyfr trwy roddi i lawr, fel gwirionedd sylfaenol, mai trwy weithred greadigol y cafodd y nefoedd a'r ddaear eu dwyn i fôd. Y mae yr atebion sydd yn y *Rhodd Mam* a'r *Hyfforddwr* ynghylch dechreuad pob peth wedi eu sylfaenu mewn rhan ar yr adnod gyntaf o wers y Sabboth hwn. Byddai yn fuddiol gofyn yn y dosbarthiadau y cwestiynau o'r ddau lyfr ynglŷn â gwaith y creadigaeth. Y mae Efengyl Ioan yn dechreu gyda'r un geiriau a'r bennod hon. Cymharer yr hyn a ddywedir yno mewn cysylltiad â'r geiriau a'r hyn a ddywedir yma. Tair gwaith y mae y gair "creu" yn y bennod hon (adn. 1, 21, 27). Nid yw y gair o anghenrheidrwydd yn golygu gwneyd peth o ddim. Ond yma y mae yn rhaid iddo olygu hyny, am fod yr ysgrifenydd sanctaidd yn eglur yn dysgu am ddygiad defnydd pob peth i fôd. *Y nefoedd a'r ddaear.* Y greadigaeth, neu, yn hytrach, y defnydd o ba un y gwnaed yr holl greadigaeth. Mae yn bur debyg fod cyfnod hirfaith wedi pasio rhwng y creu yn adn. 1 a'r hyn y cyfeirir ato yn adn. 2. Mae yr ail adnod yn cynnwys desgrifiad o ystad nwyol mater yn ei ffurf gyntefig. Dyma sydd yn cael ei ddangos trwy y geiriau "afluniaidd a gwag," "dyfnder," a "dyfroedd."

Ebrill 13eg. Pen. I. 3—25. Dyddiau y Cread.

Nid yw y bennod hon wedi ei bwriadu i neb ddysgu seryddiaeth na daeareg oddiwrthi. Y mae y Creawdwr wedi rhoddi i ddyn alluoedd trwy arfer pa rai y medr ddysgu gwybodaethau felly heb Fibl. Amcan yr hanesydd sanctaidd yma yw rhoddi adroddiad syml am greadigaeth y byd mewn iaith digon hawdd ei deall i'r byd pan nad ydoedd ond baban mewn dealltwriaeth. Y mae yr hanes yn cymeryd y ffurf o weithredoedd yn cael eu gwneyd mewn dyddiau. Nid yw o bwys, er mwyn deall amcan y bennod, pa un ai pedair awr ar hugain ai can' mil o flynyddoedd oedd hyd yr hyn a elwir yma yn ddyddiau. Y ffurf yma a roddwyd i'r hanes er mwyn ei wneyd yn ddealladwy i'r rhai yr oedd yn cael ei ysgrifenu ar eu cyfer. Y gwirionedd pwysig a ddysgir yw mai Duw a wnaeth bob peth, a desgrifir Ef yn gwneyd pob peth mewn chwe' diwrnod. Gwaith y Dydd Cyntaf oedd dwyn goleuni i fod, a'i wahanu oddiwrth y tywyllwch, h.y., gwneyd i dywyllwch a goleuni ddilyn y naill a llall. Pa fodd

yr oedd yn bosibl i oleuni fod cyn bod haul? Yr ateb yw fod yr haul ei hun yn gorff tywyll yn dybynu am ei oleuni ar awyrgylch oleu, am hyny y mae bodolaeth goleuni cyn bod haul yn beth hollol naturiol. *A'r hwyr a fu*, &c. Yr oedd y rhai yr ysgrifenid yr hanes ar eu cyfer yn dechreu eu dyddiau chwech o'r gloch yr hwyr. Y mae hyny yn egluro paham y rhoddir y ffurf yma ar y frawddeg. Yr Ail Ddydd gwnaed ffurfafen, a hysbysir amcan ei gwneuthuriad. *Eangder* yw y cyfieithiad goreu o'r gair sydd yma am "ffurfafen." Wrth "y dyfroedd odditan y ffurfafen" y meddylir y dyfroedd oedd yn gorchuddio gwyneb y ddaear yn y ffurf o darth. Wrth "y dyfroedd oddiar y ffurfafen" y golygir y dyfroedd sydd yn ymgasglu yn gymylau uwch ben. Yr oedd y ffurfafen, yr hon a alwyd yn "Nefoedd" yn "gwahanu rhwng y dyfroedd a'r dyfroedd." Y mae gwaith y Trydydd Dydd yn ddwy ran:—1. Casglu y dyfroedd i'r un lle a'u galw yn Foroedd. 2. Creadigaeth llysiau. Yr oedd y dyfroedd o'r blaen yn gorchuddio gwyneb y ddaear. Yn awr cesglir hwynt ynghyd i'r un lle, a gelwir hwynt yn Foroedd. Wedi cael daear sych gorchymynir iddi ddwyn llysiau. Dyma y ffurf isaf ar fywyd, a dyma y ffurf ar fywyd a wnaeth ei ymddangosiad gyntaf ar wyneb y ddaear. Enwir yn yr hanes y llysiau hyny sydd yn cynnwys prif gynnyrchion y ddaear. Y mae y geiriau "llysiau yn hadu had" yn dangos fod gallu yn cael ei roddi yn y ddaear ar yr un pryd i adgynnyrchu yn flynyddol yr un math o lysiau. Y Pedwerydd Dydd gwnaed y cyrff nefol fel goleuadau. Crewyd goleuni y dydd cyntaf a'r goleuadau i'w reoli a'i wasgaru y pedwerydd dydd. Mewn manau eraill cyfieithir y gair sydd yma am oleuadau yn *lampau*. Er yr eglurhad a roddwyd ynglŷn âg adn. 3, y mae y cysylltiad rhwng y goleuadau yma a'r goleuni yno yn bur anhawdd ei ddeall. Ni theimla yr athraw un anhawsder i arwain y dosbarth i ddeall amcanion gwneuthuriad y goleuadau hyn yn ol y wers. Ar y Pummed Dydd y mae ffurf newydd ar fywyd yn cael ei ddwyn i fod a ffurf uwch nag a gafwyd o'r blaen—sef pysgod ac adar. Y mae y Creawdwr yn rhoddi *gorchymyn* i'r creaduriaid i ffrwytho ac amlhau. Ni roddir *gorchymyn* i'r llysiau. Gwel nodiad ar adn. 11. Y mae gwaith y Chweched Dydd yn ymranu yn ddwy ran. Yn y rhan gyntaf dygir i fod y creaduriaid y sonir am danynt yn adn. 24. *Anifail*. Golyga y gair greadur pedwar-troediog. *Ymlusgiad*. Creadur yn ymsymud trwy lusgo ei hunan ar hyd wyneb y ddaear. *Bwystfil y ddaear*. Creadur gwyllt mewn cyferbyniad i'r *anifail*, yr hwn sydd ddof. Y mae y rhan fwyaf o'r mathau o greaduriaid oedd yn tramwy y ddaear yn y cyfnod hwn wedi diflanu, ac nid oes ond yr olion a geir o honynt i'n cynnorthwyo i ffurfio dirnadaeth pa fath greaduriaid oeddynt.

Ebrill 20fed. Pen. i. 26—31; II. 1—3. Arglwydd y Greadigaeth.

Yr ail ran o waith y Chweched Dydd sydd yn dyfod dan sylw yn nghwrs y Sabboth hwn. Dyma hefyd y rhan bwysicaf. Ni fuasai ystyr i'r holl waith a gyflawnwyd yn y dyddiau blaenorol heb yr hyn sydd yn cael ei wneyd ar derfyn y chweched dydd—creu dyn. Heb ddyn, ni fuasai yr holl greadigaeth ond fel tŷ gwag heb neb yn byw ynddo. Yr oedd yr oll a wnaed er dechreu y dydd cyntaf yn barotoad at yr hyn a wnaed ddiwedd y chweched. Ynglŷn â gwers y Sabboth hwn y mae yr athraw i alw sylw at y pethau canlynol:—(1.) Yr ymgynghoriad "Gwnawn," &c. Ymddengys y geiriau fel pe yn gosod allan fod y Creawdwr yn galw ar y preswylwyr nefol—meibion Duw y rhai oedd yn gorfoleddu adeg y cread (Job xxxviii. 7)—i sylwi ar y gwaith." *Dods*. (2.) Delw Duw. Y galluoedd hyny mewn dyn sydd yn ei wneyd yn greadur moesol, a'r rhai hyny o dan lywodraeth sancteiddrwydd. (3.) "Arglwyddiaethant," &c. Yr oedd dyn yn cael ei fwriadu i fod yn frenin ar bob creadur arall ar y ddaear. (4.) Ymborth dyn a'r gwahaniaeth rhyngddo ag ymborth yr anifail (adn. 29—31). "Y pwyntiau a ddysgir yn yr holl adroddiad am hanes y greadigaeth ydynt—1af, Fod pob peth wedi dyfod oddiwrth Dduw; 2il, Fod y Creawdwr yn Fôd rhydd, personol, a deallol; 3ydd, mai mewn trefn reolaidd, ac nid oll ar unwaith, y dygwyd pob peth i fod; 4ydd, mai dyn, yr hwn a wnaed ar ddelw Duw, ydoedd coron y drefn hono, a'r gwrthddrych oedd mewn golwg ynddi." *Dods*. Ar ol creu dyn, yr oedd yr holl waith wedi ei orphen (ii. 1). *A'u holl lu hwynt*. Pob peth yn y nefoedd a'r ddaear. Ar ol gorphen, y mae y Creawdwr yn gorphwys. Nid oes yma son am ddiwedd ar y seithfed dydd. Nid yw yr hanes yn golygu wrth "orphwys" fod yr Arglwydd ar ol gorphen gwaith y greadigaeth yn peldio a gwneyd dim. Dywed Iesu Grist fel arall (Ioan v. 17). Gorphwysodd ar y seithfed dydd oddiwrth y gwaith oedd ganddo y chwe' diwrnod blaenorol—y gwaith o greu. Wrth wneyd felly, yr oedd yn rhoddi esiampl i ganlyn gor-

chymyn i ddyn i orphwys ar y seithfed oddiwrth waith y chwech. Y mae gwers y Sabboth hwn yn ein dwyn i derfyn y gwaith mawr o greu. Ar ol yr hyn a wnaed bob dydd fe ddywedir fod y Crëwr yn gweled yr hyn a wnaed mai "da oedd." Ar ol gwneyd y cwbl y mae y Creawdwr (pen. i. 31) yn cael ei osod allan fel yn cymeryd golwg ar yr oll fel cyfanwaith, ac yn dyweyd yn yr olwg arno ei fod yn "dda *iawn*." Yr oedd pob peth wedi cael ei wneyd yn unol â'r cynllun mawr. Yn adn. 3 o'r wers y mae chwe' diwrnod y cread yn cael eu cynnwys yn y gair "dydd," yr hyn sydd yn dangos nad oedd yr ysgrifenydd sanctaidd yn fanwl am roddi ystyr gaeth i'r gair.

EBRILL 27AIN. PEN. II. 4—17. GARDD EDEN.

Gellir edrych ar y bennod gyntaf a ii. 1—4 fel rhagarweiniad i lyfr Genesis, a phrif raniadau y llyfr yn dechreu gyda gwers y Sabboth hwn. Y mae y rhaniadau yn cael eu dwyn i mewn gyda'r geiriau "Dyma genedlaethau," &c. Mae y maes llafur am y flwyddyn felly i'w ranu fel y canlyn:—

1. Cenedlaethau y nefoedd a'r ddaear, ii. 4—iv. 26.
2. Cenedlaethau Adda, v. 1—vi. 8.
3. Cenedlaethau Noah, vi. 9—ix. 29.
4. Cenedlaethau meibion Noah, x. 1—xi. 9.
5. Cenedlaethau Sem, xi. 10—26.
6. Cenedlaethau Terah, tad Abraham, xi. 27—xxv. 18.

Yn ngwers y Sabboth hwn yr ydym yn cael hysbysrwydd am greadigaeth dyn na cheir ef yn ngwers y Sabboth blaenorol. Tuag at ddeall y wers rhaid myned yn ol i waith y rhan olaf o'r chweched dydd, ac edrych arni fel eglurhâd ar yr hyn a wnaed y pryd hwnw. Yr oedd y ddaear yn ddiffrwyth am ddau reswm, (1) Nid oedd gwlaw yn disgyn ar y ddaear, (2) Nid oedd neb i lafurio ei gwyneb. Yr oedd llawer o greaduriaid wedi eu creu, ond nid oedd un o honynt a allai lafurio y ddaear yr oeddynt yn byw arni. Y ddau beth a ddaeth i wneyd i fyny y diffygion hyn oedd (1) tarth, (2) dyn (adn. 6, 7). Rhoddir desgrifiad helaethach yma nag a gafwyd o'r blaen am greadigaeth dyn. Gwnaed ef o bridd y ddaear. Rhoddwyd anadl ynddo mewn rhyw ddull mwy uniongyrchol nag yn y creaduriaid eraill. *Enaid byw.* Nid yw y geiriau yn golygu ychwaneg na'i fod wedi myned yn greadur byw. PLANU GARDD, A RHODDI Y DYN I FYW YNDDI, adn. 8—17. Nid oes neb a wyr ymha le yr oedd Eden, ac am hyny nis gall neb ddyweyd ymha le yr oedd yr ardd. Ceir desgrifiad o honi yn y wers hon sydd yn dangos fod ynddi bob darpariaeth ar gyfer cysur a dedwyddwch dyn. Y mae y darpariadau hyny i'w gweled mor eglur fel nad oes anghen sylwi yn neilldiol arnynt. Gyda golwg ar yr afonydd oedd yn rhedeg drwyddi, nid oes dim gwybodaeth ond am ddwy o honynt, Hidecel ac Euphrates. Nid oes ammheuaeth nad yr afonydd Tigris ac Euphrates a feddylir wrth y rhai hyn. Ymysg prenau yr ardd y mae dau yn galw am sylw. 1. Pren y bywyd. Yr oedd yn nghanol yr ardd. Y mae yr oll yn ei gylch yn dywyll i ni. Trwyddo mewn rhyw ffordd yr oedd yn bosibl i ddyn fyw yn dragywydd. 2. Pren gwybodaeth da a drwg. Yr oedd hwn wedi cael ei roddi i wasanaethu fel prawf ar ufudd-dod dyn i ewyllys Duw. Trwy ymgadw oddiwrth ffrwyth y pren hwn yr oedd bywyd yn dyfod o'r pren arall. Yr oedd cysylltiad agos rhwng y ddau bren â thynged ein rhieni cyntaf ac â thynged y ddynoliaeth trwyddynt. Trwy weithredoedd yr oedd dyn i gael parhâd o fywyd yn y dechreuad, am hyny y mae y cyfammod a wneir âg ef (adn. 16, 17) yn cael ei alw gan ddduwinyddion, ond nid yn y Bibl, yn gyfammod gweithredoedd. Ond gelwir ef wrth yr enw hwn gan dduwinyddion oddiar seiliau digonol, y rhai sydd yn gynnwysedig yn y desgrifiad a geir yn y Bibl o'r cyfammod.

DOSBARTH HYNAF.

YR EPISTOL AT YR HEBREAID.

Gan y GOLYGYDD.

ARWEINIAD.

(TYBIWN y bydd y cwestiynau dyddorol a berthyn i'r *Arweiniad* i'r Epistol yn ddigon i gymeryd i fyny *ddau* Sabboth o leiaf.)

SABBOTH—EBRILL 6ED, 1890.
SABBOTH—EBRILL 13EG.

Ni oddef ein terfynau i ni ond rhoddi crynodeb byr iawn o ffrwyth yr ymchwiliadau llwyraf a diweddaraf i'r cwestiynau a berthynent i'r *Arweiniad* i'r Epistol. Cyfeiriwn ein darllenwyr a ddymunant fyned i mewn yn fanwl i'r materion hyn at Esboniadau Ebrard, Davidson, a Westcott yn Saesoneg; ac at Esboniadau galluog a dysgedig Dr. O. Thomas a Dr. Charles Edwards yn Gymraeg.

1. *Pa bryd* yr ysgrifenwyd yr Epistol? Nis gellir penderfynu ei amseriad ond mewn dull anuniongyrchol, ac nid yn hollol a manwl. Y ddau bwynt rhwng y rhai yr ysgrifenwyd ef, yn ol pobpeth a ellir gasglu, yw y blynyddoedd 58 a 66

o.c. Yr amseriad tebycaf yw naill ai cynhauaf 62 neu ddiwedd haf 64.

2. *Ymha iaith* yr ysgrifenwyd ef? Yr oedd yn hen farn yn yr Eglwys mai yn yr iaith Hebraeg (Arameaidd) yr ysgrifenwyd ef yn wreiddiol, ac mai wedi ei gyfieithu yr ydoedd i'r iaith Roeg. Ond y mae ymchwiliadau manylach yn dangos fod hyn bron yn anmhosibl. Nid oes un hanes am ysgrif wreiddiol Arameaidd; y mae yn amlwg fod yr Epistol wedi ei *feddwl* yn y Groeg, o ran ffurf ac ystyr: y mae Groeg y traethawd mor gyfoethog, mor goeth, yr iaith mor ddillynaidd, ac yn rhoddi gwahaniaethau mor lednais, o'r rhai y gellid nodi llïaws o esiamplau, fel nad oes geiriau na syniadau Arameaidd yn cyfateb iddynt. Y mae y fath amrywiadau a chwareu ar eiriau, ac y mae cystrawiad y brawddegau mor wir Roegaidd, fel yn ol barn y beirniaid mwyaf dysgedig, nas gallasent fod wedi eu cyfansoddi yn yr Aramaeg dlawd, ac nas gellid eu cyfieithu iddi. Y mae ymresymiadau yr Apostol seiliedig ar ddyfyniadau o'r Hen Destament yn gorwedd ar gyfieithiad y Deg-a-Thriugain—yn cyfateb weithiau (megys yn pen. vii. 8) i eiriau sydd yn y cyfieithiad hwnw, y rhai *nad ydynt* yn yr Hebraeg gwreiddiol. Mewn gair, y mae yr holl Epistol at yr Hebreaid mewn ffurf a sylwedd wedi ei feddwl allan yn y Groeg.

3. *At bwy* yr ysgrifenwyd ef? Dywed rhai nad yw y llyfr hwn i'w olygu fel Epistol o gwbl, o leiaf yn yr ystyr arferol i'r gair, ond fel traethawd ar ragoriaeth Cristionogaeth ar y grefydd Iuddewig. Gwir nad oes yma gyfarchiad; a bod y rhan gyntaf yn neillduol yn gwisgo gwedd traethawd yn cael ei resymu allan yn fanwl a threfnus. Ond wrth fyned ymlaen, ni a gawn brofion o berthynas bersonol yr awdwr â'i ddarllenwyr; cyfarcha hwynt yn yr ail berson; cerydda hwynt yn dyner am eu diffygion; addawa ymweled â hwynt; dymuna eu gweddïau drosto; ac enfyn ei anerch caredig atynt. Felly y mae yma nodweddion gwahaniaethol Epistol wedi ei ysgrifenu at Eglwys. At Eglwys o Hebreaid Cristionogol yn ddiau yr ysgrifenwyd ef. Ond pa un oedd hono? Heb fyned i nodi rhesymau dros y gwahanol dybiau, digon yw i ni yma ddyweyd fod y tebygolrwydd cryfaf mai yr Eglwys yn Jerusalem ydoedd; ond nid yr holl Eglwys, fel y profa Ebrard yn foddhaol iawn, ond dosbarth neillduol o fewn yr Eglwys (yr hon a wneid i fyny o filoedd o aelodau)—dosbarth o Gristionogion ieuainc, gan mwyaf, fe allai, ofnus rhag cael eu cau allan o wasanaeth y deml, o eglwys y ddwyflywiaeth Iuddewig, ac yn yr ofn hwnw mewn perygl o wrthgilio oddiwrth Gristionogaeth, ac oblegid hyn yn cael eu cymeryd yn ol eilwaith dan addysg Gristionogol—dosbarth wedi ei ffurfio i astudio Cristionogaeth, a'r Epistol at yr Hebreaid wedi ei gyfansoddi i fod yn Llawlyfr at ei wasanaeth.

4. *Pwy oedd yr awdwr?* Tua deng mlynedd ar hugain yn ol, bron na chyfrifid y gred mai yr Apostol Paul a ysgrifenodd yr Epistol at yr Hebreaid fel rhan o uniongrededd athrawiaethol. Amddiffynid y farn hon gan ysgrifenwyr, ac mewn llyfrau o ddysgeidiaeth a bri mawr ar y pryd hwnw, megys yn yr erthygl gan y Parch. W. Lindsay Alexander, D.D., yn *Kitto's Biblical Cyclopædia*, yr hwn a ddywed yn niwedd yr erthygl "fod y rhan drymaf o'r dystiolaeth dufewnol, a'r oll o'r dystiolaeth allanol, uniongyrchol, yn myned i brofi ei fod wedi ei ysgrifenu gan Paul." Ond y mae goleuni mawr wedi tori ar Feirniadaeth Ysgrythyrol, Esboniadaeth, a holl ganghenau dysgeidiaeth Fiblaidd er y pryd hwnw. Y mae ansicrwydd mawr eto ar y cwestiwn pwy oedd yr awdwr. Nid oes mewn gwirionedd ond dyfalu ar hyn. Ond fe deimlir y nesaf peth i sicrwydd erbyn hyn gan y dynion mwyaf galluog a dysgedig, sydd wedi chwilio i mewn i'r pwnc yn drwyadl, *nad* yr Apostol Paul oedd yr awdwr. Teimlwn yn lled hyderus erbyn hyn i droi barn Dr. Lindsay Alexander yn ei hol yn ei eiriau ef ei hunan, ac i ddyweyd—"fod *y rhan drymaf* o'r dystiolaeth *allanol*, a'r *oll* o'r dystiolaeth *dufewnol*, yn myned i brofi *nad* Paul oedd yr awdwr." Ni chaniatâ terfynau y Drysorfa i ni fyned i mewn o gwbl i'r ymchwiliad pwysig a dyddorol hwn. Ond annogwn ein darllenwyr i astudio y cwestiwn hwn yn Arweiniad y Principal Edwards i'w Esboniad tra galluog ar yr Epistol at yr Hebreaid, sef y Llawlyfr a ddygwyd allan ar gais Pwyllgor Undeb yr Ysgolion Sabbothol. Anhawdd ydyw meddwl am ymdriniaeth fwy llwyr a meistrolgar—cydnabyddiaeth fanylach â'r ffeithiau, na mwy o allu i'w trin ac i dynu y casgliadau priodol oddiwrthynt.

Sabboth, Ebrill 20fed. Heb. i. 1, 2.

Adn. 1. *Duw, wedi iddo lefaru.* Hunan-ddadguddiad Duw yw sail yr oll o grefydd —Duw yn llefaru, yn tori ar y dystawrwydd ofnadwy. Dyma y dramwyfa sydd yn pontio y gagendor rhwng Duw a dyn. Y mae hyn yn ei natur ei hunan yn wyrth. Mor ffol yw ceisio gwthio gwyrthiau allan o grefydd Crist pan y mae crefydd a'i sail gyntaf mewn

gwyrth! *Lawer gwaith.* Cyf. Diwyg.: "mewn llawer o ranau." Nid rhwng llawer gwaith ac un waith y mae y cyferbyniad. Nid amser yw y syniad. Ond dadguddiad mewn darnau heb unoliaeth, nes y cafwyd yn Nghrist yr hyn oedd yn ei uno. *A llawer modd.* Trwy freuddwydion a gweledigaethau, trwy arwyddluniau mewn aberthau a chysgodau. Yr oedd y "llawer" yn addefiad o anmherffeithrwydd pob un (fel gyda'r aberthau); ac yn gyferbyniol i'r *un* modd, dull, ffordd oedd yn llyncu y llawer, yn berffeithiach na'r oll ynghyd—y *modd* hollol, perffaith oedd yn ateb yn gyflawn i'r *οὐσία*—i'r hyn *oedd yn bod*, y sylwedd, yr hanfod. Nid yn ddarnau o'r un peth, ond yn ddarnau, a hyny o wahanol bethau. Dau nod o anmherffeithrwydd y dadguddiad. *Gynt wrth y tadau trwy y prophwydi.* Cyf. Diwyg. "*yn* y prophwydi." Holl dymmor maith y dadguddiad cyntaf. Meithder a chyfryngau y dadguddiad. Gofynai cyfryngau anmherffaith amser maith; ac anmherffaith yn y diwedd. *Yn y dyddiau diweddaf hyn.* Cyf. Diwyg.: "yn niwedd y dyddiau hyn." Pa ddyddiau? Nid oes yr ysgrifenydd, canys yn nechreu y cyfnod hwnw ac nid yn ei ddiwedd yr ymddangosodd Crist. Ac nid dyddiau y prophwydi; canys ni chyrhaeddai y rhai hyny hyd ei ddyfodiad. Ond yr holl gyfnod cyn Crist; yn niwedd hwnw, "diwedd y byd," "cyflawnder yr amser"—diwedd yr hen, dechreuad y newydd neu "y byd a ddaw." *A lefarodd wrthym ni yn ei Fab.* Fel y mae y Cyf. Diwyg. ar ymyl y ddalen y mae y gwreiddiol: "mewn Mab" *(in a Son)*—*ἐν υἱῷ.* Gadewir y fannod allan er mwyn pwysleisio y *mabolaeth*—"mewn un sydd yn *Fab;*" mewn un a safai nid yn y berthynas o brophwyd, ond yn y berthynas o Fab, i Dduw. Pe buasai y fannod i mewn, person Crist a fuasai ar gyfer personau y prophwydi; ond gan fod y fannod allan, y rhywogaeth a osodir ar gyfer rhywogaeth—dosbarth neu fath ar gyfer dosbarth—er mai Crist yw yr unig berson yn y dosbarth hwn. Y mae Efe yn ddosbarth ei hunan. *Yn* y prophwydi ac *yn* y Mab ("mewn Mab"). Caria *yn* ystyr ddyfnach na *thrwy* ("trwy angylion," ac weithiau "trwy y prophwydi"). Golyga "trwy" offeryn îs-raddol dadguddiad, ond "yn"—y dadguddiad ei hunan, yn ei berthynas â Christ. Llefarai yn y prophwyd, fel yr ydoedd yn offeryn byw, meddylgar, ysbrydol wedi ei lanw a'i ddyrchafu gan ysbryd Duw. Ond *yn* y Mab mewn ystyr ar ei phen ei hun—Duw yn dadguddio Duw.

Adn. 2. *Yr hwn a wnaeth efe yn etifedd pob peth.* Dyma y desgrifiad o'r Mab yn dechreu, wrth yr hyn y gwelir nad oedd y dadguddiad trwyddo Ef yn un "llawer gwaith" a "llawer modd," ond yn un hollol a pherffaith. Nid offeryn dynol oedd yma, ond person dwyfol. Dealla hai yr "etifeddiaeth" hon am ei arglwyddiaeth yn ei ystâd o ddyrchafiad yn y nef. Eraill, ei fod wedi ei wneyd yn "etifedd" pob peth, cyn gwneyd y "pob peth" eu hunain, er tragywyddoldeb. Etifedd fel Mab. Chwilied y darllenydd pa un o'r ddau syniad a gydsaif oreu â'r mater a drinir. *Trwy yr hwn hefyd y gwnaeth efe y bydoedd.* Rhoddir y gair "hefyd," yn ol rhai, i ddangos fod y Mab wedi ei osod yn etifedd *cyn* i Dduw wneyd y bydoedd." "Nid ato fel Mab tragywyddol y cyfeirir yma, ond at arfaeth Duw tuag ato fel Duw-ddyn."—*Edwards.* Crist, heblaw ei fod yn "etifedd," yw hefyd sylfaen *dragywyddol* y greadigaeth. Neu yr "oesoedd"—y mae y ddau syniad i mewn, lle ac amser. Y gwahanol ddadguddiadau o Dduw trwy yr oesoedd.

Sabboth, Ebrill 27ain. Heb. i. 3.

Adn. 3: *Yr hwn, ac efe yn ddysgleirdeb ei ogoniant ef.* Nid adlewyrchiad, fel y dywed rhai esbonwyr. Ac nid y pelydrau sydd yn dyfod allan o gorff goleu yn unig, er fod hyny yn cael ei gynnwys. Ond—fel y golyga enwau yn terfynu mewn *μα* (*ἀπαύγασμα*) nid y *weithred* fel yn parhau, ond *canlyniad* y weithred fel wedi ei gorphen—yr ystyr ydyw goleuni, neu belydr dysglaer yn dyfod oddiwrth oleuni arall, yn cael ei olygu fel wedi dyfod yn awr yn oleuni annibynol. Ystyr y gair gwreiddiol yw *pelydr-ddelw.* Goleuni bywiol, parhaol, personol—*haul* wedi ei gynnyrchu o'r goleuni gwreiddiol. Fel yn Nghredo Nicea—"goleuni o oleuni." *Ei ogoniant ef.* Nid y Shecinah, fel y dywed rhai; ond gogoniant tragywyddol, hanfodol y Tad, yr hwn y mae ei hanfod anchwiliadwy yn oleuni pur.

Ac yn wir lun ei berson ef. "Person"—sylwedd, hanfod, yr hyn sydd yn *sefyll o dan* bob ymddangosiad (*ὑπόστασις*). Golyga "person" yr un peth yn sylweddol a "gogoniant," ond mewn agwedd arall. Dynoda "gogoniant" hanfod y Tad fel y mae yn ei amlygu ei hun; a "pherson" yr hanfod *fel* hanfod yn annibynol ar yr amlygiad allanol. *Gwir lun* a arwydda fwy na chopi, neu adlewyrchiad, neu ddarlun. Golyga ffurf wedi ei cherfio neu ei thori allan –delw uniongyrchol, sylweddol, weledig a chorfforol o'r "hanfod." Dyna natur sefydlog y Mab, nid ei weithrediad mewn amser. Ond ni newidiwyd tragywyddol berthynas y Mab â'r Tad trwy ei ddyfod-

iad y tu fewn i gylch amser. Wedi iddo ddyfod o dan ammodau daearol, yr un ydoedd yn nghewyllyn ei fôd—o hyd yn "ddysgleiriad allan ei ogoniant ef, ac yn wir lun ei berson ef." "Mab y dyn yr hwn *sydd* yn y nef." Y Person hwn yn ei natur dragywyddol, ddigyfnewid, yn unig a allasai gyflawni y gwaith er mwyn yr hwn y daeth yn ymgnawdoledig, yr hyn a gynnwysir yn yr adnod hon.

Ac yn cynnal pob peth trwy air ei nerth. Y "gair" yw gair creadigol, hollalluog y Mab, sydd yn sylfaen bodolaeth yr holl greadigaeth. Nid pregethiad yr efengyl, fel y dywed yr Undodwyr. *Wedi puro ein pechodau ni trwyddo ef ei hun.* Cyfeiriad at y puredigaeth o dan y gyfraith ar ŵyl y cymmod, er cymhwyso i gymundeb â Duw. Nid sancteiddio a olygir yma, nid gwelliant moesol, ond puro oddiwrth euogrwydd pechod trwy ei aberth iawnol. Yr *aberthau* oedd yn puro; y puredigaeth oedd symud ymaith *euogrwydd*. Nid yw "trwyddo ef ei hun," nac yn yr ysgrifau hynaf na'r Cyfeithiad Diwygiedig. *A eisteddodd ar ddeheulaw y Mawredd yn y goruwchleoedd.* Cyfeiriad at Salm cx. 1. Nid y ffurf o lywodraeth a feddai Person y Mab yn ei gyn-hanfodiad tragywyddol. Nid yw "eistedd ar ddeheulaw Duw" byth yn golygu hyny yn ŷ Bibl; ond y mawrhydi, y llywodraeth a'r gogoniant dwyfol i'r hwn y dyrchafwyd y Messïah wedi gorphen ei waith ar y ddaear, ac yn wobr ei ufudd-dod hyd angeu. Gwisga yr awdurdod hon o fewn cylch amser, fel Mab y dyn wedi ei ogoneddu. Cyfeiriad at yr arferiad ddwyreiniol—mab y brenin wedi ei wisgo âg awdurdod freninol yn eistedd yn yr anrhydedd uchaf ar orsedd y brenin, ar ei ddeheulaw.

Arweiniad yw y tair adnod cyntaf hyn, yn gosod i lawr bwnc y traethawd mewn ymadroddion ardderchog; a phob gair bron yn cynnwys hedyn y profion o wirionedd mawr yr Epistol a agorir ymhellach ymlaen. Dyna y pwnc—*Cristionogaeth yw y dadguddiad mwyaf ac olaf o Dduw.* Dadguddiad mewn person a gwaith. Y mae rhagoriaeth y gwaith a'i sail yn mawredd y Person. Pwy yw y Person—y Dadguddiwr? Tragywyddol Fab Duw. Dyma neilldu-olrwydd gogoneddus y Dadguddiad—dadguddiad mewn Mab. Y Mab hwn oedd dechreu a diwedd holl weithredoedd Duw, canolbwynt yr arfaethau dwyfol. Crëwyd pob peth trwyddo fel cyfrwng ac erddo fel amcan. Gwnaethpwyd ef yn etifedd holl weithredoedd Duw; yr hwn hefyd oedd cyfrwng pob dadguddiad o Dduw mewn lle ac amser—naturiol a moesol. Efe oedd Crëwr y bydoedd, a'r mynegiad o'r Duwdod trwy yr oesoedd. Efe oedd pelydr-ddelw Duw—yr *haul* o'r gogoniant di-grëedig, argraff gwirioneddol yr hanfod. Ei ŷni creadigol ef sydd yn cynnal yr oll sydd yn amlygu Duw mewn lle, ac yn cario ymlaen yr holl ddadguddiadau o Dduw mewn amser.

Wele ddisgyniad digyffelyb. Y mae y Person Dwyfol hwn wedi dyfod o fewn cylch amser a lle, o dan ammodau daearol, i "wneuthur puredigaeth y pechodau." Dyma fawredd Duwdod wedi troi yn fawredd Cyfryngdod. A dyma y gwaith cyfryngol wedi troi yn wobr, deilwng o urddas y person a mawredd y gwaith. Ac y mae y wobr yn troi yn gyfleusdra i sicrhau llwyddiant y gwaith, ac i'w ddwyn ymlaen i'w ganlyniadau gogoneddus a thragywyddol. Dyma *Hanes* Mab Duw—yr Hanes digyffelyb! Bywgraffiad Person Dwyfol—ar y raddeg eangaf, yn cymeryd i mewn dragywyddoldeb ac amser. Gyrfäoedd ei fodolaeth. Yr uchder gwreiddiol—yr ymddarostyngiad mewn Amser—yr uchder newydd, yn cynnwys yr un gwreiddiol, ac hefyd elfenau newydd nad allasent gael bod ond trwy yr ymddarostyngiad.

Hanesion a Darnau Detholedig.

HANES DECHREUAD METHODISTIAETH YN TANYGRISIAU, FFESTINIOG.

Gan Mr. R. Rowland, U.H., *Pwllheli.*

I.

Tua dechreu'r ganrif bresennol, nid oedd ond chwech neu saith o deuluoedd yn trigianu yn y Cwm mynyddig uchod, yr hwn yn bresennol a gynnwysa ganoedd o deuluoedd. Amgylchynir y Cwm gan fynyddoedd noethlwm ac ysgythrog. I'r gorllewin iddo y mae'r "Moelwyn Bach;" i'r De, "Moelystradau" a'r "Cefn Trwsgwl;" i'r Dwyrain, "Cefn Bychan;" ac i'r ochr ogleddol gan y "Moelwyn Mawr" a'r "Foel rydd." Dyfrheir y Cwm gan bedair o afonydd, un o gyfeiriad y gorllewin, dwy o gyfeiriad y gogledd, a chan y "Barlwyd" o gyfeiriad y dwyrain.

Tua chanol y Cwm ymgolla'r tair cyntaf yn nghôl y Barlwyd; megys ag y llwnc âg un trafiwnc eu dyfroedd, fe lwnc hefyd eu henwau iddi ei hunan. Pan y dywedwn nad yw'r Cwm ond tua milldir

a hanner o hyd, a rhwng chwarter a hanner milldir o led, a bod cynifer a phedair o afonydd yn arllwys eu dyfroedd iddo, a hyny cyn gwneyd yr arglawdd ar yr ochr ddeheuol i'r brif afon, hawdd fydd i'r darllenydd gredu nad oedd y gwastadedd, gan mwyaf, ond corsydd a lleoedd lleidiog, ac oblegid hyny yn anghymhwys i fod yn dir llafur. Wedi gwneuthuriad yr arglawdd y cyfeiriwyd ato, ac mewn canlyniad i'r tir gael trin-iaeth ac amaethiad priodol, y mae'r Cwm yn gwisgo gwedd led wahanol i'r hyn ydoedd yn nechreu'r ganrif.

Galluogid y brodorion cyntefig i gynnal eu hunain a'u teuluoedd, yn benaf, trwy fagu gwartheg, ac yn neilluol defaid a geifr. Hanai y gwahanol deuluoedd hyn o'r un cyff, yn dwyn y cyfenw Cadwaladr. Preswyliai Robert Cadwaladr yn Glan-'rafon-ddu, yn eithaf y gorllewin i'r Cwm; ac yn y rhanbarth agosaf iddo trigianai Owen Cadwaladr, a chyfanneddid y rhan agosaf at Owen gan William Cadwaladr; ac mewn ffermdŷ o'r enw Tanygrisiau (yr hwn sydd tua chanol y Cwm), trigianai Dafydd Ifan, a Catrin Cadwaladr, modryb i'r tri Chadwaladr uchod. Yn y rhan ddwyreiniol o'r Cwm cyfanneddai Owen a Robert Ifan, o'r un gwehelyth a'r rhai uchod. Yr ydym yn credu fod teulu arall yn byw yr adeg yma yn "Tynewydd," sef John a Catherine Williams, tad a mam y tri brawd tra adnabyddus yn Ffestiniog, John Williams, Hen Gapel; William Jones, Pant-yr-Hedydd; a Lewis Jones, Bryneithin; ond nis gallwn sicrhau eu bod o'r un llinach a'r Cadwaladriaid uchod, er ein bod yn tybio hyny. Yr oeddynt yn gwbl amddifaid o foddion addysg fydol a chrefyddol hyd y flwydd-yn 1809, oddieithr iddynt deithio ar hyd llwybrau anhygyrch i eglwys y plwyf yn mhentref Ffestiniog ar y Sabboth neu'r gwyliau gosodedig. Pa fodd bynag, ryw-bryd yn ystod y flwyddyn uchod, tuedd-wyd meddyliau tri o'r teuluoedd uchod i ymgynnull at eu gilydd i ddysgu darllen Gair Duw y naill i'r llall, a chawn mai'r teuluoedd a gymerodd y cam pwysig hwn, ag sydd wedi cynnyrchu y fath ffrwyth toreithiog a grasusol o hyny hyd yn awr, ydoedd Owen Ifan a Margaret Williams, Ty'nddol, taid a nain y Parch-edigion M. O. Evans a William O. Evans, y cyntaf yn weinidog parchus a llafurus gyda'r Annibynwyr yn Bangor, a'r olaf gyda'r Methodistiaid Calfinaidd yn Nef-yn; John a Catrin Williams o'r Tynewydd, taid a nain y diweddar Solomon Jones, Penmachno, blaenor ffyddlawn a gweith-gar iawn gyda'r Methodistiaid Calfinaidd yn y lle uchod, &c.; a'r trydydd oedd Dafydd Ifan a Catrin Cadwaladr, o Tan-ygrisiau, taid a nain y diweddar Evan Davies, Maenofferen. Yn eu tŷ hwy y cynnelid yr ysgol ar y cyntaf, ac Owen Ifan yn rheolwr arni, yr hwn oedd yn ŵr bucheddol a defosiynol, er nad oedd yn proffesu crefydd. Serch mai ychydig bobl druain dlodion oedd fel hyn yn llafurio i addysgu eu gilydd yn Ngair yr Arglwydd, fe ddaliodd Satan arnynt fel ar Job gynt, a llwyddodd yn llawer cynt gyda'r teulu a nodwyd, fel ag i'w cael i ymrafaelio â'u gilydd, a llesteirio y gwaith da oedd yn cael ei gario ymlaen yn yr ysgol. Barnodd Owen Ifan a John Williams fod gwaith mor gysegredig yn teilyngu cronglwyd fwy tawel a hedd-ychol i'w gario ymlaen na'r hon yr oedd-ynt ynddi ar y pryd, felly symudwyd yr ysgol i Ty'nddol, yr hyn a gynnyrchodd gryn oerfelgarwch rhwng teulu Tany-grisiau a'r ddau frodor Owen Ifan a John Williams. Beth bynag am ddoethineb eu gwaith yn symud yr ysgol mor ddi-seremoni o'i chartref dechreuol, nis gall-wn lai na theimlo fod eu cydwybodau yn dyner iawn, a'u bod yn ol y goleuni oedd ganddynt yn gweithredu oddiar grediniaeth drwyadl mai dyna oedd eu dyledswydd i Dduw a'i Air. Ofnwn fod llawer o broffeswyr crefydd yn y dyddiau hyn yn ymddwyn yn dra gwahanol. Ai ni cheir rhai a gymerant ran gyhoeddus mewn cyfarfodydd gweddi, cyfarfodydd eglwysig, a hyd yn nod cydagosâu at fwrdd yr Arglwydd, tra ar yr un pryd yn byw mewn anghariad at eu gilydd, os nad yn elynion digllawn a phenderfynol? Nid hir iawn y buont heb ei symud dra-chefn i Penybryn, Blaenau Ffestiniog, pellder o tua dwy filldir o'r Ty'nddol. Paham? Nid oes genym ond dyfalu fod eu rhifedi wedi yr ymraniad yn ychydig, ynghyd a dymuniad am hyfforddiant gan rai mwy deallgar a phrofedig na hwy eu hunain yn y gwaith. Wedi ymadaw-iad y teulu a gyfanneddai yn Tanygris-iau a dyfodiad *tenant* newydd i'r lle, o'r enw John Jones, yr hwn nad oedd yn proffesu crefydd mwy na'r lleill, nac yn meddu agos gymaint o barch i'r Sabboth ac ordinhadau Tŷ Dduw a'i gymydogion, penderfynasant ei symud y drydedd waith, a'i chynnal yn Tanygrisiau, gan fod y tŷ yn fwy cyfleus i'r cyfryw orchwyl na Ty'nddol; ond byr fu ei pharhad yno y tro hwn eto, canys deallodd y rhai oedd yn blaenori gyda'r ysgol, yr arferai y *tenant* newydd fyned allan i fugeilio ei ddefaid yn hytrach nag ymuno â hwynt i ddysgu gair Duw, a chymerasant yr arch o'r hen ffermdŷ hwn yr ail waith i Ty'nddol, yn yr hwn le ei cynnaliwyd hyd y flwyddyn 1833. Tua'r adeg ei sy-

mudwyd i Ty'nddol y tro diweddaf, yr oedd Owen Ifan, a gŵr arall o'r enw Robert Williams, Ty'nycefn, a Robert Richards, y tyrchwr, wedi ymuno â chrefydd, yn yr eglwys fechan a sefydlwyd ychydig cyn hyn yn yr "Hen Gapel" yn agos i bentref Ffestinog. Bu dyfodiad Robert Williams, yr hwn a fu yn flaenor gwasanaethgar wedi hyn yn Bethesda, ac a ymfudodd ar ol hyny i'r America, gan barhau i wasanaethu ei Arglwydd hyd y diwedd yn y wlad hono, yn gaffaeliad mawr i'r ysgol yn Ty'nddol; canys yr oedd yn meddu gwybodaeth llawer helaethach na'i frodyr o'r Ysgrythyrau, a'r pynciau athrawiaethol y rhoddid cymaint o bwys arnynt gan ein tadau. Un o'r Uchel-Galfiniaid oedd, a gellir dywedyd yn ddibetrus, pwy bynag oedd yn iach yn y ffydd fel ei deallid y dyddiau hyny, Robert Williams yn fwy. Nid oedd Robert Richards yn medru darllen, ond deuai i'r ysgol yn gyson, a thrysorodd lawer o'r Bibl yn ei gof. Yr oedd hefyd yn wasanaethgar fel dechreuwr canu am dymmor, ac yn weddïwr mawr.

Yn y blynyddoedd 1825--26, daeth amryw frodyr i fyw i'r ardal, ac ymunasant â'r ychydig oedd hyd yn hyn wedi cario'r ysgol ymlaen yn ffyddlawn, megys William Morris, Tanygrisiau, tad y Meistri Owen William Morris a William William Morris, goruchwyliwr Chwarel y "Rhosydd," y rhai sydd yn aros hyd heddyw, ac yn weithwyr ffyddlawn yn ngwinllan eu Harglwydd; y cyntaf fel dechreuwr canu yn Bethel, megys ag y gwnai ei dad o'i flaen, a'r llall fel blaenor eglwysig. John Pierce hefyd a ymfudodd o'r Blaenau i Ty'nllwyn, yn fuan wedi iddynt ei ddewis yn flaenor yn eglwys Bethesda, Blaenau Ffestiniog; William Rowland, yr hwn yn ddiweddar a ddaethai i'r ardal ar ei benodiad yn oruchwyliwr ar chwarel Mr. Samuel Holland, y diweddar Aelod Seneddol dros Feirion; Gryffydd Prys, yr hwn a symudasai yma o gyffiniau Llanfair, Harlech; Humphrey Dafydd o'r Cefnbychan, tad y diweddar Gryffydd Dafydd; ynghyd a William Williams *(Gwilym Peris)*, a ddaethai i'r ardal o Lanberis. Yr oedd yr olaf yn dra hyddysg yn rheolau Gramadeg Cymraeg, a chyfranodd o'i addysg i amryw wŷr ieuainc, ymysg y rhai yr oedd y diweddar William Williams *(Gwilym Ystradau)*, a'r diweddar Pierce Davies, Porthmadoc, tad y Mri. Davies Brothers o'r un lle. Erbyn hyn yr oedd yr hen arolygwr ffyddlawn a dirodres Owen Ifan wedi cyrhaedd oedran mawr, ac yn teimlo ei anallu i ddarpar ar gyfer yr amgylchiadau a'r anghenion a daflent eu cysgodion ymlaen; a chafodd ganddynt ddewis arolygwr yn ei le. Syrthiodd hyny yn naturiol ar John Pierce, yr hwn a brofodd ei hunan yn gymhwys i lanw y swydd yn anrhydeddus ac i foddlonrwydd y frawdoliaeth. Ymgymerodd y personau eraill â dysgu dosbarthiadau, a phenodwyd W. Morris i ddechreu'r canu. Clywsom mai'r hyn a arweiniodd i'r penodiad ydoedd, ddarfod i William Rowland un Sabboth, yn absennoldeb yr hen dyrchwr Robert Richards, fethu a chodi'r mesur, ac iddo waeddi allan yn fyrbwyll ddigon, "Ddaw hi ddim, taro di hi, Wil Morris," yr hyn a wnaeth, a phrofodd ei hun yn feistr ar y gwaith, gwasanaethodd y swydd am dymmor maith gyda medr a ffyddlondeb anghyffredin. Cyfiawnder â'i goffadwriaeth ydyw hysbysu iddo ddal yn lled dawel a digyffro y prawf tanllyd o gael ei symud o'r swydd er rhoddi lle i frawd ieuengach, a mwy hyddysg yn y wyddor gerddorol. Lled anfynych yr eir trwy amgylchiad o'r fath yma, hyd yn nod yn yr oes uchelfreintiog hon, heb i'r un fydd yn y brofedigaeth wneuthur llongddryllïad ar ei ddefnyddioldeb cyffredinol gyda'r achos mawr.

Cawn fod yn yr Ysgol yn Ty'nddol bump o ddosparthiadau, y rhai a leolid fel y canlyn: Un ar yr aelwyd, y llall o amgylch y bwrdd mawr, a'r nesaf ar ganol y llawr, yn ymestyn tua chyffiniau y drws, a'r ddau arall yn yr ystafell wely. Byddai cryn lawer o rwgnach yn y dosbarth ar yr aelwyd yn erbyn yr un oedd o amgylch y bwrdd, o herwydd eu bod yn attal yn ormodol yr ychydig oleuni a ddeuai trwy'r ffenestr fechan oedd ar y gegin, yn neillduol pan ddeuai tro yr hen chwaer gorffol Ann Owen, Ty'nycefn, i ddarllen ei hadnod, oblegid cyfodai i fyny gan ddal ei llyfr rhyngddi a'r goleuni; ac nid rhaid dyweyd wrth y neb a'i gwelodd y cuddiasai ffenestr lawer cangach na'r un oedd ar yr hen ffermdŷ diaddurn hwn. Dywedai un o'r hen frodyr fod mor anhawdd ei symud o'r goleu ag a fuasai symud y "Moelwyn mawr" oddiar ei wadnau. Bu yr hen chwaer hon yn ffyddlon i achos crefydd hyd y diwedd, a phan ddaeth awr ei hymddattodiad y mae yn ddyogel genym i'w Harglwydd ei chyfarch:—"Da, was (wasanaethferch) da a ffyddlawn; buost ffyddlawn ar ychydig, mi a'th osodaf ar lawer; dos i mewn i lawenydd dy Arglwydd:" a'r hyn a ddywedwyd genym am A. Owen sydd yr un mor briodol i'w ddyweyd am ei gŵr, R. Richards, y tyrchwr, ac eraill.

Tua'r pryd yma daeth gŵr ieuanc o Sir Fôn i weithio i'r chwarel dan William Rowland, ac i lettya gydag ef, o'r enw

Thomas Williams, sef y diweddar Parchedig Thomas Williams, Rome, America. Yr oedd y gŵr ieuanc hwn, o ran ei wybodaeth Ysgrythyrol a'i ddawn i gyfranu addysg, fel Saul, yn dalach o'i ysgwyddau i fyny na'r gweddill o'r frawdoliaeth. Cynnyrchodd hyn awydd yn y cyffredin o'r rhai oedd dan addysg am gael bod yn ddysgyblion iddo, ond yr oedd eu boddhau tan yr amgylchiadau yr oeddynt ynddo yn anmhosibl, felly penderfynwyd cynnal cyfarfod Biblaidd ar noson waith, ar gylch yn y gwahanol annedd-dai. Cynnyddodd y rhai hyn mewn buddioldeb ac yn rhif y dysgyblion nes yn fuan yr aeth y tai helaethaf yn rhy gyfyng i'w cynnwys. Mor wahanol, onidê, ydyw pethau o'r natur yma dan ddylanwad pelydrau goleuni llachar y "Cymru Fydd!"

Parodd poblogrwydd y cyfarfodydd uchod i'r cyfeillion oedd yn caru Crist a'i achos, deimlo yn gyffelyb i feibion y prophwydi:—"A meibion y prophwydi a ddywedasant wrth Eliseus, Wele, yn awr, y lle yr hwn yr ydym ni yn trigo ynddo ger dy fron di, sydd yn gyfyng i ni. Awn yn awr hyd yr Iorddonen, fel y cymerom oddiyno bawb ei drawst, ac y gwnelom i ni yno le i gyfanneddu ynddo. Dywedodd yntau, Ewch. Ac un a ddywedodd, Bydd foddlawn, attolwg, a thyred gyda'th weision. Dywedodd yntau, Mi a ddeuaf." Cynnrychiolai John Pierce yr hen brophwyd, ac aelodau yr ysgol feibion y prophwydi, a William Rowland gyda'i zel a'i fywiogrwydd yr *un* a ofynai i'r prophwyd fyned gyda hwynt, canys yr oedd ganddo fwy o ddylanwad ond odid dydag ef na'r lleill. Wedi dechreu trafod yr achos ynglŷn âg adeiladiad yr Ysgoldy mewn cyfarfod athrawon a gynnelid ar ol yr ysgol, daethant i'r penderfyniad fod y cyfryw drafodaeth yn rhy amgylchiadol i'w dwyn ymlaen ar y Sabboth, a gohiriwyd y cyfarfod hyd ganol yr wythnos. Wedi dyfodiad y noswaith benodedig yr oedd yr holl frawdoliaeth wedi ymgasglu ynghyd, gan deimlo yn frwdfrydig am fyned rhagddynt gyda'r ysgoldŷ newydd. Fel y gallesid dysgwyl, etholwyd John Pierce yn llywydd y cyfarfod. Cyn dechreu ar y drafodaeth, gosododd y llywydd o'u blaen yr hyn oedd ganddynt i'w ystyried ac i benderfynu arno. Yn 1af, A oedd anghenrheidrwydd am ysgoldŷ? 2il, Os oedd anghen am dano, yn mha le y byddai oreu i'w adeiladu? Yn olaf, maint yr adeilad. Yr oedd yr ymddyddan a gymerodd le rhwng y llywydd a'r frawdoliaeth ar y cwestiynau a nodwyd, yn enwedig rhyngddo a William Rowland, yn gosod allan mewn modd amlwg wahanol nodweddion cymeriadau y ddau ddysgybl: y cyntaf yn arafaidd, manwl ac ofnus, a'r olaf o duedd fyrbwyll, zelog ac anturiaethus.* Pan y cariwyd yn unfrydol (yn erbyn teimlad y llywydd) fod ei faint i fod yn saith llath wrth chwech, sylwai y llywydd, "Wel, dyna fo i chwi, nyni a'i gwnawn felly, ac fe fydd yn ddigon o faint i'r oes hon beth bynag." Yn ffodus, tua'r adeg yma cwynai Mr. Holland wrth ei oruchwyliwr o herwydd prinder gweithwyr yn byw yn agos i'r chwarel, a chymerodd William Rowland y cyfleusdra i'w hysbysu pa fodd i gael hyny oddiamgylch: "Rhoddwch i mi le i adeiladu capel neu ysgoldŷ, ac fe adeiladir digon o dai ar eich etifeddiaeth yn fuan, a cheir cyflenwad o bobl i fyw i'r ardal," â'r hyn y cydsyniodd y boneddwr haelfrydig yn ddiymaros. Teg, fe allai, er mwyn y rhai nad adwaenent y boneddwr uchod, yw dadgan ein hargyhoeddiad y cawsid lle i adeiladu ganddo ar delerau rhesymol pe na roddasid yr awgrymiad uchod, canys profodd ei hunan yn ystod y triugain mlynedd y bu yn dal cysylltiad â'r ardal, yn un o'r rhai mwyaf rhyddfrydig a chymwynasgar i'n cenedl, a ddaeth i'n plith o wlad Hengist hyd y dydd hwn. Mae'n ddiau fod y fath newydd cysurlawn wedi peri calondid mawr i'r frawdoliaeth, a hysbysywyd ni gan un o'r rhai oedd yn cymeryd rhan yn hyn o orchwyl, eu bod wedi dechreu ar y gwaith o adeiladu yr ysgoldŷ yn ddiymaros: rhai yn tori'r sylfaen, eraill yn cyfodi'r ceryg, &c., fel erbyn diwedd yr haf (1833) yr oedd wedi ei orphen, a chawsant y diweddar Barch. Daniel Evans, Harlech (y pryd hyny), yno i bregethu ar ddydd ei agoriad. Wedi symud yr ysgol o Ty'nddol i'r ysgoldŷ, dewisasant swyddogion. Yn arolygwr yma eto etholwyd John Pierce; i holwyddori yn niwedd yr ysgol, John Pierce, ac Evan Roberts, Glanpwll bach; i wrando adroddiad o'r deg gorchymyn, Wm. Rowland; a Gryffydd Prys i wrando'r plant yn adrodd eu hadnodau. Cynnelid cyfarfodydd gweddi ar nos Sabbothau, a seiat plant ar nos waith yn yr ysgoldŷ, a cheid pregeth yn achlysurol yn ddo. Y mae'n gofus genym weled a gwrando y Parchedigion canlynol yn yr hen ysgoldŷ bach, fel ei gelwid: John Peters, Trawsfynydd; Richard Jones, Bala; Dafydd Rowland, Llidiardau; Cadwaladr Owen, Dolyddelen; Richard Humphreys, Dyffryn; Lewis Morris, Sion; Edward

* Gall y darllenydd, os dymuna, weled y drafodaeth ddyddorol a digrifol hon yn y llyfr rhagorol hwnw, a gyhoeddwyd gan Mr. G. J. Williams, F.G.S., ar *Hanes Plwyf Ffestiniog*, tu dal. 167.

Foulkes, Dolgellau; Richard Roberts, Llanelltyd; Owen Williams, Towyn; Daniel Evans, Harlech; a Hugh Jones, Bettws (wedi hyny o'r America). Yr oll wedi myned i orphwys oddiwrth eu llafur er's llawer blwyddyn. Deuai y diweddar efengylydd zelog, y Parchedig David Davies, Penmachno (wedi hyny o'r Abermaw), yn fynych i'r ysgoldŷ. Llettyent gyda'n rhieni, yr hyn yn ddiau sydd yn rhoddi cyfrif am ein hadgof o amryw o honynt pan nad oeddym ond ieuanc iawn. Yr oedd y frawdoliaeth hyd yn hyn, ac am rai blynyddoedd wedi hyn, yn aelodau o eglwys Bethesda, a thrwy fawr ymdrech a llafur aent yno i'r cyfarfodydd eglwysig, ac i un bregeth ar y Sabboth, er fod y pellder tua dwy filldir, a hyny dros fryniau a phantiau, ar hyd llwybr caregog a gwlyb, yn neilduol felly yn y gauaf. Dywedasom y cynnelid cyfarfod eglwysig i'r plant yn yr ysgoldŷ ar noson waith, ond mynych y troid y cyfryw yn gyfarfod i'r rhai mewn oed i adrodd yr hyn a wnaethai yr Arglwydd i'w henaid, a mynych y llewyrchai yr Arglwydd ei wyneb arnynt. Wedi iddynt fod fel hyn yn cario yr achos ymlaen am tua phum' mlynedd yn yr adeilad, yr hwn y dywedai yr hen flaenor, J. Pierce, yn niniweidrwydd ei galon, y byddai yn ddigon o faint i'r oes hono, teimlodd ef a'r frawdoliaeth mai eu dyledswydd oedd helaethu lle eu pabell, ac estyn cortynau eu preswylfeydd trwy adeiladu capel newydd helaethach a mwy cyfleus i'r ardal yn gyffredinol. Deisyfwyd ar John Pierce fyned â'r achos i'r Cyfarfod Misol, yr hwn a gynnelid yn yr Abermaw. Addawodd yntau fyned. Yn y cyfamser dygwyddodd rhywbeth anghysurus rhyngddo â hen frawd zelog a ddaethai i'r ardal i fyw o gymydogaeth Tremadog, o'r enw Edw. Parry. Y noswaith o flaen y Cyfarfod Misol, teimlai J. Pierce gryn betrusder a ddylasai efe fyned i'r Cyfarfod Misol ar neges mor bwysig a chysegredig, heb yn gyntaf ymheddychu âg E. Parry. Penderfynodd, pa fodd bynag, godi yn blygeiniol drannoeth a galw heibio i'w frawd er gwneyd heddwch. Ar ol cyrhaedd tŷ E. Parry, curodd yn y ffenestr, a chyfododd E. Parry, gan ofyn mewn llais a thôn ddigofus, "Pwy sydd yna yn aflonyddu ar bobl yr adeg yma ar y nos?" Atebai J. Pierce, "Y fi sydd yma, Ned Parry; cyfod, y mae arna' i eisio siarad â thi." "Na wna i," meddai'r llall; "yr wyt ti wedi poeni digon arna' i y dydd o'r blaen heb ddyfod yma yr amser yma i boeni dyn." "Tyred i'r drws," meddai'r llall drachefn, "neu fedra i ddim myn'd i'r Cyfarfod Misol." Yn y fan ymwisgodd E. Parry ac agorodd y drws, ac ar ol i John Pierce ddyweyd ei deimladau, y mae'r llall yn estyn ei law iddo ac yn maddeu dan wylo; a'r hyn a brawf ei fod wedi maddeu'n llwyr a hollol ydyw ddarfod iddo fyned i hebrwng yr hen flaenor cyn dydd rai milldiroedd o'r daith.

Mor dyner, onidê, ydoedd cydwybodau yr hen frodyr! Yr oeddynt mae'n wir yn digio y naill wrth y llall am bethau lled ddibwys, ond nis gallent fyw mewn anghariad at eu gilydd, heb wneyd pob ymdrech i ddyfod i gymmod. Cafwyd caniatâd i adeiladu'r capel newydd gan y Cyfarfod Misol, a chaed tir at hyny gan Mr. Samuel Holland, ac adeiladwyd y capel dan arolygiaeth J. Pierce a Wm. Rowland, yr hwn a agorwyd yn Chwefror 1838. Y cyntaf a bregethodd ynddo ydoedd y diweddar Barch. John Thomas o'r Bala. Yn yr ysgoldŷ bach, ychydig cyn i'r frawdoliaeth symud i'r capel newydd, y pregethodd y diweddar Barch. Thomas Williams, Rome, America (y cyfeiriasom ato yn flaenorol), un o'i bregethau cyntaf. Hysbyswyd ni gan y diweddar Mr. W. Mona Williams, mai ar noson waith yr oedd hyn. Yr oedd y pregethwr wedi bod yn gweithio yn galed yn y chwarel ar hyd y dydd, ac yn yr hwyr pregethai yn rymus ac effeithiol. Daeth i wlawio yn drwm ar ol yr oedfa, a chanddo yntau yn agos i ddwy filldir i'w teithio i'w gartref. Dywedai rhai o'r brodyr os oedd yn rhaid iddo gael myned adref, fod yn resyn na chawsai ryw hugan drosto, ac aethant gydag ef i dŷ Wm. Rowland, ac ar ol swper galwai'r diweddaf ar ei wraig, "Begi, ymha le mae fy nghob fawr i?" Atebai hithau, "Y mae yn y cwpbwrdd," a gofynai, "Beth wnewch â hi, William?" "Ond i roi dros Thomas Williams i fyned adref," atebai yntau. Awgrymai'r wraig yn gynnil yr atebai yr hen gôb y dyben. "Na," meddai yntau, "pe buasai wedi ei gildio âg aur melyn, fuasai hi ddim yn rhy dda i ŵr Duw; tyr'd â hi," ac felly fu. Diau fod Thomas Williams yn teimlo yn gyffelyb i Margaret Rowland, ond yr oedd y bregeth wedi cyffwrdd calon ei gŵr fel yn achos Lydia gynt, ac yr oedd am i bethau'r ty fyned i wasanaethu'r achos. Gallwn ychwanegu yma y maeddwyd anghrediniaeth yr hen flaenor J. Pierce yr ail waith. Ymhen dwy flynedd ar ol agoriad y capel cyntaf yn 1838, mae'n myned drachefn i'r Cyfarfod Misol i ofyn caniatâd i ail-adeiladu'r capel, yr hyn a gwblhawyd yn 1840.*

* Yr wyf yn ddyledus am lawer o'r ffeithiau uchod i'r diweddar a'r anwyl Mr. William Mona Williams, a Mr. G. J. Williams, F.G.S., yn y llyfr gwerthfawr a gyhoeddwyd ganddo ar *Hanes Piwyf Ffestiniog.*

Bwriadwn wneyd nodiadau yn ein hysgrif nesaf ar nodweddion neillduol yr hen frodyr a nodwyd, ynghyd ag eraill fu yn cynnorthwyo i ddwyn yr achos ymlaen yn Tanygrisiau.

SABBOTHAU AR HYD Y BYD.

GAN BREGETHWR TEITHIOL.

SABBOTH AR FOR Y WERYDD.

YR oeddwn wedi bod yn dyfalu tipyn pa fath beth oedd Sabboth ar ganol y Werydd, ar fwrdd agerlong yn cludo llythyrau. Dygwyddodd yn ffortunus fod y Sabboth cyntaf yn ddiwrnod teg, dysglaer. Yr oedd y môr hefyd yn hyfryd o dawel. Nid oedd y llong ysblenydd ond yn cael ei haraf siglo ar y tonau hir, isel sydd yn treiglo yn ddidòr, hyd yn nod yn y tywydd tecaf, ar y cefnfor. Teyrnasai dwfn lonyddwch. Yr oedd y dydd a'r lle yn cynnyrchu teimlad o ddifrifoldeb. Ac yr oedd amgylchiad wedi dygwydd y dydd hwnw i ddyfnhau y teimlad. Yr oedd marwolaeth wedi cymeryd lle ar y bwrdd yn foreu y Sabboth hwnw. Tarewsid gwraig dlawd, teithydd yn y llywbarth *(steerage)*—y dosbarth rhataf o'r llong, â'r geri marwol *(cholera)*. Yr wyf yn cofio fy mod tua chwech o'r gloch nos Sadwrn, yn edrych arni â'm pwys ar y rheilen sydd yn rhedeg o amgylch y trydefwrdd *(upper deck)*—edrychwn i lawr a gwelwn hi ar fwrdd isaf y llong yn golchi dillad i'w gŵr a'i phlant. Cyn i'r boreu Sabboth wawrio yr oedd yn gorff. Tafiodd yr amgylchiad hwn brudd-der mawr dros y teithwyr; canys pwy a allai ddyweyd tro pwy a fyddai nesaf? Fel y canodd Dafydd Ddu Eryri gyda dwys deimlad:—

"Pwy ä i'w daith yn nesaf un—
Ai *ti fy hun* fydd hwnw?"

Er fod y gŵr druan wedi ei lethu gan ddyrnod mor sydyn a dychrynllyd, eto yr oedd ganddo i ofalu am ddau o blant bychain dros y gweddill o'r fordaith. Druan o hono! cydymdeimlem yn fawr âg ef i gyd, a darfu i rai gwragedd da wneyd yr oll a allent i'w helpu o hyny allan i ofalu am ei blant bychain heb fam.

Nid anghofiaf byth y teimlad o ddifrifoldeb a ymdaenai drosof, wrth wrando ar gloch fawr y llong yn canu cnul yn araf a phruddaidd i roddi rhybudd am y claddedigaeth. Ataliwyd peiriannau y llong tra y cedwid y gwasanaeth. Deuai lluaws o deithwyr o'r *saloon*, y rhan oreu o'r llong, yn gystal a'r rhan waelaf, gan ymdyru o gwmpas yr agorfa yn ochr y llong, trwy yr hwn yr oedd y corff i gael ei ollwng i lawr i'w orphwysfan yn y dyfnder. Teimlai llawer na feiddient ddyfod mor agos rhag ofn yr haint, ac yr oedd y rhai a ddaethent yn ddifrifol a theimladwy—canys ni wyddai neb pwy a gâi ei wysio yn nesaf.

Dygid y corff i'r lle ar rwyll-astell, wedi ei wnïo i fyny mewn sachlïan yn lle arch, a baner fechan yr *Union Jack* uwch ei ben. Rhoddid ceryg a haels gydag ef i wneyd iddo suddo. Darllenid y gwasanaeth difrifol ar gladdedigaeth y meirw ar y môr; a phan adroddid y geiriau "ei chorff i'r dyfnder i'w droi yn llygredigaeth," clywid ysblash yn y dwfr. Wrth edrych dros ochr y llong, gwelid i lawr yn ddwfn i'r dyfroedd clir, gwyrdd, a chanfyddid y marw diarch yn suddo yn is ac yn is i'w bedd yn y cefnfor. Yn ebrwydd cyhoeddid yr "Amen;" ac yna yn ddioedi teimlid ysgydwad y peiriannau eto ar waith, ac yr ydym yn prysuro ymlaen tua'r Byd Newydd.

Nid hon oedd yr unig farwolaeth yn ystod y fordaith: bu deg eraill feirw, a'r cyfan yn yr amser byr o ddeng niwrnod.

Y mae y boreubryd drosodd. Am hanner awr wedi deg y mae y gloch yn cnulio eto, yn awr i alw "i'r eg lwys," fel y galwent y gwasanaeth crefyddol. Llenwir y neuadd fawr—y *saloon*—mewn ychydig fynydau. Dyma swyddogion y llong yn eu gwisgoedd swyddol, a'r morwyr sydd heb fod mewn gwaith, oll yn ddestlus a glân, yn troedio i mewn ac yn cymeryd eu heisteddleoedd. Y mae yma yn awr bobl o bob gwlad, a Christionogion o bob enwad. Y rhai ar yr ochr dde i'r neuadd ydynt Germaniaid a Lutheriaid. Yn agos atynt y mae amryw Ffrancwyr. Y gŵr a'r wraig yna yn ymyl y drws ydynt o Mexico. Dyna gwpl arall o Ogledd America. Yn eistedd heb fod ymhell oddiwrthynt y mae dau lwydaidd, teneu, tal, uchel-fochgernog, wedi bod yn swyddogion yn myddin y Dehau. Y dynion cadarn a'r ysgwyddau llydain yna ydynt o Canada. Y nesaf atynt sydd feddyg Americanaidd, wedi bod yn gorphen ei efrydiau meddygol yn Berlin. Yna daw arianydd Ysgotaidd, Môr-raglaw Seisonig, a Gweinidog Amaethyddiaeth o Ottawa. Y gŵr hybarch yna, wedi plygu gan oedran, yw Dr. BURNS, proffeswr hanesiaeth yn Ngholeg Toronto. Eistedda yn agos ato farsiandwr o New Brunswick, gyda'i wraig a'i ddwy ferch, y rhai ydynt wedi bod am redfa trwy Ffrainc a Switzerland.

Y tu hwnt iddynt y mae cwpl newydd briodi o Ogledd Iwerddon. Y mae amryw Iuddewon o gwmpas y neuadd o'r tu allan. Gallent glywed ein canu, os nad y pregethu; a rhaid dyweyd fod eu hymddygiad gweddaidd a pharchus yn peri i ni dybied eu bod y dydd hwnw o dan ddylanwad daionus Sabboth Cristionogol.

Cadben y llong oedd yn darllen y gwasanaeth. Ac yna cefais innau y fraint o anerch y môr-deithwyr cynnulledig oddiar y testyn, "A'r môr nid oedd mwyach." Wrth gyfeirio at berthynasau yn ymadael yn y bywyd hwn, ac at y tonau o drallod y rhai ni fyddent mwyach, ac at "y môr yn rhoddi i fyny y meirw oedd ynddo," yr oedd llawer yn teimlo yn ddwys. Yr oedd yr ymgais hwn at wneyd daioni fel "bwrw y bara ar wyneb y dyfroedd," ac yn wir y mae wedi "ei gael ar ol llawer o ddyddiau." Cenir "I Dad y trugareddau i gyd" yn galonog, cyhoeddir y fendith ymadawol, ac ymwahana pawb i aros yr alwad at giniaw neu *luncheon*. (Y mae y ciniaw yn hwyr.)

Treuliais y prydnawn yn mhen blaen y llong yn rhanu traethodau a Thestamentau i'r teithwyr yn y dosbarth isaf (y *steerage*). Anfona Cymdeithas Fiblau a Chymdeithas Traethodau America gyflenwad da ar fwrdd y llong o'u cyhoeddiadau ymhob iaith, fel ag yr oeddys yn gallu cynnyg Gair y Bywyd i Swediaid a Norwegiaid, Ffrencwyr a Chymry, yn gystal a Saeson.

Am dri o'r gloch, yr oedd genyf wasanaeth yn mhen blaen y llong. Safwn yma rhwng byrddau y llong, a gwelwn uwch ben, islaw ac o amgylch, lïaws o lygaid eiddgar yn craffu arnaf. Y mae yn debyg fod yma dri chant o eneidiau, y rhai nad oeddynt, ac na fuasai lle iddynt, yn y gwasanaeth boreuol, yn awr yn olywed newyddion da yr iachawdwriaeth. Gall fod y Gair wedi cyrhaedd rhyw galonau, ac wedi dwyn ffrwyth i ogoniant y Gwaredwr. Gwyddom fod yr addewid yn ei grym: "Fy Ngair—ni ddychwel ataf yn wag."

Yn fuan ar ol ciniaw, yr oedd yn ddrwg genyf weled fod lliaws o'r môr-deithwyr yn y *saloon* yn dechreu chwareu *chess* a chardiau. Aethum i fyny ar y *deck*, a chefais gwmni bychan yn canu emynau. Ond gan fod y môr wedi myned yn fwy garw, gorfodwyd fi i fyned i lawr. Gofidiwyd fi yn fawr wrth weled cymaint o yfed gwirodydd a chwareu cardiau ar nos Sabboth; ac wrth weled y cadben, yr hwn oedd wedi darllen y gwasanaeth mor dda yn y boreu, yn awr yn arfer ei ddawn i chwareu *whist*. Mor hawdd oedd rhoddi heibio yr amgylchiad difrifol a gymerodd le yn y boreu! Teflais fy hun ar esmwyth-fainc *(couch)*, a cheisiais anghofio yr olygfa oedd o'm blaen trwy droi fy meddyliau at gartref at rai anwyl ymhell, y rhai y gwyddwn oedd yn meddwl am danaf. Mor ychydig a allent hwy ddychymygu ddiwrnod mor ddyeithr oedd hwn wedi bod—fy Sabboth cyntaf ar y môr—ar ganol Môr y Werydd!

Wythnos eto ar y môr o hyd, ac yr ydym yn edrych yn awyddus am dir. O'r diwedd, aethom heibio i Benrhyn Race. Y mae goleuadau Chebucto yn ymddangos ymhen diwrnod neu ddau. Arosasom yn hir ar y bwrdd nos Sadwrn yn y gobaith o weled Halifax, ond bu raid i ni fyned i'r gwely heb y pleser hwnw. Codasom yn foreu drannoeth. Gwelem nad oedd y llong yn symud mwyach. Yr oeddym yn mhorthladd Halifax, ac yn llawen iawn am ei bod wedi myned yn dawel. Fel y dywedai meddyg enwog o *St. John*, yr hwn oedd yn gyd-fordeithiwr â ni, yr oeddym o'r diwedd "wedi *rowlio* ar draws môr y Werydd" ac wedi cyrhaedd y làn yn ddyogel.

Bwriadwn fyned i'r làn yn ddioedi. Y mae pawb yn awyddus i roddi eu traed ar ddaear galed unwaith eto. Ond gwag yw gobeithion daearol! Rhaid i ni aros hyd nes y bydd yr archwiliwr meddygol wedi dyfod ar y bwrdd, a rhoddi i ni dystysgrif foddhaol o iechyd y llong. Edrychais ar fy oriawr. Nid yw ond chwech o'r gloch y boreu. A boreu Sabboth ydyw hefyd; ac y mae M.D., fel pobl eraill, yn sicr o gysgu peth yn hŵy y diwrnod hwnw. Ond wedi dysgwyl pedair awr gwobrwywyd ein hamynedd. Cefais fy hun yn troedio y ddaear sylweddol. Ni waeth i mi heb fanylu ar y drafodaeth gyda swyddog y toll-dŷ, na fy mhrofiad yn y gwestŷ—yr *Halifax Hotel*. Wedi cael cyntun am ychydig oriau, ymolchi, a bwyta, cyfeiriais fy nghamrau i dŷ Dduw. Yr oeddwn wedi gweled rhyfeddodau yr Arglwydd yn y dyfnder, a diolchwn iddo yn wresog am fy nwyn yn ddiangol i dir.

ADGOFION AM YMWELIAD Y PARCH. HENRY REES A LLYDAW YN Y FLWYDDYN 1864.

Gan y Parch JAMES WILLIAMS, *Caer*.

At Olygydd y DRYSORFA.

FY ANWYL GYFAILL,—Yr wyf newydd orphen darllen y Rhan Gyntaf a'r Ail o *Gofiant y Parch. Henry Rees*, ac wylwn fel plentyn uwch ben llawer o'r tu dalenau.

Ar unwaith dygodd i'm cof yr addewid a wnaethum i chwi yn *Rock Ferry;* ac er fod fy llaw wedi chwyddo yn fawr, dechreuais yn ddioedi roddi i chwi adroddiad byr am ymweliad y pregethwr mawr â Llydaw.—J. W.

Yn mis Mai, 1864, yr oeddwn yn ngorsaf L'orient, yn dysgwyl gyda mawr bryder ddyfodiad tri o gyfeillion anwyl. Yr oeddwn yn awr yn cael y pleser o weled ein capel newydd wedi ei adeiladu ar ol mwy nag ugain mlynedd o lafur caled yn y ddinas. Ffaith hynod yw fod aelodau y Cynghor Trefol wedi rhoddi un o ystafelloedd mawr y Neuadd Drefol at ein gwasanaeth yn ystod yr holl amser hwnw. Dychymygwch fy llawenydd pan y gwelais yn disgyn o'r gerbydres—yn gyntaf, yr anwyl Barch. John Roberts o Liverpool, yr hwn yn fy marn I oedd un o'r rhai blaenaf yn nghychwyniad ein Cenadaeth Gymreig; yn ail, Dr. Thomas Phillips, y gŵr a adwaenwn o'm mebyd, a'r hwn a gyhoeddid yn fynych yn Lacharn fel "y pregethwr oedd yn gwybod yr iaith Seisonig," neu fel y dywedai y cyhoeddwr yno—"the preacher who *knowed* the English language." Yn olaf, ond nid y lleiaf, y Parchedig Henry Rees, yr hwn y darfu i'r olwg arno yru iâs o deimlad trwy fy nghorff a'm henaid.

Drannoeth (dydd Sadwrn) cyrhaeddodd y gweinidogion Ffrengig, a chyflwynwyd hwy i'r gweinidogion Cymreig. Dealler mai y Sabboth hwn oedd gŵyl fawr agoriad ein capel newydd. Cyfarfuasom oll boreu Sabboth yn ystafell *(vestry)* y capel. Yr oeddym o gwbl yn naw o weinidogion. Daethai amryw o honynt â'u gynau a'u hysnodenau *(bands)* gyda hwynt. Darfu i drefedigaeth o Ysgotiaid yn agos i Brest (i'r rhai y pregethwn weithiau) anfon i Edinburgh am *gown* a *bands* newydd yn anrheg i mi, at yr achlysur hwn. Gan y gwyddwn fod Mr. Rees i ddyfod i agoriad capel L'orient, ni wnawn eu gwisgo nes i'r gŵr anwyl eu cysegru (maddeuwch y gair!) trwy eu gwisgo ei hunan yn gyntaf. Buasai yn gwneyd i chwi wenu pe buasech yn bresennol yn fy ngweled yn rhwymo y *bands* am ei wddf! "Beth ydych yn *wneyd* hefo fi, Williams?" meddai. "Byddwch chwi yn *llonydd*, Syr, am fynyd," oedd ein hatebiad. Wedi i'r *gown* gael ei osod a'i sicrhau yn briodol am dano, safodd ar ei draed; ac ni welwyd yn ddiammeu berson o ffurf mwy prydferth erioed yn y byd hwn. Yr oedd pob llygad yn craffu arno pan yr oeddym yn dyfod o'r ystafell i'r capel. I'm rhan I yr oedd y gwaith o offrymu y Weddi agoriadol; a dywedai Mr. Rees wrthyf ar ol hyny, nad oedd efe yn deall yr un gair o'r weddi, ond ei fod yn cael ei foddhau yn fawr yn fy llais, am fod rhyw fath o dôn Gymreig ynddo! Daethum i lawr o'r pulpud: a chyfieithais i Mr. Rees, tra yr oedd Llywydd parchedig Cynghorfa *(consistory)* gweinidogion Brest yn pregethu, rai o'r prif sylwadau a wnai, y rhai a ymddangosent yn rhoddi boddhâd mawr iddo. Cynnaliwyd tri gwasanaeth y Sabboth hwnw; ac ymddangosai yntau yn cael ei foddhau yn hynod wrth weled cynifer o Babyddion yn gwrando gyda'r fath astudrwydd.

Ar ol y gwasanaeth prydnawnol, daeth tri neu bedwar o'r Protestaniaid ataf, gan ofyn i mi gyfieithu i'r tri boneddwr Cymreig eu diolchgarwch gostyngedig iddynt am eu hymweliad â ni, ac i'r cyfeillion yn Nghymru am eu haelioni yn adeiladu capel iddynt. Dywedais wrth y cyfeillion Cymreig mai hwn oedd yr unig gapel Protestanaidd yn holl Dalaeth Morbihan, yr hon a gynnwysai fwy na hanner miliwn o eneidiau. Ymddangosai Mr. Rees wedi synu yn fawr, a dywedai wrth ei ddau gyfaill gyda theimlad gwresog: "Phillips a Roberts, dyna i chwi ffaith: yr hen Fethodistiaid sydd wedi adeiladu yr unig gapel mewn poblogaeth o hanner miliwn!"

Yn yr hwyr, pregethodd gweinidog Nantes bregeth hynod iawn. Boreu drannoeth (dydd Llun), cawsom Gyfarfod Eglwysig; a pharai hyfrydwch mawr i'r gweinidogion Cymreig mai y boneddwr rhagorol Colonel Hawker oedd yn gweini fel cyfieithydd yn y cyfarfod hwn. Nos Lun, pregethodd gweinidog Ffrengig arall i gynnulleidfa fawr. Yn ystod y dydd yr oedd pellebyr *(telegram)* wedi dyfod i alw yr anwyl Mr. John Roberts i Loegr. Dydd Mawrth, cychwynasom i Quimper; a pharai ddifyrwch mawr i Mr. Rees i weled y Llydawiaid yn eu hamrywiol wisgoedd. Drannoeth aethum gyda Mr. Rees a Dr. Phillips i Lanheuron, preswyl brydferth Colonel Hawker. Fel y gallech feddwl, derbyniwyd hwynt gyda llawenydd mawr! Gwyddent fod pump o'n dychweledigion yn byw gyda'r *Colonel*. Gwnaethai les i'ch calon i weled gwynebpryd y ddau weinidog duwiol pan yn ysgwyd dwylaw â phedwar o honynt. Yr oedd y *Colonel* wedi gwneyd i fyny dŷ bychan tra chysurus i'r cyntaf o'n dychweledigion, "yr hen Peter," bron yn ymyl ei balas. Gofynai Mr. Rees yn y fan, "Pa le y mae Peter Williams?" "Ni a awn i'w weled yn unîon, syr," meddwn wrtho. Gwyddwn fod Peter yn treulio awr dda bob dydd ar ol ei giniaw gyda'r Bibl. Ar yr adeg hon, arwein-

iais y ddau foneddwr parchedig i'w dŷ. Agorais y drws yn bur ddystaw, a gwelent yr hen ŵr yn darllen. Yna, dywedai Mr. Rees mewn llais tyner: "Phillips! onid yw o yn debyg iawn i Gymro!" Yna meddai: "Yn awr, Williams, yr wyf fi yn myned i ofyn ychydig o gwestiynau i Peter. Gwnewch chwi eu cyfieithu iddo; a chan fy mod yn eich hadnabod chwi yn dda, rhaid i mi ddyweyd wrthych am fod yn onest. Gadewch i mi gael atebion Peter ac nid eich rhai chwi!" Y cwestiwn cyntaf oedd—"Peter, beth ydych yn ei feddwl wrth fod Duw yn cyfiawnhau pechadur?" Atebodd yr hen ŵr yn rhagorol, yn benaf gydag adnodau o'r Epistol at y Rhufeiniaid. "Ai ei ateb ef yw hwnyna, Williams?" gofynai Mr. Rees. "Ië, syr," meddwn innau. Gofynodd amryw gwestiynau drachefn; ac yr oedd y pregethwr mawr dan deimladau dwysion wrth glywed atebion Peter yn cael eu cyfieithu iddo, a Dr. Phillips mewn dagrau. Yn awr, fy nghyfaill Dr. Parry, y mae arnaf eisieu i holl ddarllenwyr y Drysorfa, yn enwedig y rhai sydd yn awyddus i roddi y Genadaeth yn Llydaw i fyny, i sylwi ar eiriau y pregethwr galluog Henry Rees: "Phillips! *yr ydwyf wedi cael digon heddyw i dalu am yr holl arian a wariwyd genym yn Llydaw!*" Cafodd ei foddhau yn fawr yn Mrs. Hawker, a dywedai: "Yr wyf wedi gweled, ac ymddyddan â, llawer o foneddigesau; ond y mae hi yn un o'r rhai mwyaf duwiol a deallgar a gyfarfyddais erioed."

Teimlais yn falch lawer gwaith fod y Sabboth a dreuliodd Mr. Rees yn Quimper yn un o'r rhai mwyaf hynod mewn gwledydd Pabaidd; oblegid yr oedd y Sabboth hwnw yn ŵyl fawr—"Gwyl Corff Crist" *(The Festival of Corpus Christi)*—pan y mae Crist yn cael ei gario (yn bersonol, meddant hwy) trwy yr heolydd. Yr oedd yr orymdaith yn un ryfeddol; yr oedd nifer yr offeiriaid, y mynachesau a'r boneddigesau ieuainc, yn fawr iawn. Cariai yr esgob yr *host*, neu aberth yr offeren, o dan ortho neu nenlen *(canopy)* ysblenydd, pedair congl yr hon a ddelid gan bedwar o bendefigion penaf y tir. Safai Mr. Rees yn synedig, ac fel Paul yn Athen, "ei ysbryd a gynhyrfwyd ynddo" wrth weled y ddinas wedi ymroddi i eilunaddoliaeth. Tynodd sylw amryw o'r Pabyddion, wrth ei weled yn cerdded yn ol ac ymlaen. O'r diwedd dywedodd wrthym: "Ac ai hon yw y gyfundraeth sydd yn ennill tir yn Lloegr, ac hyd yn nod yn Nghymru?" Ymddangosai yn teimlo yn ddwys; ac yr oedd yn dda ganddo pan ddywedais wrtho ei bod yn bryd i fyned i'n gwasanaeth ni. Dywedais wrtho cyn myned i mewn i'r capel, fod y dôn gyntaf oedd i'w chanu wedi ei chyfansoddi yn amser Calvin, yr hwn oedd wedi bod yn cymeryd rhan yn ei chanu lawer gwaith yn Geneva. Pan y rhoddais allan y Salm—"Fel y brefa yr hŷdd am yr afonydd dyfroedd," &c., yr oedd wrth ei fodd, a mwynhäi yr hen dôn â'i holl galon. Dywedai ar ol hyny ei bod yn debyg iawn i hen dôn Gymreig.

Aethom yn y prydnawn i Eglwys Lydawaeg fawr, bedair milldir o Quimper, lle y cafodd y ddau ymwelydd olwg gampus ar wasanaeth crefyddol *Llydawaeg gwirioneddol*. Gan ei bod yn ddydd yr uchelŵyl, yr oedd gan y bobl eu gynau a'u cleddyfau gyda hwynt yn yr eglwys, i anrhydeddu aberth yr offeren. Yr oedd yn amlwg fod Mr. Rees ychydig yn ofnus; a gofynodd i Dr. Phillips a oedd efe yn meddwl fod rhyw berygl? Sicrheais innau hwynt nad oedd dim achos iddynt i ofni. Yr oedd yr offeiriaid yn *chantio* y *Gosperon* yn Lladin; a dywedai Mr. Rees, "Paham na ddywedai y creaduriaid yma air am y Gwaredwr wrth y bobl, a hyny yn eu hiaith eu hunain?"

Pan y daethom allan o'r *Gosperon*, dywedais wrth fy nau gyfaill fy mod yn myned i'w gadael am ychydig amser, er mwyn rhanu traethodau i'r bobl, ychydig o ffordd oddiyno, gan na wnai y tro i'w rhoddi yn y pentref, am y gwnai yr offeiriaid eu llosgi. Yr oedd Mr. Rees braidd yn anfoddlawn i mi fyned, gan ei fod yn ofni iddynt wneuthur niwed i mi; a gofynai yn dra difrifol, "Onid oes arnoch ofn y bobl yma sydd yn edrych mor wyllt?" Yna chwanegodd, "Buasai arnaf fi yn wir ofn cyfarfod â hwynt fel hyn ar ddydd yr ŵyl." Dywedais innau fy mod yn gynnefin âg ymddyddan â hwynt, ac mai anfynych y cefais unrhyw sarhâd.

Yr oeddwn wedi cyhoeddi yn y boreu y byddai y gweinidogion dyeithr yn traddodi anerchiadau byrion yn nghyfarfod yr hwyr, ac y gwnawn innau eu cyfieithu i'r Ffrancaeg. Daeth lliaws ynghyd, a siaradodd Dr. Phillips yn Saesoneg, ac yr oeddwn innau yn gallu rhoddi y rhan fwyaf o'i anerchiad yn y Ffrancaeg. Yna cyfododd Mr. Rees a dechreuodd siarad yn Gymraeg. Sibrydais yn ddystaw wrtho y byddwn ddiolchgar iddo os siaradai yn Saesoneg. "Na," meddai yntau "rhaid i mi siarad yn Gymraeg." Y pwnc oedd cyfiawnhâd pechadur. Darfu i lais y gwr anwyl fy ngorchfygu I yn lân, ac nis gallwn ymattal rhag wylo. Ymhen ychydig amser dechreuais gyfieithu, ac yr oedd y bobl

wrth eu bodd. Gallwch yn hawdd ddychymygu fy nheimladau pan y clywais *y llais hwnw* yn y pulpud yn Llydaw ragfarnllyd!

Dydd Llun yr oedd cyfarfod anghyffredin yn Eglwys fawr Gadeiriol Quimper. Deuai y plant ag oedd wedi cymeryd eu cymun cyntaf yno o luaws o fanau o'r wlad, a'u rhieni a'u perthynasau gyda hwynt; ac yr oedd yr Eglwys Gadeiriol, yr hon a ddaliai ddeng mil, yn hollol lawn. Pan yr aethom i mewn yma, yr oedd fy nau gyfaill wedi synu wrth weled y fath gynnulleidfa. Pan yn ymwthio drwy y bobl, collasom Mr. Rees; ond wrth edrych tua'r pulpud, gwelem ef yn nesu yn raddol tuag ato, ac o'r diwedd yn sefyll wrtho ei hun yn ymyl y pulpud, gan edrych i fyny ar yr hen offeiriad oedd yn pregethu. Golygfa ogoneddus oedd gweled y dyn ysblenydd yn nghanol yr hen offeiriaid budr eu hymddangosiad. Yr oedd cannoedd o lygaid wedi eu sefydlu arno gyda gwên o foddhâd ac edmygedd; ac yr oedd yr hen bregethwr wedi colli llinyn ei bregeth wrth weled y gŵr hwn a edrychai mor ddyeithriol â'i lygaid wedi eu sefydlu arno. Yr oedd y newydd wedi myned allan yn y ddinas "fod archesgob ar ymweliad â Williams," a chymerid yn ganiataol mai Mr. Rees oedd yr archesgob.

Synwyd ef yn fawr wrth weled gynifer o offeiriaid oedd yn talu sylw i'r plant, ac yn gweinyddu addysg iddynt; a dywedai y byddai iddo ef ddwyn y mater hwnw o flaen ei gyfeillion yn Nghymru. Drannoeth ymadawodd y ddau weinidog anwyl am gartref.

Barddoniaeth.

AT FY NGENETH YN Y WLAD BELL.

At fy anwyl eneth hawddgar
Dros y môr mewn estron wlad,
'R wyf yn anfon hyn o ganiad
O wir serch a gofal tad;
Môr y Gogledd a'i rew-wyntoedd
Nis gall byth ddiffoddi 'r fflam—
Fflam y cariad pur sy 'n ennyn
Yn nghalonau tad a mam!

Mae 'n dychymyg yn ehedeg
Ar adenydd cariad gwir,
Mewn mynydyn cawn ein hunain
Wedi croesi môr a thir;
Cymdeithasu â'n hanwyl eneth
Yn yr ysgol—yn y tŷ:
Ond deffrŵyn y fynyd nesaf—
Pellder hirfaith rhyngom sy'!

Ond *yr un* yw 'r pethau MWYAF
Yma a thros y cefnfor glas—
Duw, a CHRIST, a'i lân Efengyl,
Beibl, Gweddi, Moddion gras:
Rhown hi i ofal Duw Rhagluniaeth
I'w chadw 'n dyner rhag pob nam,
A'i dwyn yn ol i'w chartref cynhes—
Mynwes chwaer, a thad a mam!

EI THAD.

ATEBIAD Y GWLADWR.

(*Cyfeithiad.*)

GOFYNODD ymresymwr mawr
Ryw dro i ddynyn gwledig—
"*P'le mae y prawf* fod 'yr Hen Lyfr'
Yn Llyfr ysbrydoledig?"
Ni wyddai 'r gwladwr syml ddim
Am bethau dwfn fel yna;
Ond ar ei galon rhôdd ei law,
A'i ateb ydoedd "YMA."

G. P.

Newyddion Cyfundebol.

Y CYFARFODYDD MISOL.

YNGLYN â Chyfarfod Misol Manchester, a gynnaliwyd Chwefror 25ain, cynnaliwyd cyfarfod cyhoeddus ar ran Undeb yr Ysgolion Sabbothol. Anerchwyd y Cyfarfod gan y Parch. G. Parry, D.D., yn unol â gwahoddiad y Cyfarfod Misol, gan fod Mr. Peter Roberts, Llanelwy, yn analluog i fod yn bresennol. Gwnaed sylwadau gan amryw frodyr eraill. Cynnygiwyd gan Mr. John Davies, Salford, cefnogwyd gan y Parch. Thomas Gray, ac ategwyd gan y Parch. E. Humphreys, Rochdale,—"Ein bod yn llawenhau yn ymweliad Dr. Parry â Manchester, ac yn dymuno datgan ein diolchgarwch iddo am ddyfod yma i egluro amcan Undeb yr Ysgolion Sabbothol; ac yr ydym hefyd yn credu y bydd ei ymweliad â ni yn Manchester yn foddion i gynnyrchu ŷni newydd gyda'r Ysgol Sabbothol, ac y bydd hyn yn ddechreu cyfnod newydd o fewn cylch Cyfarfod Misol Manchester." Pasiwyd y cynnygiad yn unfrydol a gwresog.

Yn Nghyfarfod Misol Arfon, a gynnaliwyd yn Park Hill, Bangor, Chwefror 17eg, treuliwyd cyfarfod y boreu mewn trafodaeth ar yr Ysgol Sabbothol. Adroddwyd am y nifer gan y Parch. R. Humphreys: holl ddeiliaid yr Ysgol Sabbothol yn Arfon yn 20,675, a chyfartaledd y presennoldeb yn 13,356. Caed amryw sylwadau buddiol ynglŷn â'r Adroddiad, a diolchwyd i Mr. Humphreys am ei waith rhagorol. Etholwyd y Parch. J. O. Jones, Llanberis, yn Llywydd y

Pwyllgor am y flwyddyn hon. Dangosai hanes yr Achos yn Park Hill fod yno waith da yn cael ei wneyd gyda llawer o ysbrydiaeth a llwyddiant. Darllenwyd llythyr cyflwyniad y Parch. W. Matthias Griffiths, M.A., Clynnog, o Drefaldwyn Isaf, a rhoddwyd iddo dderbyniad serchog. Darllenwyd llythyr cyflwyniad y Parch. G. Ceidiog Roberts o Orllewin Meirionydd, a rhoddwyd cyffelyb dderbyniad iddo yntau. Hysbyswyd fod T. Williams, Ysw., Gwylfa, yn barod i anrhegu eglwys Penygraig â darn o dir i adeiladu tŷ i'r gweinidog. Penderfynwyd derbyn cynnygiad haelionus Mr. Williams, a dychwelyd iddo ddiolchgarwch gwresocaf y Cyfarfod Misol am ei garedigrwydd.

Yn Nghyfarfod Misol Gorllewin Morganwg, a gynnaliwyd yn Mynyddcynffig, Chwefror 19 a'r 20fed, rhoddwyd adroddiad o'r casgliad at y Genadaeth Dramor, yn yr hwn yr oedd ychwanegiad ar y flwyddyn flaenorol o dros £42. Darllenwyd llythyr oddiwrth y Parch. David Phillips yn cydnabod yn ddiolchgar gydymdeimlad y Cyfarfod Misol âg ef yn ei anhwylder diweddar. Derbyniwyd y newydd ei fod yn gwellhau gyda sirioldeb mawr. Anfonwyd cofion serchocaf y Cyfarfod Misol at y Parch. Edward Matthews, a pharodd yr hysbysiad ei fod yn gwellhau lawenydd mawr i'r holl frawdoliaeth. Canmolwyd yn fawr "Album Williams, Pantycelyn."

Yn Nghyfarfod Misol Sir Frycheiniog, a gynnaliwyd yn Aberhonddu, Chwefror 25 a'r 26ain, caed anerchiad effeithiol ar ran Pwyllgor Jubili y Genadaeth Dramor gan Mr. W. Griffiths, Rock, am yr hwn y diolchwyd yn gynhes. Caed hefyd anerchiad rhagorol gan y Parch. J. M. Jones, Caerdydd, ar ran Pwyllgor Undeb yr Ysgolion Sabbothol. Cyflwynwyd y Parch. T. Williams o Gyfarfod Misol Morganwg, a'r *Professor* E. Williams, M.A., o'r Henaduriaeth, a rhoddwyd derbyniad cynhes i'r ddau. Annogwyd i dderbyn y gyfrol brydferth "Album Williams, Pantycelyn."

Yn Nghyfarfod Misol Môn, a gynnaliwyd yn Llanerchymedd, Chwefror 24 a'r 25ain, cafwyd anerchiad dyddorol gan Dr. Griffiths, y cenadwr, ar ran y Genadaeth Dramor, a diolchwyd iddo am ei ymweliad a'i anerchiad.

Yn Nghyfarfod Misol Sir Fflint, a gynnaliwyd yn Nghaerlleon, Chwefror 24ain, cafwyd anerchiadau rhagorol gan y Parchn. Dr. Hughes a J. Ellis, M.A., ar ran Jubili y Genadaeth Dramor. Diolchwyd yn gynhes i'r ddau ymwelydd am eu hanerchiadau, a gwnaed addewid a threfniadau i ymgynïad arbenig gyda'r achos teilwng hwn.

Yn Nghyfarfod Misol Llundain, a gynnaliwyd yn Jewin Newydd, Chwefror 26ain, dadganwyd cydymdeimlad y frawdoliaeth âg amryw frodyr yn eu gwahanol brofedigaethau. Hysbysodd y Parch. W. Ryle Davies fod Mr. Robert Parry, B.A., o eglwys Holloway, yn ymgeisydd am y weinidogaeth, a bod yr eglwys yn Holloway wedi awdurdodi y swyddogion i ddwyn ei achos i sylw y Cyfarfod Misol. Awdurdodwyd yr ysgrifenydd i drefnu iddo fyned trwy yr eglwysi ar brawf, yn ol y drefn arferol, sef dwy waith i bob lle ar noson yn yr wythnos, neu i'r Ysgol Sul. Hysbyswyd fod y brawd anwyl Mr. J. W. Jones yn analluog i fod yn ein plith o herwydd afiechyd, ond ei fod yn dymuno ei gofio yn garedig at yr holl frawdoliaeth. Penodwyd y Parch. J. E. Davies, M.A., a Mr. John Morgans, Holloway, yn genadon i ymweled â Mr. Jones dros y Cyfarfod Misol, ac i gyflwyno iddo ddadganiad o gydymdeimlad y brodyr âg ef.

Yn Nghyfarfod Misol Lleyn ac Eifionydd, a gynnaliwyd yn Tŷ Mawr, Mawrth 3 a'r 4ydd, cafwyd anerchiad gwresog gan y Parch. T. J. Wheldon, B.A., ar ran y Drysorfa Gynnorthwyol. Diolchwyd am yr anerchiad, ac annogwyd i ymdrech adnewyddol gyda'r Drysorfa y flwyddyn hon.

Yn Nghyfarfod Misol Henaduriaeth Trefaldwyn, a gynnaliwyd yn Drefnewydd, Chwefror 21ain, cafwyd anerchiad grymus gan y Parch. E. Griffiths, Meifod, yn egluro amcanion a chynlluniau Undeb yr Ysgol Sabbothol. Diolchwyd i Mr. Griffiths, ac annogwyd yr ysgolion i gydweithrediad.

MARWOLAETHAU PREGETHWYR.

Y PARCH. DAVID ANTHONY, ABERTAWE.

Bu farw y brawd hwn ddydd Llun, Chwefror 17eg, yn 83 mlwydd oed. Ordeiniwyd ef yn y flwyddyn 1857, a bu yn pregethu am yn agos i driugain mlynedd. Yr oedd ei dad yn bregethwr, Mr. Samuel Anthony, Cydweli. Dechreuodd bregethu yn Abertawe, lle y daeth yn ieuanc, ac y treuliodd ei oes. Yr oedd o ysbryd annibynol, cywir, diragrith. Yr oedd hefyd yn gydymaith dyddan, wedi ei adnabod; er y tybiai dyeithr mai un diserch a digymdeithas oedd. Yr oedd ei bregethau yn bur a sylweddol a'i weinidogaeth yn gymeradwy gan y saint, er nad oedd ganddo ddoniau poblogaidd. Yr oedd yn graff i adnabod cymeriad. Bu yn ddiwyd gyda'i alwedigaeth, ac yn ffyddlawn i wasanaethu crefydd yn ol ei allu, gan gadw cydwybod dda ac ymar-

weddiad diargyhoedd, trwy lawer o brofedigaethau ac am oes faith. Claddwyd ef ddydd Gwener, yr 21ain o Chwefror, yn mynwent capel y Babell, Abertawe. Daeth tyrfa fawr ynghyd, a chafodd gladdedigaeth anrhydeddus. Gweinyddwyd gan y Parchn. W. Williams, Dr. Saunders, ac amryw eraill yn y tŷ, yn y capel, ac wrth y bedd.

Y PARCH. THOMAS ASHFORD, DREFNEWYDD.

Bu farw y gŵr hwn Chwefror 25ain, yn ei bedwar ugain ac unfed flwydd, wedi ei eni yn y flwyddyn 1809 yn y Tŷ coch, Llanllwchaiarn, Swydd Drefaldwyn. Efe oedd yr hynaf ond un o weinidogion ordeiniedig y Methodistiaid Calfinaidd yn Ngogledd Cymru. Dechreuodd bregethu yn mis Hydref, 1828. Ymsefydlodd fel Cenadwr yn Swydd Faesyfed yn y flwyddyn 1837. Ordeiniwyd ef i gyflawn waith y weinidogaeth yn Nghymdeithasfa Abertawe, yn y flwyddyn 1839. Parhaodd i lafurio mewn gwahanol fannau yn Neheudir Cymru, dan nawdd y Genadaeth Gartrefol, hyd y flwyddyn 1862, pryd y dychwelodd i'w sir enedigol, ac ymsefydlodd yn y Bettws. Symudodd yn fuan i'r Drefnewydd.

Yr oedd Mr. Ashford yn ddiammheu yn ŵr duwiol, wedi profi argyhoeddiadau dwysion yn nechreuad ei yrfa grefyddol. Yr oedd yn bregethwr ysgrythyrol, ac yn weddïwr mawr. Yr oedd yn dyoddef ar hyd ei oes oddiwrth ymosodiadau o'r pruddglwyf, a threuliodd flynyddoedd olaf ei oes yn Ngwallgofdŷ Dinbych. Tua thri mis yn ol, yr oedd ysgrifenydd y llinellau hyn yn treulio Sabboth yn Ninbych. Yr oedd y Parch. Thomas Gee yn dygwydd bod gartref y Sabboth hwnw, ac yn pregethu nos Sabboth yn yr *Asylum*. Ar ol y gwasanaeth, adroddai Mr. Gee wrthym hanes yr odfa, a dywedai mai Mr. Ashford oedd yn dechreu yr oedfa iddo, a'i fod wedi myned trwy y gwasanaeth hwnw gyda'r priodoldeb mwyaf, a bod ei weddi yn arbenig yn llawn o sylwedd a theimlad. Yr ydoedd wedi ennill ymddiried a pharch swyddogion y sefydliad i raddau helaeth. Claddwyd ef ddydd Llun, Mawrth 3ydd, yn y Drefnewydd yn y *Cemetery*. Gwasanaethwyd wrth y bedd gan y Parchn. John Jones, Coedway, ac E. Parry, M.A., Drefnewydd.

CYFARFODYDD PREGETHU.

Cynnaliwyd Cyfarfod Pregethu yn Hebron, Abertawe, ar y 23 a'r 24ain o Chwefror, pryd y gwasanaethwyd gan y Parchn. W. E. Prytherch, Goppa, H. W. Thomas, Solva, a W. N. Nicholson (A).

Mawrth 3ydd, cynnaliwyd Cyfarfod Pregethu yn Ystrad Mynach, yr hwn oedd hefyd yn Gyfarfod Sefydlu y Parch. E. N. Llewelyn yn fugail ar yr eglwys yno. Pregethwyd gan y Parchn. J. M. Jones, Caerdydd, a Lewis Jones, Pentre' Ystrad. Yn yr hwyr, cynnaliwyd y Cyfarfod Sefydlu, pan y cymerwyd rhan gan y ddau weinidog uchod, ac amryw o frodyr eraill.

Nodiadau Misol.

ESGOB NEWYDD DURHAM.

Y mae y Prif Weinidog o'r diwedd, ar ol oediad llawer mwy nag arferol, wedi penodi Canon Westcott, Proffeswr Duwinyddiaeth yn Mhrifysgol Caergrawnt, i esgobaeth bwysig Durham. Y mae yn debyg nad oedd yr un dyn yn y deyrnas mwy teilwng o'r dyrchafiad uchel hwn. Nid oedd neb o fewn yr Eglwys Sefydledig yn sefyll yn uwch, ac fe allai neb mor uchel, fel ysgolaig a duwinydd. Yr oedd yn gydlafurwr â'i ragflaenorydd enwog Dr. Lightfoot yn y Brifysgol, yn gyfaill agos iddo, yn un o gyffelyb feddwl a chymhwysderau uchel; rhoddodd y ddau argraff newydd ar waith y Brifysgol, mewn un cyfeiriad o leiaf; a gwnaeth y ddau eu henwau yn uchaf yn Mhrydain, ac yn uchel trwy y byd, ar faes ysgoleigdod Biblaidd. Nid oes neb, dybygem, wedi meistroli *unoliaeth* y Dadguddiad dwyfol yn fwy llwyr na Dr. Westcott, trwy holl yrfa ei ddadblygiad, yn ngoleuni hanes y byd a'r eglwys. Ni welsom neb wedi ysgrifenu yn well ar yr hyn a ellir ei alw yn *Ragluniaeth yr Iachawdwriaeth*. Y mae ei ddysgeidiaeth yn ddofn a thrylwyr. Tybia rhai fod ei ragflaenorydd yn fwy dyledus iddo nag y cydnabyddai weithiau; ond anhawdd genym gredu hyn, os nad ydoedd felly yn anymwybodol. Y mae ei arddull yn dra choeth ac ysgoleigaidd, yr hyn, mewn undeb âg arlliw o gyfriniaeth sydd yn naturiol iddo, a ddyry swyn neillduol ar ei feddyliau, ac ar yr un pryd ambell dro rhyw len deneu iawn drostynt megys i ledneisio y goleuni. Y mae dair blwydd yn hynach na'i rag-

flaenorydd, ac felly o bedair i bum' mlwydd a thriugain oed. Ac fel yntau. bydd yn myned ar ei union o gadair y Proffeswr i un o'r tair prif esgobaeth, ac ar un llam i Dŷ yr Arglwyddi heb aros am ei dro.

LLEDAENIAD ADDYSG Y PRIFYSGOLION.

Y MAE yn hysbys i lïaws o'n darllenwyr fod symudiad pwysig wedi ei gychwyn er's blynyddoedd bellach, i estyn mesur o fanteision addysg Prifysgolion Rhydychain a Chaergrawnt, i luaws o drefydd ac ardaloedd ar hyd a lled y deyrnas. Yr amcan oedd cyfarfod â dosbarth llïosog sydd yn awyddus am gael manteision y ddysgeidiaeth oreu, hyd y mae hyny yn bosibl, ond yn analluog i fyned trwy y cwrs rheolaidd yn y Prifysgolion. Anfonir gwŷr cymhwys i draddodi Darlithiau, sefydlir dosbarthiadau, dygir ymlaen Arholiadau trwy ohebiaeth, a chyfrenir Tystysgrifau yn ol teilyngdod yr efrydwyr. Y mae ein cydwladwr dysgedig, Dr. R. D. Roberts, o Aberystwyth, yn llenwi lle pwysig ac wedi gwneyd gwaith mawr ynglŷn â'r symudiad hwn mewn traddodi Darlithiau yn y trefydd mewn cysylltiad â Phrifysgol Caergrawnt, ac fel Ysgrifenydd y Gymdeithas yn Llundain.

Y mae llwyddiant y symudiad hwn wedi bod yn rhyfeddol mewn amser mor fyr. Ddeng mlynedd yn ol, nid oedd y Gymdeithas yn Llundain ond yn gallu rhoddi y ffigyrau canlynol o'i gwaith:—32 cyfres o Ddarlithiau; 1300 o efrydwyr, a 91 o Dystysgrifau. Y flwyddyn ddiweddaf, rhoddwyd 107 cyfres o Ddarlithiau; rhestrwyd 10,982 o efrydwyr; yr oedd rhif y papyrau wythnosol yn 1882; a'r tystysgrifau yn 1361.

Dydd Sadwrn, Mawrth yr 8fed, traddodwyd y Ddarlith flynyddol yn yr *Egyptian Hall* yn Llundain, gan y Duc ARGYLL. Y testyn oedd—"Cymhwysiad y dull hanesyddol at wyddoniaeth drefniadol." Yr oedd y neuadd fawr yn llawn. Apeliodd y Llywydd, Mr. Goschen, at Gwmnïau cyfoethog Llundain am iddynt wneyd i fyny rhyngddynt swm o ryw fil o bunnau yn flynyddol tuag at gynnorthwyo y Gymdeithas i eangu ei gweithrediadau, ac i wneyd y gwaith yn fwy effeithiol.

Byrnodion Amrywiaethol.

UN o'r pethau pwysicaf a gymerodd le yn ddiweddar oedd y genadwri a anfonodd Ymherawdwr Germany i genedloedd y byd, yn eu gwahodd i Gynnadledd Gyd-genedlaethol i gymeryd i ystyriaeth sefyllfa y dosbarth gweithiol, ac i geisio cytuno ar ryw fesurau cyffredinol i reoleiddio gwaith a chyflogau, ac ammodau llafur yn gyffredinol. Hwn yn sicr ydyw un o'r cwestiynau cymdeithasol pwysicaf a berthyn i'r amser hwn. A rhaid ei wynebu, yn ei anhawsderau neu yn ei ganlyniadau. Dywed Cardinal Manning mai y weithred ymherodrol hon yw y ddoethaf a'r deilyngaf a ddaeth oddiwrth unrhyw benadur yn ein hoes. Y mae y Frenines eisoes wedi dewis pedwar o genadon mewn llawn awdurdod *(plenipotentiaries)*, a phedwar o gynnrychiolwyr o'r deyrnas hon i'r Gynnadledd yn Berlin. Y mae y Gynnadledd bwysig hon eisoes wedi dechreu eistedd.

Ceir newyddion da am boblogrwydd pregethu y Parch. H. C. G. Moule, M.A., Prifathraw *Ridley Hall*, Caergrawnt, a'i ddarlleniadau yn y Testament Groeg i aelodau y Brifysgol. Cymer yn awr y prif dermau athrawiaethol yn destyn efrydiaeth. Pregetha hefyd gyfres o bregethau ar yr Epistol Cyntaf at Timotheus yn Eglwys *Holy Trinity*. Daw mwy o hyd o efrydwyr y Brifysgol i wrando y rhai hyn; ni bydd weithiau le i sefyll. Tra gwerthfawr yw gweled dylanwad cynnyddol gŵr mor efengylaidd ei egwyddorion a'i ysbryd mewn sefydliad mor bwysig.

Y mae y Parch. James Stalker, M.A., Glasgow, awdwr y llyfrau poblogaidd "Bywyd Crist," "Bywyd Paul," a'r *Imago Christi*, wedi cael yr anrhydedd uchel o'i wahodd i draddodi yr *Yale Lectures* (yn America) ar *Bregethu*. Un o'r darlithwyr yn unig sydd wedi bod o'r wlad hon, Dr. Dale, Birmingham. Ac y mae ei Ddarlithiau ef yn rhagorol iawn, ac yn dangos eangder ei ddiwylliad fe allai yn gymaint a dim a ysgrifenodd. Credwn y bydd yr eiddo Mr. Stalker hefyd yn deilwng o'i enwogrwydd.

Y mae Prifysgol Aberdeen wedi anrhydeddu y Parch. W. Robertson Nicoll, M.A., golygydd yr *Expositor* a'r *British Weekly*, â'r gradd o LL.D. Credwn fod Dr. Nicoll yn deilwng iawn o'r anrhydedd. Nid ar faes duwinyddiaeth ac ysgoleigdod Biblaidd yn unig y mae wedi profi ei hun yn ddysgedig, ond mewn llenyddiaeth hefyd. Y mae wedi hynodi ei hun yn eangder ei wybodaeth a phurdeb ei chwaeth lenyddol. Credwn ei fod yn meddu y peth hynod brin hwnw—y wir *reddf* lenyddol.

Dywedir mai prif gampwaith y byd mewn peirianyddiaeth ydyw y bont anferth sydd wedi ei gorphen a'i hagor dros y *Forth*. Y mae ei hyd rywle yn agos i filldir a hanner, a lled ei *span* yn 1700 o droedfeddi. Y

mae y *Victoria* yn Montreal, a'r *Tay* yn Scotland yn hŵy; ond hi yw y fwyaf yn y byd o ran lled ei bwa, a'r ddwy arall y nesaf ati. Bydd y *trains* yn rhedeg hyddi 160 o droedfeddi yn uwch na'r llanw uchaf. Gwneir hi i fyny yn gwbl o ddur (dros 50,000 o dunnelli). Defnyddiwyd yn y sylfeini a'r *piers*—21,000 tunnell o *cement*, 707,000 troedfeddi *cubic* o *granite*, 117,000 o droedfeddi *cubic* o waith maen a *concrete*, ac un filiwn o droedfeddi *cubic* o goed at y gwaith tra yn y gwneuthuriad yn unig. Y mae yr arwynebedd o'r bont ag sydd yn gofyn cael ei gadw wedi ei baentio yn ugain acer; y *rivets* yn wyth miliwn (y rhai pe eu gosodid ar eu hyd wrth eu gilydd a wnaent 380 o filldiroedd o hyd); a phe gosodid y *plates* wrth eu gilydd gwnaent bedair milldir a deugain o hyd. Ei phrif hynodrwydd ydyw y darnau mawrion bwaog a elwir *cantilevers*, y rhai a ddefnyddir ar raddeg fawr yn y gwaith hwn am y tro cyntaf. Y mae wedi costio dros *dair miliwn* o bunnau.

Bwrdd y Golygydd.

Y "DRYSORFA" A'R BLAENOR.

BARCHEDIG OLYGYDD,—Mewn Cyfarfod Misol a gynnaliwyd yn Ngorllewin Meirionydd, amryw fisoedd yn ol, yn nghyfarfod y Blaenoriaid galwodd un blaenor, yr hwn sydd yn henafgwr parchus a dylanwadol, sylw ei gyd-swyddogion at y DRYSORFA. Dywedai ef ei fod yn ei derbyn er ys dros ddeugain mlynedd. "Ac," meddai, "dywedaf i chwi, byddaf mor falch o'i chael bob mis a phe bawn yn cael llythyr oddiwrth M—— acw," gan gyfeirio at ei barchus briod. "Byddaf," meddai drachefn, "yn mwynhau yr erthyglau a geir ynddi, Gwersi yr Ysgol Sabbothol, a Chofnodiadau ein Cymanfäoedd a'n Cyfarfodydd Misol, a'n Cenadaethau, ynghyd a Bywgraffiadau." Ac, meddai eilwaith, "Os ydym fel swyddogion am fod yn *loyal*—teyrngarol i'r Cyfundeb hyd ag y mae yn bosibl, na fydded yr un blaenor o fewn cylch Cyfarfod Misol Gorllewin Meirionydd heb fod yn ei derbyn."

Deallwyf fod ei sylwadau wedi cael argraff ar rai swyddogion oedd yn ei wrando, fel ag y maent yn penderfynu ei derbyn y flwyddyn nesaf.

"Haiarn a hoga haiarn, felly gŵr wyneb ei gyfaill."

TIMOTHEUS.

Einion House, Y Friog.

[Da iawn. Gwneler yr un peth ymhob Cyfarfod Misol trwy y Gogledd a'r Deheudir.—GOL.]

ENW Y CYFUNDEB.

At Olygydd y DRYSORFA.

BARCHEDIG SYR,—Dymunaf arnoch fod mor garedig a rhoddi lle yn un o'ch rhifynau nesaf i'r ychydig linellau canlynol. Er eu bod yn yr "iaith fain," hwyrach y bydd llawer Cymro yn dda ganddo wybod am danynt, yn wyneb y son sydd am undeb â'r Presbyteriaid, a'r duedd sydd yn rhai o'n heglwysi Seisonig i wadu y Cyfundeb y maent yn perthyn iddo, ac i wneyd rhyw ddynwarediad gwan o Gyfundebau eraill.—Yr eiddoch,

HEN FETHODIST.

From page 15 of the Constitutional deed of the Welsh Calvinistic Methodist Connexion dated August 10th, 1826. Wilks, Solicitor, Finsbury Place, London.

"And whereas divers sums of money may hereafter be given and bequeathed to or for the purposes of the said Welch Calvinistic Methodist Connexion, and divers estates and other properties may also hereafter be conveyed and assured to and for the purposes of the said Connexion."

At page 18 of the same, we read:—"Now these presents witness that for accomplishing the purposes aforesaid, We do hereby agree jointly and severally—Firstly, that the aforesaid associated Societies in South Wales and North Wales and certain parts of England have been and shall continue to be for ever considered as members of one general connexion without any distinction whatsoever, altogether forming one entire body, and that the name and designation of the said associated Societies in South Wales and North Wales and certain parts of England hath been and shall for ever hereafter be 'the Welsh Calvinistic Methodist Connexion.'"

The following is the last paragraph of the deed which is on page 46:—"In trust for the Welsh Calvinistic Methodist Connexion according to the Constitution thereof set forth in a deed dated 10th Aug. 1826 and enrolled in His Majesty's High Court of Chancery the 8th day of December 1826.

JOHN MITFORD."

Bywgraffiaeth.

MR. JOHN EDWARDS, VICTORIA VILLA, FFLINT.

MAWRTH 5, 1889, bu farw y brawd ffyddlawn a gofalus hwn yn 75 mlwydd oed, tua 40 o ba rai a dreuliodd yn nhref Fflint. Aeth yno i gychwyn i *Provision Stores* perthynol i waith glo, y pryd hwnw yn llanc gwladaidd a disylw, ond gweithiodd

ei ffordd yn fuan i fod yn *foreman* ar rai oedd yno o'i flaen, a hynach mewn dyddiau; ond tra eto yn ieuanc tarawyd ef â'r *apoplexy*, a chafodd gystudd maith a thrwm, ac aeth yn isel iawn ei ysbryd, gan ei fod o herwydd diffrwythdra un ystlys yn analluog i gyflawni unrhyw orchwyl, a bu o hyny allan yn gloff o'i glun, ond yn ol pob arwyddion cafodd y fendith fel Jacob gynt. Wedi graddau o adferiad iechyd, gan na allai fod ond o ychydig wasanaeth i eraill, penderfynodd yn ngwyneb llawer o anfantesion ddechreu *business Grocer* ei hunan, a thrwy ddyfal-barhad a chynnildeb, gweithiodd ei ffordd yn ddystaw nes dyfod yn un o'r masnachwyr mwyaf llwyddiannus a pharchus yn y dref. Rhoddai ei gefnogaeth i bob achos da, ond byddai yn benderfynol yn erbyn pob llygredigaeth ac anfoesoldeb. Er esiampl cyfranodd £100 at adeiladu y capel, ond ofer fyddai i neb, os na fyddai ei achos yn deilwng, droi at Mr. Edwards i ymofyn cymhorth. Ymunodd â chrefydd yn lled ieuanc, ac er na chafodd ond ychydig o fanteision addysg daeth yn ysgolaig gwych, yn ddarllenwr da, gan osod allan y synwyr fel y deallent wrth ddarllen. Bu yn ffyddlawn iawn gyda chrefydd, a gwasanaethodd swydd diacon yn dda. Ystyrid ef gan bawb yn ŵr boneddigaidd, cywir, manwl a diduedd. Nid oedd yn brysur â'i eiriau, ond pan siaradai byddai ei sylwadau yn ffrwyth ystyriaeth a barn, bob amser yn ddoeth ac i'r pwrpas, felly yn ddyogel iawn gyda phob symudiad. Yr oedd iddo ei le ei hunan yn ngwinllan ei Arglwydd, yr hwn a lanwai yn anrhydeddus hyd o fewn ychydig ddyddiau i'w farwolaeth.

MR. JOHN THOMAS, BANK HOUSE, FFLINT.

Mehefin 28, 1889, sef ymhen ryw dri mis ar ol marw Mr. J. Edwards, cafodd achos yr Arglwydd yn Fflint dristwch ar dristwch trwy farwolaeth Mr. John Thomas, Bank House, Fflint, a Hartington Street, Liverpool, gan i'r Arglwydd felly symud dwy o'r prif golofnau yn ei deyrnas, a hyny yn ddisymwth. Ni chafodd yr un o honynt ond ychydig ddyddiau o gystudd. Nid oedd Mr. Thomas ond 44 mlwydd oed. Bu yn un o'r diaconiaid mwyaf defnyddiol gartref, ac o fewn cylch y Cyfarfod Misol. Yr oeddym yn dysgwyl llawer oddiwrtho, gan ei fod wedi ennill iddo ei hun radd dda, ac yn meddu ar lawer o yni, ac yn llawn o ysbryd gwaith; byddai yn wastad yn cynllunio pa fodd i hwylio y gwaith ymlaen. Yr oedd o duedd grefyddol o'i febyd; clywsom am dano pan yn fachgen gartref yn myn'd ar negeseuau at ei gymydogion, y byddent yn dangos caredigrwydd iddo, a hyny yn aml er mwyn ei weled yn gosod ei law ar ei wyneb i ofyn bendith ar y trugareddau cyn dechreu eu mwynhau.

Brodor ydoedd o'r Babell, ger Treffynnon. Gan ei fod o duedd anturiaethus, a llawn o ysbryd masnachol, symudodd i Fflint yn llanc dyeithr ychydig dros 20 oed, heb ddim manteision; er hyny llwyddodd yn rhyfeddol, nes dyfod yn un o'r dynion mwyaf pwysig yn y dref a'r gymydogaeth. Yr oedd yn neilldiol o garedig a haelionus, o gaulyniad daeth yn adnabyddus gan lïaws mawr, yn enwedig gweithwyr a phobl dlodion. Nid oedd yn cael mwy o bleser gyda dim na phan yn dadleu o blaid y tlawd ar y *Board of Guardians*, lle y bu yn gefn da iddynt, a llawer gwaith y gwnaeth i galon y wraig weddw lawenychu. Yr oedd bob amser yn siriol pan yr apelid ato am gymhorth; byddai ei glust, a'i galon, a'i logell, yn cynnorthwyo, a'r sylw cyffredin ar ol ei gladdu oedd, "Y fath golled i'r tlawd!"

Yr oedd yn un o'r rhai blaenaf gyda phob symudiad rhyddfrydol a chrefyddol, ac ymladdodd frwydrau caled yn ffuddugoliaethus yn etholiadau y cynghor trefol *(Town Council)*, o ba un y bu yn aelod defnyddiol am amryw flynyddoedd, a byddai bob amser yn bur i'w egwyddorion. Yr oedd yn hynod fel cynlluniwr, ac nis gwelsom neb tebyg iddo ar fedru chwalu cynlluniau, a hyny bob amser heb archolli teimladau; ond yn ei ddull gwreiddiol ei hunan yn peri i bawb chwerthin a mwynhau y *drama*, chwedl yntau, nes cael y cyfan i derfyniad hapus. Yr oedd yn naturiol o duedd serchog a hynaws, a chrefyddol iawn ei ysbryd, wedi cyfranogi yn helaeth o'r ddoethineb a'i gwnaeth yn bur, heddychlawn, boneddigaidd, hawdd ei drin, llawn trugaredd a ffrwythau da, diduedd a diragrith. Ei eiriau diweddaf oeddynt, "Gwneler dy ewyllys megys yn y nef, felly ar y ddaear hefyd. Amen." Yr oedd ei gladdedigaeth yn un o'r rhai mwyaf poblogaidd a welwyd yn y dref. Ymgynnullodd cannoedd i'r capel yn gyntaf, lle y cafwyd sylwadau priodol am ein hanwyl frawd, gan y Parchedigion T. M. Jones, Bagillt; J. Pugh, B.A., Seaforth; J. P. Davies, M.A., Caerlleon; Robert Owen, Wyddgrug; H. Barrow Williams, Llandudno; H. Roberts, Llanerchymor; O. Matthias, Fflint; a'r llywydd, y Parch. Josiah Jones; yna aed yn orymdaith at y Bank House, lle y gweinyddwyd gan y Parch. R. Jones, Golftyn; ac wrth y bedd gan y Parchn. H. Barrow Williams a D. B. Hughes (A).

Lloffion.

PAROTOAD ERBYN MARW

Pan y gorweddwch i lawr yn y nos, tawelwch eich ysbryd fel pe na byddech i ddeffro byd oni byddo heb nefoedd. A phan ddeffrowch yn y boreu, ystyriwch y dydd newydd fel eich olaf, a byddwch fyw yn ol hyny. Yn ddiau y mae y nos hono yn dyfod na welwch yr un boreu ar

ei hol, neu y boreu hwnw na welwch yr un nos ar ei hol, ond pa un o'ch boreuau a'ch nosweithiau a fydd hwnw nis gwyddoch. Gadewch i fantell mwynhad daearol hongian yn llac o'ch cwmpas, fel y galloch ei diosg yn rhwydd pan y daw angeu i'ch cludo i fyd arall. Pan y mae yr ŷd yn llacio yn y ddaear, y mae yn barod i'r cryman; pan y mae y ffrwyth yn addfed, syrthia yn rhwydd oddiwrth y pren. Felly, pan y mae calon y Cristion wedi ei diddyfnu yn wirioneddol oddiwrth y byd, y mae yn barod i farw, a bydd marw o gymaint a hyny yn haws iddo. Y mae calon wedi ei dattod oddiwrth y byd yn un nefol, a dyna y pryd yr ydym yn barod i'r nefoedd pan y mae ein calon yno o'n blaen.—BURTON.

Y DUC YN CERYDDU GWEINIDOG.

GOFYNODD y Duc Wellington unwaith i un o weinidogion Eglwys Loegr—"Pa fodd yr ydych yn myned ymlaen gyda lledaeniad yr Efengyl mewn gwledydd tramor. A oes rhyw siawns i'r Hindwaid ddyfod yn Gristionogion?" Atebodd yr offeiriad—"O! nac oes. Nid wyf fi yn gweled fod dim yn cael ei wneyd yno. Ni welaf fi yr un sail i ddysgwyl i ddim gwaith o'r fath fod byth yn llwyddiannus." "Wel," meddai y Duc, "beth sydd a wneloch chwi â hyny? Beth yw eich *marching orders?* Ai nid dyma ydynt, 'Ewch i'r holl fyd a phregethwch yr Efengyl i bob creadur?'"

GEIRIAU Y DOETHION.

Y RHAI parotaf i farw ydynt y rhai cymhwysaf i fyw.

Nid da gormod o ddadleu. Yr hwn sydd yn hoff o ddadleu a aiff yn fuan na chaiff neb i ddadleu âg ef.

Cronicl Cenadol.

Llydaw.

RHAN O LYTHYR ODDIWRTH MR. EVAN JONES.

CHWEFROR y 24ain, ysgrifena Mr. Evan Jones, "Mae yn ddiau genyf y bydd yn llawenydd genych glywed fy mod er ys agos i ddau fis yn ol wedi cychwyn math o *Ysgol Sabbothol*, yn ychwanegol at yr un oedd genym yn Pen ar pont. Cynnelir hon mewn cŵr arall o'r dref, yn Pontguern, ar nos Iau, ac y mae yn bresennol ar gyfartaledd ugain o fechgyn o wyth oed i fyny. Maes ein llafur yma eto yw Efengyl Luc, ac y mae y plant yn ymddangos yn awyddus am gyrhaedd gwybodaeth, ac yn amlwg wrth eu bodd. Y mae hyn yn gwneyd nifer ein cyfarfodydd cyhoeddus yn chwech bob wythnos. Ychydig yw nifer y gwrandawyr yn Pen-ar-pont ar hyn o bryd, a hwyrach y deil felly am ychydig wythnos au, hyd nes i'r plant dderbyn eu cymundeb. Wedi hyny, yn ol yr arfer, cawn y cynnulliad arferol. Ond gwneir i fyny i raddau helaeth am y diffyg lliosogrwydd gan gynhesrwydd y cyfarfodydd, a zel ac awydd ychwanegol y rhai a'u mynychant.

Teimlo yn bur obeithiol yr ydym gyda golwg ar yr achos da yn y wlad hon, a dysgwyl am i'r wawr dori. Hyderwn yn gryf wrth yr arwyddion ydym yn weled nad ydyw y boreu braf ymhell. Credaf fod y traethodau a wasgerir yn egnïol a helaeth genym y dyddiau hyn yn symud llawer o ragfarn y bobl, ac yn parotoi eu meddyliau i dderbyn y gwirionedd yn hwyr neu hwyrach. Y maent wedi eu hysgrifenu yn hynod o ddeniadol, ac yn cynnwys hanfod yr efengyl."

DOSBARTH KHADSAWPHRAH.

RHANAU O LYTHYR ODDIWRTH Y PARCH. C. L. STEPHENS.

Nongrymai, Chwefror 3ydd, 1890.

"PYTHEFNOS i ddydd Gwener diweddaf cyrhaeddasom Mawphlang ar ol ein seibiant o chwech wythnos, a thrannoeth daethom i Nongrymai. Treuliasom dair wythnos yn Calcutta, un wythnos yn Sylhet, a dwy yn teithio. Bydd yn dda genych ddeall i ni fwynhau ein hymweliad â Calcutta yn fawr, er ein bod yr un mor foddhaus o gael dychwelyd i'r Bryniau, ac at ein gwaith. Credaf y bydd i'r daith fod o les mawr i ni ein dau. Ar ol naw mlynedd o neilluedd yr oedd dychwelyd i fywyd tref yn adnewyddiad ysbryd, er i fesur yn ddyryslyd.

Wrth ddyfod trwy Calcutta i fyny yma ar ein dyfodiad i India, yr oeddym yn cael ein taro yn gryf gan y gwahaniaeth rhwng bywyd y lle a'r eiddo Liverpool a Llundain, ond yn awr y tebygrwydd mawr oedd yn ein taro. Yr oedd Mr. a Mrs. Macdonald yn nodedig o garedig, a chawsom y pleser o gyfarfod nid yn unig â llawer o genadon Calcutta, ond â rhai eraill o wahanol ranau o India. Teimlem braidd yn wladaidd ar y cyntaf, ond symudwyd byn ymaith yn fuan trwy ddylanwad cyfeillach garedig. Pleser ychwanegol i mi ydoedd gallu cymeryd rhan mewn gwaith cenadol achlysurol yn Calcutta, a phregethu yn yr Eglwys frodorol, ac yn yr awyr agored yn Beadon Square. Un diwrnod gyda'r nos cymerodd naw o genadon ran yn y gwasanaeth yn Beadon Square, lle y rhaid fod tua phum' cant o frodorion—dynion o'r dosbarth goreu,—yn gwrando ar bregethu yr efengyl yn Saesoneg. Clywsom *Lord* Radstock yn anerch cynnulliad mawr o frodorion mewn Neuadd gyhoeddus, a'r *Canon* Wilberforce yn Neuadd y Dref, lle yr oedd o ddwy i dair mil yn gwrando ei ddarlith ar Ddirwest. Brodorion oedd rhan fawr o'r gwrandäwyr. Mae yn sicr fod gwaith cenadol yn cyffwrdd â bywyd India ymhob man, a phwy all ddyweyd pa beth fydd y canlyniad ymhen ychydig ddegau o flynyddoedd?

Nid ysgrifenaf yma am gyfarfodydd Cynnadledd fawr yr Ysgol Sabbothol, nac am gyfarfodydd y Cynghrair Henaduriaethol. Addawyd i ni adroddiadau argraffedig

cyflawn, a phan y deuant, anfonwn gopi i chwi.

Yr oedd ein hwythnos yn Sylhet hefyd yn dra hapus. Dygwyddai fod yr wythnos weddïau ar ddechreu y flwyddyn, a buom yn y cyfarfodydd bob dydd. Yr oedd Miss Williams wedi cyrhaedd ychydig o'n blaen, ac yn aros gyda Mrs. Kennedy, yr hon a ymddangosai yn cymeryd dyddordeb mawr ynddi. Yr oeddid yn teimlo rhyw gymaint o anhawsder gyda golwg ar y lle i Miss Williams letŷa ar ol i Mr. a Mrs. Kennedy ymadael, ond deallaf yn awr trwy lythyr oddiwrth Mr. Pengwern Jones, fod tŷ bychan a wna y tro am dymmor yn cael ei adeiladu iddi.

Gweinyddwyd Swper yr Arglwydd yma (Nongrymai) ddoe, pan yr oedd tua 65 o aelodau yn cymuno, ac yr oedd o 170 i 180 yn bresennol, ond anfonir manylion am yr achos yma ac yn y Dosbarth yn fuan yn yr adroddiad blynyddol."

DOSBARTH CHERRA.

Llythyr oddiwrth Mrs. Roberts.

GWAITH YMYSG Y MERCHED YN NONGSAWLIA.

Chwefror 19, 1890.

Yr wyf yn awyddus i anfon i chwi ychydig eiriau ynghylch y gwaith ymhlith y menywod yma, dros ystod y misoedd a aethant heibio. Ond ymlaenaf, dymunaf ddadgan trwoch chwi, ein diolchgarwch d'dwyll i'r cyfeillion caredig yn Nghorr's am eu rhoddion i'r Genadaeth yma, ac i'r cyfeillion yn Bethesda am eu caredigrwydd yn anfon *cushion* i bulpud y capel yma.

Mae y gwaith o hyfforddi y Cristionogion ac ymgeiswyr wedi bod yn myned ymlaen yma, dros ystod y flwyddyn ddiweddaf gyda chysondeb mawr. Mae genym "*Ysgol Sabbothol*" ar nos Wener, i'r hon y mae nifer da yn arfer dyfod. Mae yn gynnwysedig o bump o ddosbarthiadau i ferched. Dymunol iawn gweled menywod fydd wedi bod gyda'u llafurwaith *(working as labourers)* yn ystod y dydd, menywod sydd wedi dyfod i Nongsawlia er mwyn yr Efengyl, yn tacluso eu hunain erbyn yr hwyr er mwyn dyfod i'r dosbarthiadau hyn, ac yn ymddangos fel yn derbyn llawer o fwynhâd oddiwrthynt.

Mae ein Hysgol Sabbothol wedi cynnyddu yn fawr yn ddiweddar, ac yr ydym wedi gorfod cael dosbarthiadau ychwanegol. Cydsyniodd dwy neu dair o enethod ieuainc, yn dra ewyllysgar, i fod yn athrawesau ar y dosbeirth hyn, y rhai ydynt ddosbeirth i blant. Mae genyf achos i deimlo yn dra chalonog gyda golwg ar fy nosbarth fy hunan. Gwrandawant yn astud, gyda phob ymddangosiad o ddyddordeb; a'r hyn sydd yn well, maent yn cofio y wers yn dda y Sabboth dilynol. Cyn dechreu y wers newydd byddaf yn eu holi am yr hen un, a da genyf weled eu bod yn rhoddi atebion pur gywir. Gwrsgedd mewn oed, sydd heb fod ond er's ychydig amser yn yr eglwys, sydd yn y dosbarth hwn, ac ychydig o rai heb fod yn Gristionogion ond yn unig yn teimlo dyddordeb yn y grefydd Gristionogol. Mae dros ddeg ar hugain yn perthyn i'r dosbarth hwn; tua thri ar hugain yw cyfartaledd y presennoldeb.

Un cymysg yw fy nosbarth nos Sabboth yn awr; mae rhai o'r aelodau yn Gristionogion, ac ychydig nifer ar brawf.

Byddwn yn siarad ychydig ynghylch cyfarfodydd y dydd; pa beth a gofir genym a pha faeth a gawsom trwy foddion gras. Yna byddwn yn ymddyddan am yr Arglwydd Iesu Grist a'i fywyd rhyfedd yma ar y ddaear. Yr oeddym yn ddiweddar yn son am y Temtiad a sylwodd un o honynt, "Os oedd Satan mor hyf a themtio Mab Duw yn y dull yna, nid yw fawr o ryfedd ei fod yn ein blino ni." Yna aeth ymlaen i ddyweyd ei fod yn ei blino hi yn fawr ar ol iddi roddi i fyny aberthu i'r demoniaid. "Ac ar y diwrnod yr oeddym yn parotoi i ddyfod i Nongsawlia, cymerwyd un o'r plant yn sal iawn yn ddisymwth, ac yr oedd ar y cymydogion ofn mawr mai marw a wnai y plentyn, a mynent i mi aberthu. 'A adewch chwi i'r plentyn farw,' meddent, 'onid ydych yn gweled y dialedd?' Ond yr oeddwn yn benderfynol i ddyfod i Nongsawlia a dywedais, 'Tydi, Satan, wyt yn ceisio fy nychrynu, nid wyt ond *creadur* fel finnau. Yr wyf yn gadael fy mhlentyn yn llaw Duw, pa un bynag ai i fyw ai i farw, fel yr ewyllysio Efe.' Ac yn wir ymhen ychydig daeth yr eueth ati ei hun." Dywedai yr un wraig mor hapus y teimlai ar ol dyfod i Nongsawlia: "Yn y pentref teimlwn o hyd fel yn byw ar ymyl dibyn, ond yn awr yr wyf yn teimlo fel ar wastadedd eang, mewn rhyddid a dyogelwch." Derbyniwyd hi a'i phedwar plentyn i'r eglwys bythefnos yn ol. Nid yw yn deall llawer eto, ond y mae yn bur ddiwyd yn astudio ei Thestament Khasi. Adroddai gwraig arall, Ka Kymi U Bidon, yr hon sydd wedi bod yn yr eglwys er ys rhai misoedd, fel yr oedd wedi cael ei themtio: "Pan y lladratawyd y 500 *rupees* hyny oddiarnaf mor fuan wedi i mi ddyfod yn Gristion, dywedai fy nghyfeillion i gyd mai baru y demoniaid arnaf ydoedd, a dywedai Satan wrthyf y byddwn yn awr yn dlawd ac heb fwyd, ac am amser yr oeddwn mewn cryn drallod. Ond dywedais wrtho am fyned i ffwrdd oddiwrthyf; os oeddwn wedi colli cyfoeth daearol fy mod wedi ennill cyfoeth yn y nefoedd, ac fod genyf Waredwr a'm nerthai i beidio byth mwyach ag ymostwng iddo ef." Dywedai hefyd ei bod pan yn son ac yn meddwl am ei Gwaredwr a'i gariad rhyfedd, yn ei garu yn wir ac yn dymuno ei garu yn fwy o hyd.

Mae y *Bible-women* wrthi ar hyd y flwyddyn yn ymweled â thai y bobl, yn darllen i'r merched, ac yn dysgu iddynt ddarllen. Credaf yn ddiammheuol fod eu gwaith yn cael ei fendithio yn fawr. Mae rhai yn y pentref sydd wedi penderfynu cynnyg eu hunain i'r eglwys, a ddygwyd i'r agwedd meddwl yma, a siarad yn ddynol,

trwy hyfforddiant y gwragedd hyn; ac heblaw y rhai hyny mae lliaws mawr wedi cael clywed yr "Hen, hen Hanes," ac ydynt felly yn gwybod am Waredwr parod ac abl i gadw. Yn ystod y misoedd diweddaf yr wyf wedi bod yn mynedd lawer gwaith gydag un o'r *Bible-women* i'r pentref, a boddheid fi yn fawr wrth weled fod ei dull o ddysgu yn syml ac i'r pwynt. Cymerem bedwar neu bump o dai bob dydd, gan aros tuag awr ymhob tŷ. Byddid yn cael cyfle i siarad bob dydd gyda nifer yn amrywio o naw i ddeunaw. Aethum i un tŷ lle y cawsom wraig oedranus yn eistedd ei hunan; yr oedd yn dda ganddi ein gweled. Yn ystod yr ymddyddan dywedais fod yr Iesu wedi marw yn ein lle. "Pa beth," meddai yr hen wraig, "beth a ddywedasoch, a ddarfu iddo farw *yn ein lle ni*, yn ein lle ni?" Ail-adroddasom y geiriau. "Mil o ddiolch iddo!" meddai yr hen Bagan, yr hon na chlywsai erioed o'r blaen am y fath gariad anhunangar, hunan-anghofus. Yr oedd wedi cael ei chymeryd i fyny gan y geiriau, a thra yr arosasom yno dywedai drachefn a thrachefn, "Ac yr ydych yn dyweyd iddo farw *yn ein lle?*" Pan oeddym yn ymadael, gofynai i ni ddyfod eto i'w gweled ac i siarad â hi am y Bibl. Mewn tŷ arall cawsom wraig yn ewyllysgar iawn i wrando ar ddarlleniad y Gair, ac yn barod iawn i addef fod y Gair yn *dda iawn*, ond o herwydd llawer o achosion nid oedd yn medru ufuddhau iddo. Pa fodd bynag perswadiwyd hi i brynu y llyfr cyntaf yn Khasi, ac i geisio dysgu darllen. Y dydd o'r blaen, pan ymwelais â hi, dywedai, "Pan y byddaf yn gwrando geiriau y Llyfr yn cael ei ddarllen gan y *Bible-woman* (yr hon sydd yn myned i'w thŷ yn fynych), byddaf yn teimlo mai oddiwrth Dduw yn wir y maent, ac y rhaid i mi ufuddhau iddynt deued a ddelo; ond wedi iddi hi fy ngadael ac i'm cyfeillion a'm cymydogion ddyfod i siarad â mi am eu crefydd eu hunain, bydd yr argraff yn diflanu, a byddaf yn cydio gafael wed'yn yn fy hen grefydd. Mae arnaf eisieu clywed y geiriau newydd yma yn aml iawn, oblegid yn wir y maent yn dda."

Rhydd Mrs. Roberts hanes am amryw eraill y bydd yn ymweled â hwy, ac ychwanega, "Nid oes gan y bobl hyn syniad am bechod. A fydd i'r rhai fydd yn cymeryd rhan yn y cyfarfodydd gweddïau cenadol gartref wneyd erfyniad neilluol ar i Dduw gyflawni addewid ei Fab, ac yn raslawn anfon yr Ysbryd ymysg y bobl hyn i'w hargyhoeddi o bechod. Dichon ei fod yn dysgwyl i hyn gael ei ofyn ganddo." Dadgana Mrs. Roberts ei gofid o herwydd fod Mr. a Mrs. Jerman Jones yn gorfod ymadael â'r maes, "er nad ond am amser, ni a obeithiwn. Mae ef wedi gweithio yma â'i holl egni dros ei Arglwydd, ac y mae ei lafur wedi cael ei fendithio yn fawr. Mae Mrs. Jones hefyd wedi gwneyd llawer iawn o ddaioni gydag ysgol y genethod yn Shillong, ac wedi cymeryd llawer o ddyddordeb mewn amryw ffyrdd yn ngwaith yr Arglwydd yma."

DYCHWELIAD Y PARCH. T. JERMAN JONES.

Bydd yn ddrwg gan ein darllenwyr ddeall fod y Parch. T. Jerman Jones yn gorfod dychwelyd am dymmor o herwydd gwaeledd ei iechyd. Yr ydym wedi bod yn derbyn hysbysrwydd er ys yn agos i ddwy flynedd bellach fod Mr. Jones yn cael ymosodiadau o afiechyd oedd yn peri iddo deimlo ar brydiau yn lled wanaidd. Dymunwyd arno arbed mwy arno ei hunan, a chynnygiodd y Cyfeisteddfod iddo gael cynnorthwy gyda'r gwaith mawr oedd ganddo fel Trysorydd y Genadaeth yn India, yn ychwanegol at ei lafur gyda'r Dosbarth ëang oedd dan ei ofal. Yn mis Tachwedd diweddaf ysgrifenai fod Dr. Campbell, meddyg y Llywodraeth yn Shillong, yn ei annog i gymeryd ychydig seibiant a newidiad awyr, ond dysgwyliai ef y byddai, erbyn Ionawr neu Chwefror, wedi iddo gael ychydig fantais oddiwrth y tymmor sych ac oer, yn dyfod i deimlo fel arferol. Ond y mae yn ymddangos na chafodd yr hin yr effaith a obeithiai, ac y mae y meddyg wedi gorchymyn iddo ddychwelyd adref ar unwaith, gan obeithio y gall taith ar y môr, a newidiad awyr, gyda gorphwys, oud iddo eu cymeryd ar unwaith, fod yn foddion i arbed ei fywyd ac estyn ei ddyddiau a'i ddefnyddioldeb am flynyddoedd. Yn yr olwg ar ddychweliad Mr. Jones, ysgrifena y Parch. J. Roberts,—"Y mae fy nghyfaill a'm cydweithiwr am faith flynyddoedd—y Parch. T. Jerman Jones, yn gorfod dychwelyd adref, wedi llwyr dori i lawr. Y mae ei ymadawiad yn peri i mi brudd-der ysbryd, a mynych y byddaf yn bur ddigalon. Yr wyf yn gobeithio fod iddo flynyddoedd eto i ddyfod i Khasia i bregethu Iesu Grist yn Geidwad i bechaduriaid. Nid llawer o feusydd cenadol sydd wedi eu bendithio â dynion fel efe. Gorphwysed, a gofaled pawb am adael iddo orphwys, fel y dychwelo ei nerth a'i iechyd, oblegid y mae yn anhawdd gwybod pa fodd i wneyd hebddo yn Khasia yn awr."

JIWBILI Y GENADAETH DRAMOR.

Ar y dydd olaf o Ionawr, yn y flwyddyn 1840, yn Nghapel Rose Place, Liverpool, y daethpwyd gyntaf i benderfyniad ffurfiol i sefydlu Cenadaeth Dramor cysylltiedig â'r Methodistiaid Calfinaidd. Yn y mis Tachwedd dilynol y cychwynodd y Cenadwr cyntaf a'i wraig i'r India, ac ar yr 22ain o Fehefin yn y flwyddyn ganlynol y cyrhaeddasant Fryniau Khasia. Mae ein Cenadaeth, felly, yn bur agos i hanner can' mlwydd oed. Yn ystod y tymmor maith hwn aeth trwy lawer o amgylchiadau sydd yn llawn dyddordeb,—er fod prudd-der a chwithdod yn gysylltiedig â rhai o honynt; bu yn offerynol i dynu allan haelioni a gweithgarwch lliaws mawr o Gristionogion yn y wlad hon, ac i ddwyn iachawdwriaeth

yn gystal a chysuron tymmorol, i filoedd yn yr India. Mae amddiffyn yr Arglwydd wedi bod yn amlwg drosti, ac y mae ei llwyddiant wedi bod yn fawr a diammheuol.

Dechreuwyd y gwaith yn ffyddiog gan ein tadau, er nad heb ryw gymaint o betrusder a phryder. Buwyd yn hir yn llafurio yn ngwyneb anfanteision mawrion. Ni bu nifer ein Cenadon erioed yn lliosog, ac ar rai adegau buom heb fod genym fel Cyfundeb ond un dyn yn ein cynnrychioli yn India, ac un arall yn Llydaw. Ond yn raddol gwelwyd arwyddion llwyddiant; daeth rhai o'r Khasiaid ymlaen i wneuthur proffes o'r Efengyl; ychwanegwyd nifer y dysgyblion; sefydlwyd ysgol ar ol ysgol, ac eglwys ar ol eglwys, fel, erbyn heddyw, y mae genym dros gant a deg ar hugain o ysgolion dyddiol, tua thriugain o eglwysi, dros bum' mil o aelodau, ac y mae nifer y rhai sydd wedi ymwrthod â Phaganiaeth, ac yn cael eu rhestru ymysg y Cristionogion, yn bur agos i naw mil. "O'r Arglwydd y daeth hyn, a rhyfedd yw yn ein golwg ni." "Nid i ni, O Arglwydd, nid i ni, ond i'th enw dy hun dod ogoniant."

Yn y Gymanfa Gyffredinol ddiweddaf cydolygid mai priodol, ar yr achlysur dyddorol hwn, pan y mae ein Cenadaeth yn cyrhaedd blwyddyn ei Jiwbili, fyddai i ni fel Cyfundeb wneuthur casgliad arbenig i gyfarfod âg anghenion neillduol y gwaith ar yr adeg bresennol, ac amcanu codi y derbyniadau blynyddol i'r fath raddau fel ag i'n galluogi i ëangu ein gweithrediadau, ac i ddwyn y gwaith ymlaen yn fwy effeithiol.

Ystyrir fod yr amcanion canlynol yn rhai y dylid cadw golwg arbenig arnynt yn yr ymdrech a wneir yn ystod blwyddyn y Jiwbili:—(I.) Sicrhau fod darparíaeth effeithiol yn cael ei gwneyd i roddi hyfforddiant i bregethwyr brodorol yn Khasia, Jaintia a Sylhet, i'w cymhwyso i fod yn weinidogion yr efengyl i'w cydwladwyr. (II.) Cyfarfod â'r anghen neillduol yn Sylhet ar ail gychwyniad y gwaith yno. (III.) Trefnu y moddion anghenrheidiol er gwneyd y Genadaeth Feddygol yn effeithiol.

Mae gwasanaethgarwch *meddyginiaeth* i'r gwaith cenadol mor amlwg, ac yn cael ei gydnabod mor gyffredinol gan hyd yn nod y rhai pylaf eu hamgyffredion, fel nad oes eisieu dyweyd gair i ddangos teilyngdod yr amcan olaf a grybwyllwyd.

Nid llawer chwaith sydd heb fod yn ddigon meddylgar i ymdeimlo â'r anghenrheidrwydd i ni barotoi gogyfer â'r dyfodol. trwy roddi ADDYSG I WYR IEUAINC addawol o blith y brodorion fyddont yn awyddus i ymgysegru i waith y weinidogaeth ymysg eu cydwladwyr. Nis gellir dysgwyl i'r efengyl gael dylanwad cryf a chyffredinol ar unrhyw genedl ond trwy offerynoliaeth pregethwyr o'u plith hwy eu hunain, rhai yn gwybod am eu harferion a'u rhagfarnau, ac yn gynnefin â'u dulliau neillduol o feddwl a theimlo, ac yn gwybod felly pa fodd i fyned i mewn i'w serchiadau. Gellir gobeithio y bydd yr adeg wedi dyfod cyn pen hir iawn,—cyn pen hanner canrif eto, —pan na bydd anghenrheidrwydd am anfon cenadwr i Khasia,—pan y bydd y brodorion yn gallu cerdded eu hunain, heb gyn northwy arweinwyr o wledydd eraill; ac er mwyn iddynt allu dyfod yn hunangynnaliol ac yn hunan-lywodraethol heb berygl i'r gwaith ddyoddef, bydd yn rhaid iddynt gael pregethwyr wedi eu hyfforddi yn dda, ac i ryw nifer o honynt yn raddol gael y fath addysg ag a'u cymhwysa i weinyddu hyfforddiant i bregethwyr eraill.

Gyda golwg ar yr amcan arall a grybwyllwyd, nid ydym yn teimlo yn gwbl sicr a oes llawer yn ein Cyfundeb, pan yr ydym yn ail gychwyn Y GWAITH CENADOL YN SYLHET, yn sylweddoli mawredd yr anturiaeth yr ydym wedi ymgymeryd â hi. Mae rhanau o Khasia a Jaintia nad yw goleuni yr Efengyl eto wedi eu cyrhaedd, ac eto nid yw yr holl boblogaeth yn rhifo dau can' mil. Ond y mae yn Nhalaeth Sylhet ac yn Cachar, y dosbarth cyfagos, dros ddwy filiwn a dau gant a phedwar ugain o filoedd o drigolion.* Dyma faes y bydd yn anghenrheidiol i ni, tuag at ei amaethu i ryw fesur yn briodol, dynu allan ein holl nerth. Goreu po cyntaf i ni gredu mai ofer dysgwyl llawer o ffrwyth yn y fath faes gyda dim ond un neu ddau o lafurwyr. Byddai yn llawer gwell i ni ei adael, a cheisio gan ryw Genadaeth Efengylaidd arall ymgymeryd âg ef. Gadawsom y lle am bymtheg mlynedd, ac nid oedd un enwad arall y pryd hwnw mewn sefyllfa i wynebu arno. Gyda'r deffröad cenadol presennol yn yr Eglwysi Protestanaidd, digon tebyg y byddem yn awr yn fwy llwyddiannus. Ond tra y byddwn ni yn Sylhet, pa mor eiddil bynag fyddo ein hofferynoliaeth, ni bydd i un Genadaeth Brotestanaidd arall gymeryd unrhyw rhan o'r Dalaeth yn faes ei llafur. Ond paham y rhaid i ni "farnu ein hunain yn annheilwng" o efengyleiddio Sylhet? mae yr Arglwydd yn cynnyg yr anrhydedd i ni; mae, dybygid, wedi ymddiried y wlad hon i ni, ac yn ei enw Ef awn a meddiannwn hi. Ymgymerodd ein tadau â gwaith mawr dan amgylchiadau tra anfanteisiol. Nid ofer fu eu hyder. Cawsant mai "da oedd gobeithio a dysgwyl yn ddystaw am iachawdwriaeth yr Arglwydd." Ymddiriedwyd gwaith mawr i niuau,—gwaith sydd yn gofyn mwy o weithwyr, mwy o haelioni, ac, ar ryw gyfrif, mwy o ffydd a dyfalbarhad nag oedd yn anghenrheidiol i ddechreu ein Cenadaeth yn Khasia. Gadewch i ni ymddeffroi ac ymwregysu i'n gwaith; ni raid i ni betruso ynghylch y llwyddiant.

* Poblogaeth Sylhet a Cachar yn 1881, yn ol *Report of the Administration of the Province of Assam*, ydoedd 2,282,867; o'r nifer hwn yr oedd 1,969,000 yn Sylhet yn unig. Dywedir fod poblogaeth tref Sylhet, gyda'r pentrefi cyfagos, dros ddeugain mil. Mae Cachar yn yr un sefyllfa amddifad o'r efengyl â Sylhet, ac mor agos iddi fel y gellid dysgwyl iddi fod yn faes i'r un Genhadaeth.

Ni bydd perygl i unrhyw ymdrech a wneir genym gyda'r achos hwn, ymyraeth yn anffafriol â'r gwaith mawr sydd genym i'w wneyd yn ein gwlad ein hunain. Dengys hanes ein Cyfundeb, dros ystod yr hanner can' mlynedd diweddaf, fod y symudiadau mwyaf gwerthfawr er sicrhau llwyddiant ac effeithiolrwydd yr achos crefyddol yn y wlad hon, wedi bod yn gydfynedol, os nad i fesur helaeth yn gysylltiedig â'n hymdrechion cenadol. Mae yn ddiddadl mai pleidwyr mwyaf galluog a chynnorthwywyr mwyaf haelionus y gwaith cenadol sydd wedi bod bob amser yn fwyaf ffyddlawn ac aiddgar o blaid yr efengyl gartref.

Apeliwn yn hyderus at holl garedigion yr Arglwydd Iesu i gymeryd rhan yn yr ymgais arbenig hwn i ledaenu y wybodaeth am dano. Gwyddom y bydd y rhai sydd wedi bod yn fwyaf ffyddlawn i gynnorthwyo yr achos ar hyd y blynyddoedd, y rhai mwyaf parod i wneyd eu rhan ar yr adeg bresennol.

Ac oni bydd i rai sydd yn aelodau o'n heglwysi, ac heb fod wedi gwneyd eu rhan o blaid y Genadaeth yn yr amser a aeth heibio, amcanu ar yr achlysur dyddorol hwn i wneyd i fyny, i ryw fesur, am eu hesgeulusdra? Pa faint o aberth y gellir dysgwyl i rai sydd yn proffesu eu bod yn caru Crist ei wneyd er llwyddiant ei deyrnas? Gofidus gorfod dyweyd fod llawer nad ydynt yn gwneyd *dim;* rhai sydd yn dyweyd, fe ddichon, bob dydd, "Deled dy deyrnas," ac eto heb gyfranu ceiniog er ei hyrwyddiad; rhai yn gobeithio derbyn bywyd tragywyddol trwy Grist, ac eto heb gyfranu dim tuag at achos sydd mor agos at ei galon sanctaidd. Erbyn cymharu cyfanswm casgliadau y Cyfundeb tuag at y Genadaeth Dramor â nifer y cymunwyr (a gadael allan y symiau roddir gan ychydig bersonau dan y pen "Amrywion"), ceir nad ydyw y cyfartaledd ond wyth ceiniog a ffyrling ar gyfer pob cymunwr. Pan y cofir fod lliaws mawr yn tanysgrifio symiau yn amrywio o 2s. 6c. i £5, ac fod llawer o'n gwrandawyr yn cyfranu yn haelionus, mae lle i ofni fod nifer mawr o'n cymunwyr heb roddi *dim.* Apeliwn at y cyfryw yn awr i wneyd i fyny, hyd y gellir, eu diffyg yn yr amser a aeth heibio.

Diau, hefyd, fod ymysg ein haelodau eglwysig, lawer y mae yr Arglwydd wedi eu llwyddo yn fawr yn ystod y blynyddoedd a aethant heibio, y rhai a deimlant yn awyddus yn awr i gyflwyno rhyw gydnabyddiaeth sylweddol o'u diolchgarwch. Yr ydym oll wedi bod yn wrthddrychau ei ofal a'i dynerwch. Pwy o honom sydd heb fod dan rwymau i ofyn, "Pa faint o ddyled sydd arnaf fi i'm Harglwydd?" "Pob un megys y mae yn rhagarfaethu yn ei galon, felly rhodded; nid yn athrist, neu trwy gymhell; canys rhoddwr llawen y mae Duw yn ei garu. Ac y mae Duw yn abl i beri i bob gras fod yn helaeth tuag atoch; fel y byddoch chwi ymhob peth, bob amser a chenych bob digonoldeb yn helaeth i bob gweithred dda."

Ydym, ar ran y Pwyllgor,

ROBERT ROWLAND (Pwllheli), *Cadeirydd.*
EDWARD DAVIES (Llandinam), *Trysorydd.*
WILLIAM JAMES, (Clifton Villa, Aberdâr), GRIFFITH ELLIS, (10, Pembroke Road, Bootle), } *Ysgrifenyddion.*
JOSIAH THOMAS, *Ysg. y Genadaeth.*

Gellir cael copïau o'r anerchiad uchod mewn ffurf o *pamphlet,* llyfrau casglu, a phob hysbysrwydd, ond ymofyn âg un o'r Ysgrifenyddion. Da genym weled fod cyfeillion y Genadaeth mewn amryw o'r Cyfarfodydd Misol a'r Henaduriaethau wedi dechreu symud o ddifrif gyda chasgliad y Jiwbili. Mae amryw o gyfarfodydd cyhoeddus i goffhâu sefydliad y Genadaeth wedi eu cynnal. Cynnaliwyd y cyntaf ar *nos Wener,* yr 31ain o Ionawr, yn Nghapel Fitzclarence Street, dan lywyddiaeth y Parch. Dr. Owen Thomas. Ar *nos Wener,* Ionawr 31ain, hanner can' mlynedd yn flaenorol, y cychwynwyd y Genadaeth.

DERBYNIADAU AT Y GENADAETH.

DYMUNA y Trysorydd Cyffredinol gydnabod yn ddiolchgar dderbyniad y symiau canlynol er yr hysbysiad diweddaf:—

	£	s.	d.
Tuag at Ysbytty Jiwai, trwy law y Parch. T. Hughes, Kenchester:—			
Miss Lizzie Davies	2	2	0
Mr. W. Lewis	0	10	0
Mr. Philip Edwards	0	10	0
Mr. Philip Williams	0	5	0
Mr. R. Williams	0	10	0
Gogledd Aberteifi	8	3	6
Peel Road, Bootle, Blychau y Plant	1	15	1
D. Davies, Ysw., U.H., Llandinam, tuag at gynnorthwyo y Cristionogion yn Mawpuh y llosgwyd eu tai	10	0	0

Derbyniwyd hefyd £2 tuag at Gasgliad Jiwbili y Genadaeth oddiwrth "Un â'i galon yn Khasia," a throsglwyddwyd i Edward Davies, Ysw., U.H., Llandinam, Trysorydd Casgliad y Jiwbili.

Derbynir rhoddion at y Genadaeth gan y Trysorydd, DAVID HUGHES, ESQ., J.P., 4, *William Moult Street, Liverpool.*

☞ Gellir talu unrhyw swm mewn unrhyw gangen o'r *North and South Wales Bank, to the credit of Mr. David Hughes, Treasurer of the Welsh C. M. Foreign Missionary Society.* Gofaler am i bob *cheque* neu *Postal Order* a anfonir fod yn "crossed."

Derbynir rhoddion at Drysorfa Gweddwon ac Amddifaid Cenadon, &c., gan J. HERBERT LEWIS, ESQ., J.P., *Central Buildings, North John Street, Liverpool.*

Pob llythyrau yn achos y Gymdeithas i'w cyfeirio i'r Ysgrifenydd, *The Rev.* JOSIAH THOMAS, M.A., 28, *Breckfield Road Scuth, Liverpool.*

P. M. EVANS AND SON, ARGRAFFWYR, TREFFYNNON.